



Bodleian Libraries

UNIVERSITY OF OXFORD

This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:

<http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks>



This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.

GWAITH GLANMOR:

YN CYNNWYS:

HANES CERDDORIAETH GYSSEGREDIG,

YN CAEL EI

EGLURO A THONAU A DARLUNIAU:

YN NGHYDA

CHANIADAU AMRYWIAETHOL

CYMREIG, &c., &c.,

JOHN WILLIAMS (GLANMOR), M.R.C.P.

Awdwr "ANCIENT AND MODERN DENBIGH," &c.

GWRECSAM:

ARGRAPHWYD GAN R. HUGHES A'I FAB, HEOL ESTYN.

278935 f. 56

Bt. for R. G. BODLEIAN



RHAGYMADRODD.

YMDDENGYS i yspryd awenyddiaeth syrthio ar ein hawdwr pan nad oedd ond bachgen, oblegid canodd Garol Plygain, ar "Allwedd y Melinydd," mor bell yn ol a Nadolig, 1828,—cyfansoddiad maith, llawn o odlau, a brith gynghanedd, yn bur gywir o ran y mesur, ond yn wyllt iawn o ran synwyr. Pan gai gyfleustra, äi i le unig ar làn yr afon Dyfrdwy, i gyrchu yr ysprydoliaeth oedd iddo ef megis yn ymadenu dros ei ffrwd dywyll, orwyllt, a swnfawr.

Wedi hyn, ymddengys i'r Awen ymadael ag ef, neu iddo ei cholli yn nhrwst a ffwndwr arferol trefydd mawrion Lloegr, canys ni cheir iddo ganu dros saith neu wyth mlynedd, ond cyfieithiad o "*Gray's Elegy in a Country Churchyard*," a rhyw bennillion Saesonaeg. Ond yn 1836, ysgrifennodd gyfres o lythyrau ar "Grefydd Wladol," y rhai a ymddangosasant yn y "Brytwn," ac a dynasant lawer o sylw.

Y'nghorff y pum mlynedd ganlynol, canodd lawer, mewn monwent yn Sir Feirionydd, lle yr oedd yn cadw ysgol, megis ei "Awdl ar Job," "Gosteg ar Briodas y Frenhines," "Gosteg i Sir Watcyn," a rhai caneuon ac emynau. Ysgrifennodd hefyd draethodyn Saesonaeg a alwai "*Elements of Geometry and Mensuration, for young Boys*," ond ni wnaeth un cais i'w gyhoeddi. Gohebai i'r cyhoeddiadau, dan wahanol ffugenwau, ac ar un achlysur, pan oedd "Cynhafal," sef yr enwog a'r anfarwol "Ab Ithel," yn lluddedig mewn dadl gyda Pabydd, neidiodd ein bardd i'w esgidiau, ac felly, *integris viribus*, chwedl Caesar, distawodd ergydion y gelyn.

Treuliodd auaf 1841-2 yn Nghaerlleon, yn dilyn ei astudiaethau ysgolaidd, ond nid oes cof iddo ganu dim.

Yn ystod y saith mlynedd ddilynol, tra y trigai rhwng bryniau gleision Hiraethog, ymwelai yr awen äg ef yn fynych, ar lannau

coediog yr Elwy, ac yno canodd "Gywydd Anian," "Cywydd Ofergoelion," "Cywydd Nadolig," "Cywydd Gwahoddiad," englynion a cherddi Cymraeg a Saesoneg. Ai weithiau i bennau y mynyddoedd, ac i wynt y môr ei elfen gynhenid, i.e. i'r Eryri a Môn, &c., i chwilio am ymborth i'r awen, a'i "Dymhestl ar Oror Môn," yw un o'r cywyddau goreu a ganodd eriôed. Ysgrifennodd hefyd gyfres o lythyrau ar "Lythyfreniad a liafareddiad yr iaith Gymraeg," y rhai a ymddangosasant yn y "Protestant," tua dyddiau olaf y newyddiadur talentog trengedig hwnnw, a'r "*Catechism on Popular Astronomy*," yr hwn a erthylodd yn y wasg, o herwydd diffygion arianol yr argraffydd. Ni chyhoeddwyd byth chwaith "*A Short Catechism on the Festivals of the Church, for the use of Children*," na "*Simple Notes on the Parables of our Saviour, for Children*;" a rhoes i fynu mewn anobaith "Eiriadur Cymraeg a Saesoneg cynghanol ac odliadol, gyda Thraethawd llafurfawr ar Lythyreniaeth a Seiniad Cydmariaethol y ddwy Iaith." Casglodd hefyd "*Scraps of Welsh Wit and Anecdote*," heb fwriad i'w argraffu byth. Ond ei geffyl pren oedd Garddwriaeth, a magwriaeth pob math o flodau. Ar yr un pryd, parottöodd lawer o fechgyn i alwedigaethau parchus, ac yn ysgrifenywyr ieuengaf rhai o brif dai masnachol Lerpwl a'r India Orllewinol, ac aeth drwy holiad y Llywodraeth yn anrhydeddus ei hun.

Yn 1849, symmudwyd ef i Ddinbych. lle y bu agos i naw mlynedd, y priododd, ac y ganed iddo blant. Yn y cyfamser, ysgrifennodd y llyfryn, "Awstralia a'r Cloddfeydd Aur," a'i waith llafurfawr, "*Ancient and Modern Denbigh*." Golygodd "Gyfansoddiadau Buddugol Eisteddfod Blaenau Llangerniew,"—Beirniadaeth Eben Fardd, "Jona," Ceiriog, &c. Bu hefyd, gyda "Britannicus," cefnder talentog iddo, yn golygu papuryn Saesonaeg trefol. Ysgrifennodd amryw erthyglau meithion i'r "Gwyddoniadur," a chyfieithodd rai darnau o Esponiad Barnes ar yr Epistolau, yn niffyg "Rees o Gendl." Heblaw gohebu i'r newyddiaduron, ysgrifennodd hefyd amryw bethau na chyhoeddwyd mo'nynt byth.—"*The Parochial History of Denbigh, its Charities, and the Rise and Progress of the Dissenting Denominations*,"—"*Lectures on the History of Wales*,"—"*The and History Nature of Comets*,"—"*A Discourse upon Water*,"

&c., &c.” Gweinyddodd fel beirniad amryw eisteddfodau lleol ar hyd y wlad.

Yn 1858, yr oedd yn olygydd papur newydd Saesonaeg wythnosol yn Ngwrecsam, yn ohebydd taledig i un o bapurau Llundain, ac ysgrifenydd prif erthyglau i un o bapurau Lerpwl.

Yn y flwyddyn 1859, aeth i gadw ysgol mewn lle dipyn yn y wlad, ac yma casglodd a chyfieithodd o'r Lladin, &c., “*The Records of Denbigh and its Lordship*,” llyfr a gyhoeddwyd yn 1860; a threfnodd “Lyfr y Datguddiad, ac Epistolau St. Ioan, mewn pedair iaith—Groeg, Lladin, Cymraeg, a Saesonaeg.” Canodd hefyd gryn lawer, heblaw cyfieithu rhywfaint, a gohebu yn fisol i un o'r cyhoeddiadau, beirniadu, &c., a'r cwbl yn oriau arferol esmwythdra, ac yn ystod ei wyliau ysgol.

Yn 1861, traddododd ddarlithiau mewn rhai trefydd yn erbyn yr “*Essays and Reviews*.”

Yn 1862 a 1863, cynnygiwyd iddo ddau neu dri o wahanol bulpudau, fel cynnorthwywr a darlithiwr, ond ni farnai esgobion Cymru yn addas ei ordeinio, na'i holi, gan ei fod dros yr oed arferol i dderbyn urddau, er bod ganddo lawer o “dystiolaethau” uchel o'i gymmwysderau tybiedig.

Yn ddiweddar etholwyd ef yn Aelod o Athrofa Frenhinol Dysgawdwyr.

Gosodwn yn awr o flaen y darllenydd enghreifftiau o'i gyfansoddiadau, mewn rhyddiaith a barddoniaeth. Am deilyngdod ei waith gadawer hynny yn gwbl i farn ei wlad a'i genedl.





CYNNWYSIAD.

	TUDAL.
ARLUNIAU O OFFERYNAU CERDD HENAFOL GWAHANOL GENEDLOEDD.	
RHAGYMDRODD	3

RHYDDIAITH.

HANES CERDDORIAETH Y CYSSEGR	9
Enghreifft o Gerddoriaeth Iuddewig	12
" " Ambrosaidd	18
" " Regoraidd	21
" " Lutheraidd	25
" " Almaenaidd	27
" " Gymreig	34
" " Fethodistaidd	36
" " Fethodistaidd y ganmlwydd ddiweddaf	37
" " Yr Amser presennol	39
" " Buddugoliaeth	41
HANIAD Y BYD	51
OES GWYBODAETH A RHESWM	52
DIWEDD Y BYD	56
MEDDYLIAU A DYWEDIADAU MOESOL	59

BARDDONIAETH.

CYFANSODDIADAU CYSSEGREDIG:—

Awdl ar Gystuddiau, Amynedd, ac Adferiad Job	65
Awdl Adlais Cân yn Angelion	74
Cywydd Nadolig	75
Pryddest ar Ing Gardd Gethsemane	78
Pryddest ar Eli	81
Carol Nadolig	87
Dydd y Farn	88
Emyn	89
Y Greadigaeth	90
Y Croeshoeliad	90
Hawddgarwch Crist	90

CYFANSODDIADAU MARWNADOL:—

	TUDAL.
Coffadwriaeth am Mrs. Sandbach, Hafodunos	1
Marwnad y diweddar William Owen, Ysw., Tan-y-girt	94
Marwolaeth Ab Ithel	98
Marwolaeth Golyddan	99

CYFANSODDIADAU AMRYWIAETHOG:—

Pryddest ar Briodas Tywysog Cymru	100
Gosteg ar Briodas ei Mawrhydi	103
Cywydd Tymmestl ar Oror Môn	104
Cywydd Adfeilion Dinbych	106
Englyn i'r Bedd	107
Ber Awdl ar hen Faes Rhyfel	108
Llinellau mewn Monwent	108

DIDDANION A DIFYRRION:—

Awdl Cyffes yr Oferddyn	109
Gwahoddiad i Rodio'r Gwyliau	111
Cywydd Carwriaeth Robin Ddu y Cyntaf	112
Cywydd Carwriaeth yr hen Gruffydd ab Ifan	114
Twll Bach y Clo	115
Gŵr ag un Goes	116
Dammeg y Falwoden Uchelgais	116
Englyn:—Y Peiriant-symmudol	117
„ I'r Fedwen	117
„ I'r Lleuad	117

CYFANSODDIADAU SYNIAETHOL:—

Y Fam oedd yn Wyllo—Y Gerddoriaeth	118
„ „ Y Farddoniaeth	120
Bugeilgerdd	121
Proest i Bryddest Fuddugol råd a sal	121
“Hen Frydain”	122
Caniad Odyddol	122
Englyn i'r Morfil	123
Caniadau Cyfrinfaol Urdd y Derwyddon	124
Y Dderwen Frydeinig	125
Cariad Pur	126

ENGLYNICX.—

Beddargraph Meddwyn	127
I'r Rhyl	127
I Glychau Gwreccsam	128
I'r Ywen Feddrodol	128

GWAITH GLANMOR.

IIANES CERDDORIAETH Y CYSSEGR:

YN CAEL EI EGLURHAU

A Deuddeng Enghraifft o hen Gerddoriaeth Iuddewig, Ambrosiaidd, Gregoriaidd, Lutheraidd, Eglwysaidd (Gymreig), Methodistaidd, a diweddar.

NID oes ammheuaeth nad oedd canu yn rhan o wasanaeth eglwys a phobl Dduw y'mhob oes. Dyfeisiwyd offer-cerdd gan Iubal, tua phum cant o flynyddoedd cyn y Diluw, ond nid oes fawr debyg iddynt gael eu cyssegru i wasanaeth Duw gan neb o hil Cain. Er nad oes ar gael hanes am ganu mawl yn foreuach nâ gwar-edigaeth Israel o'r Aipht, a dinystr Pharaoh a'i lu yn y Môr Coch, prin y gallwn gredu na foliannodd neb y Goruchaf ar gân o Adda hyd Moses a Miriam. Pan ganodd yr angelion gân fawr y greadigaeth, a allwn ni gredu nad oedd i Adda, tra etto yn ei burdeb a gwynfyd dechreuol, ei ran yn ngorfoledd "holl feibion Duw?" Sonir am gerddoriaeth y'nglŷn âg addoliad eilun-dduwiau y cenedloedd,—traddodiad a dderbyniasent yn ddiau oddiwrth gyndadau yr Ysgrythyr. Er hynny, "Cân Moses" yw y fawlgân hynaf a fedd y byd yn awr, ac y mae yn gyfansoddiad ardderchog, fel darn o farddoniaeth ysprydoledig a phrophwydoliaethol. Nid oedd y cyndadau boreuach heb wybod caniadaeth leisiol ac offerynnol, canys Laban a ddywed wrth Jacob, "Hebryngaswn dydi â llawenydd, ac â chaniadau, â thympan, ac â thelyn." Ië, hyd yn oed ar grwydr flin yr anialwch, sonir am ganiadau mawl plant Israel, mewn ffordd o ddiolchgarwch am drugareddau cyfamserol, a rhagolwg ar gyflawniad addewidion, yn enwedig cân bro-

phwydol Moses cyn ei farw. Bernir iddo ganu y ddegfed Psalm a phedwar ugain pan ddigiodd Duw wrth ei bobl, ac y tyngodd na chai y genedlaeth honno fyned i mewn i'w orphwysfa.

Y fawlgân nesaf y sylwn arni fydd Cân Deborah a Barac am waredigaeth Israel oddi tan iau orthrymmus Jabin, brenin Canaan. Cân farddonol iawn yw hon, yn natganiad pa un y gallasai holl gynnulleidfa Israel ymuno mewn diolchgarwch i Dduw. Byddai duwiolion yr Hen Destament yn arfer canu mawl am drugaredau a gwaredigaethau personol, megis Hannah. Yr un, o ran sylwedd, oedd ei chân hi â'r eiddo y Forwyn, mam yr Iachawdwr—prophwydoliaeth am oruchafiaeth y Messiah ar elynion ei eglwys.

Ond Dafydd oedd perganiedydd Israel, ac efe a ddygodd gerddoriaeth gyssegredig i berffeithiad uwch nâ neb o'i flaen. Yn y diwygiad cerddorol hwn cynnorthwyd ef yn alluog gan Asaph ac eraill. Dangosodd Dafydd dalentau cerddorol hynod er yn foreu, fel y profir oddiwrth ei ddewisiad i fod yn delynor y brenhin pan etto ond glaslangc. Ni bu ychwaith fardd mwy o Moses hyd Esaiah. Fod caniadaeth yn rhan o wasanaeth y tabernacl cyn ei ddyddiau ef sy beth lled sicr, ond efe a wnaeth ddefod a dosparth ar feibion Lefi, fel cantorion a cherddorion. Ni sonir yn nghyfraith Moses fod canu yn un rhan o'u gwasanaeth. Amlwg yw, er hynny, fod ebyrth moliant yn cael eu hoffrwm gyd â cherddoriaeth a chaniadau ar yr uchelfêydd gynt. Gwel 1 Sam. x. 5. "Y rhai hyn," meddir, "a osododd Dafydd yn gantorion yn nhŷ yr Arglwydd, ar ol gorphwys o'r arch. A hwy a fuant yn weinidogion mewn cerdd o flaen tabernacl pabell y cyfarfod, nes adeiladu o Solomon dŷ yr Arglwydd yn Jerusalem," &c. (1 Cron. vi. 31, 32.) "Meibion Asaph, a Heman, a Jeduthun, y rhai a brophwydent â thelynau, ac â nablau, ac â symbalau. Meibion Asaph, dan law Asaph, yr hwn oedd

yn prophwydo wrth law y brenhin." Felly "meibion Jeduthun, dan law Jeduthun eu tad, ar y delyn yn prophwydo i foliannu ac i glodfori yr Arglwydd." Dywedir hefyd am "Heman, gweledydd y brenhin y'ngeiriau Duw," "Duw hefyd a roddes i Heman bedwar ar ddeg o feibion a thair o ferched. Y rhai hyn oll oedd dan law eu tad yn canu yn nhŷ yr Arglwydd, â symbolau, â nablau, ac â thelynnau, i wasanaeth tŷ Dduw; yn ol trefn y brenhin i Asaph, a Jeduthun, a Heman. A'u nifer hwynt, ynghŷd â'u brodyr dysgedig y'nghaniadau yr Arglwydd, sef pob un cyfarwydd, oedd ddau cant pedwar ugain ac wyth." Y rhai hyn a weinyddent mewn pedwar dyddgylch ar hugain, sef deuddeg y'mhob cylch, wedi eu dilladu â llian main, sef mewn gwenwisgoedd. Ond ar uchelwyliau ac achlysuron arbenig, byddai nifer y cantorion a'r cerddorion yn fawr iawn, yr holl gôr tua phedair mil, a phan dderchafenteu llais fel un llef, ar grib uchel Moriah, y'mhen y mynyddoedd, tir llawer uwch nâ choppa uchaf yr Eryri, clywid eu gorfolodd o bellder dirfawr. Ar gyssegriad Teml Solomon bu yno un o'r cyngherddau ardderchoccaf a glywed eriôed ar y ddaear. "Fel yr oedd yr udganwŷr a'r cantorion megis un i seinio un sain i glodfori ac i foliannu yr Arglwydd; ac wrth ddyrchafu sain mewn udgyrn, ac mewn symbolau, ac mewn offer-cerdd, ac wrth foliannu yr Arglwydd, gan ddywedyd, Canys da yw; ac yn dragywydd y mae ei drugaredd Ef; yna y llanwyd y tŷ â chwmmwl, sef tŷ yr Arglwydd, fel nad allai yr offeiriaid sefyll i wasanaethu gan y cwmmwl; o herwydd gogoniant yr Arglwydd a lanwai dŷ Dduw." (2 Cron. v. 12—14.)

Adfywiad mewn caniadaeth eglwysig, a hynodai y diwygiadau crefyddol dan Asa, Hezeciah, ac eraill. Sylfaenwyd teml Zorobabel, a chyssegrwyd mur Jerusalem â chân gorfoledd.

Ar lanhâd yr ail Deml, wedi ei halogi gan Antiochus Epiphanes, "Gosodid hi i fynu o'r newydd â chaniadau,

â phibau, ac â symbalau." (1 Mac. iv. 54.) Yr oedd sôn am ganiadau Sion hyd y'mhell. Gofynid i blant y gaethglud ganu un o'r caniadau hynod hyn yn Babilon, pan oedd eu telynau y'nghrog ar helyg ceulannau yr Euphrates.

Er caethed oedd y gyfraith gyd â golwg ar yr offeir-
iadaeth, gwneid y côr i fynu mewn rhan o ferched, yn
gystal a holl feibion Lefi.

Canodd Crist hymn gyd â'i ddisgyblion, hyd yn oed
ar noswaith "ei ddirfawr ing a'i chwys gwaedlyd."
St. Paul hefyd a gynghora yr Ephesiaid a'r Colossiaid i
ganu "Psalmau a hymnau, ac odlau ysprydol."

CERDDORIAETH IUDEWIG.

YIGDOL.

(O Donau y Synagog.)

The musical score is written in 2/4 time with a key signature of two sharps (D major). It consists of two systems, each with four staves. The first system includes a mezzo-forte (mf) dynamic marking. The music features a mix of eighth and sixteenth notes, with some rests and repeat signs.

Cerddoriaeth Iu lldewig—parhad.

dim. *p*

The musical score consists of four staves. The first staff is the vocal line, starting with a treble clef and a key signature of two sharps (F# and C#). It begins with a *dim.* (diminuendo) marking and ends with a *p* (piano) marking. The second and third staves are for the right hand of a piano, and the fourth staff is for the left hand. The music is in a 4/4 time signature and features a mix of eighth and quarter notes, with some rests and dynamic markings.

Duw Abraham a'i nerth
 Ar grwydrol hynt,
 Duw welwyd yn y berth
 Gan Moses gynt ;
 Jehofa'r "YDWYF" mawr,
 A'i air dilŷth,
 Iôr nef a daear lawr ;
 Bendigaid byth.

Ac y'mhob oes bu canu mawl cynulleidfäol yn rhan o addoliad yr eglwys. Pliny, yn nechreu yr ail canmlwydd, a ddywed fod y Cristionogion yn arfer canu bob yn ail fawl i Crist megis Duw. Eusebius hefyd, a'r tadau boreu, a soniant am psalmau a hymnau y cyn-Cristionogion. Nid fel Israel gynt, pan grogent eu telynu ar yr helyg, canai a phyngciai y Cristionogion erlidiedig hyn hyd yn oed yn nhyllau ac ogofäau y ddaear.

Hymnau Cristionogol y tair canmlwydd cyntaf oedd-ynt, debygem, oll yn yr iaith Roeg, ond nid oes ond rhyw dair neu bedair wedi dyfod i lawr hyd ein dyddiau ni, un o ba rai yw y *Gloria in Excelsis*, neu "Gogoniant i Dduw yn yr Uchelder," &c., a gorphorwyd â Gwasanaeth y Cymmun gan Eglwys Loegr, ac a genir ar ol darllen y Psalmau yn Eglwys Esgobol America. Tybia rhai mai dyma y gân y cyfeiria Pliny atti ; y mae yn sicr ei bod yn un o weddillion yr oesoedd apostolaidd. Corphorwyd emyn arall hen iawn gyd â'r *Te*

Deum, yn dechreu gyd â'r geiriau "Teilynga, Arglwydd, ein cadw y dydd hwn yn ddibechod," &c. Y mae yr un henafiaeth yn perthyn i'r *Ter Sanctus*, neu yr Emyr Seraphaidd, "Am hynny, gyd âg angelion ac archangelion," &c., hefyd yn Ngwasanaeth y Cymmun.

Y mae gan y Groegiaid gân hen iawn a elwir yr *Hymnus Lucernalis* (Emyr Canwyllaidd), yr hon a genid ar fachlud haul.

Un hymn arall yw y cwbl o'r emynau Groegiaidd "Apostolaidd" a adawyd i'r eglwys ddiweddar.

Yr oedd Eglwys Syria yn hynod am ei chaniadau ysprydol. Ei phrif-fardd cynnulledifäol oedd Ephrem Syrus, offeiriad yn Mesopotamia, yr hwn a cyfansoddde filoedd lawer o bennillion, neu hymnau, yn anadlu duwioledeb pur, a gwres cariad Cristionogol ac angerddol. Cyfrifir rhyw 13,000 o'r fath ganiadau ysprydol i'r Eglwys Syriaidd. Cyfieithwyd rhai o honynt yn ddiweddar i'r iaith Saesneg.*

Enaid a gogoniant crefydd yr oesoedd nesaf ar ol yr Apostolion oedd caniadaeth deuluaidd a chynnulleidfäol. Tra yr oedd cerddoriaeth ysprydol yn dadsain oddi rhwng muriau eglwysig y dinasoedd, nis gellid tramwy drwy un pentref Cristionogol heb glywed canu Psalmiau. Clywid, fel y tystia Jerome, canu Aleliwia wrth gorn yr aradr, neu hymn gan bob medelwr a gwinllanydd; ac hyd yn oed mabandod yn bloesgio mawl i Grist. Ac yr oedd y caniadau hyn yn llawn o orfoledd, a thân cariad megis wedi disgyn oddiar allor y nef.

O'r holl hymnau a berthynant i'r oesoedd hynny, nid oes un mor odidog a'r *Te Deum*, "Ti Dduw a folwn, &c." Dyma y fwyaf dwyfol o'r holl emynau anysprydoledig, ac y mae o radd agos iawn i'r Psalmiau a ganai Dafydd dan gynhyrfiad uniongyrchol Yspryd Duw. Ni wyddis hanes eu dechreuad yn sicr, ond priodolir hi yn

* Gwel "*Church Song*," gan y Parch. Henry Allen (Anghyddfurflwr), i'r hwn yr wyf yn ddyledus am lawer o feithiau pwysig.

gyffredin i Ambros. Dywed rhai iddo ei chanu gyntaf yn ddifyfyr ar fedyddiad Awstin yn Eglwys Gadeiriol Milan ; eraill iddo ef ac Awstin ei chanu bob yn ail. Nis gellir ei holrhain, modd bynnag, i ddyddiad boreuach nâ'r bedwaredd ganmlwydd. Wele bennilliad newydd—

Ti Dduw, a folwn yn dy wydd,
Ti yw ein Harglwydd nefol ;
Y ddaear oll rydd it' fawrhâd,
Ti yw y Tad Trag'wyddol.

Ac ar dy Enw Di, Dduw da,
Y llefa'r holl angelion ;
Y nefoedd oll â llawen floedd,
A nerthoedd yr uchelion.

Cerubim a seraphim cain
Sy'n llefain yn oes oesoedd,
Sanct, Sanct, Sanct, JEHOFA byw,
Yr Arglwydd Dduw y lluoedd.

Y nef a'r ddaear oll a gawn
Yn gyflawn o'th ogoniant ;
Yn ogoneddus ger dy fron
Yw Apostolion ganant.

Yn ddibaid y clodforant Di,
Moliannus ri 'r prophwydi,
Ac oddi tan yr allor fry
Ardderchog lu 'r merthyri.

Y mae yr eglwys lân i gyd,
Drwy yr holl fyd cyfannedd,
Yn dy gydnabod Di 'r Tad byw ;
Anfeidrol yw dy fawredd.

Dy anrhydeddus unig wir
Fab cywir a thrag'wyddol,
A'r Yspryd Glân 'r hwn hefyd sydd
Yn wir Ddiddanydd Dwyfol.

I Ti, O Grist, y plyg bob glin—
Ti, Frenhin y gogoniant,
Ti yw trag'wyddol Fab y Tad,
Mawr yw dy rad a'th haeddiant.

Pan gym'raist arnat wared dyn,
Bru 'r Forwyn ni ddiystyraist,
A phan orchfygaist uffern gref,
Pyrth teyrnas nef agoraist.

Ti sydd yn eistedd yn y ne'
Ar gref law-dde y Duwdod,
Yn holl ogoniant y Tad byw,
Diderfyn yw d'awdurdod.

Yr f'm ni 'n credu mai Tydi
A'n berni yn gyfiawnaf,
Pan ddelych o'r nef wen i lawr
Yn y dydd mawr diweddaf.

Gan hynny, Arglwydd, trugarha,
A chynorthwya'th weision,
Y rhai drwy bryniad drud a gaed—
Pris werthfawr waed dy galon.

Par iddynt gael su casglu nghŷd
O blith y byd colledig,
A'u cyfrif gyd â'th saint dy hun,
Bob un yn etholedig.

O cadw 'th bobl, Arglwydd da,
Bendithia d' etifeddiaeth,
A llywia 'r rhai a brynaist gynt,
Dôd iddynt oruchafiaeth.

Byth, Arglwydd, y clodforwn ni,
Gan dy addoli beunydd;
Ac anrhydeddwn d' Enw Di,
Heb dewi yn dragywydd.

Yma y terfyna cyfansoddiad Ambros, ond ychwaneg-
wyd, yn bur afreidiol, yr hen Emyr tlws canlynol:—

Teilynga, Arglwydd, er dy fri,
Ein cadw ni 'n ddibechod,
I rodio beunydd, drwy dy ras,
Fel plant y deyrnas uchod.

O Arglwydd, wathym trugarha,
A brysia Di i'n gwared;
Yn dy drugaredd Di a'th rym
Yr ydym yn ymddiried.

O Arglwydd, ynot mae fy nghred,
F' ymddiried oll a'm hyder,
Fy ngobaith sydd yn Nuw di-lyth,
A byth na'm cywilyddier.

Y mae nymn Ladiniaidd odidog arall, "*Urbs beata Jerusalem*," o'r hon y caed meddylddrych "*Caersalem, dinas hedd, &c.*," emyn Cymreig ddigon adnabyddus, ac un y cenid llawer arno oes yn ol.

Y lân Gaersalem Newydd
A'i ddisglaer berlog byrth,
Ni syflir yn dragywydd,
Un maen o'i mur ni syrth;
Ei sail yw Craig yr Oesoedd,
A'i theml yw Duw ei hun;
I hon y dwg brenhinoedd
Eu teyrnged yn gyttún.

Ei theg heolydd eufaidd
 A rodia seintiau fyrdd,
 Yn ei hawelon balmaidd
 Y chwery'r palmwydd gwyrdd,
 Lle tardd ffynhonnau gwynfyd,
 'Trag'wyddol hedda a hoen,
 Grisialaidd ddyfroedd bywyd
 O orsedd Duw a'r Oen.

Y ddinas fawr ysplenydd
 Lle trig nefolion glân,
 Neuaddau y llawenydd
 Diderfyn wledd a chân;
 Dan gysgod Pren y Bywyd,
 Yn dwyn ei deuddeg ffrwyth
 A'i ddail yn rhoddi iechyd
 I bob rhyw iaith a llwyth.

Y lân Gaesalem Newydd
 Sy 'n d'od o'r nef i lawr
 Oleua yr holl wledydd,
 A leinw 'r ddaear iawr;
 I'w phyrth daw 'r holl genhedloedd
 A'u mawl dros dir a thon,
 A Brenhin y brenhinoedd
 Deyrnasa byth yn hon.

Yr oedd Ambros yn Esgob Milan yn y flwyddyn 374 O.C., a bu farw tua diwedd y bedwaredd ganmlwydd, ac ni chanodd neb arall hymnau Lladin cyffelyb iddo. Yn ei ddyddiau ef yr oedd caniadaeth gynnulleidfaol yn troi o iaith fwyn soniarus Groeg i'r Lladiniaith oerllyd angherddorol. Etto, ceir gryn lawer o yspryd awenyddol y Dwyrain yn nghyfansoddiadau Ambros, er eu bod ar bennilliad prydyddion Rhufain—gan mwyaf o bedair llinell, o chwech neu wyth sill, ond yn ddiodl. Yn wir, prin iawn o ran mesurau yw holl Salmyddiaeth a hymnyddiaeth yr Eglwysi Gorllewinol—dim ond rhyw dri neu bedwar mesur, fel gan Sternhold a Hopkins, Tate a Brady, y'mhlith Eglwyswyr, a Watts y'mhlith Ymneillduwyr Lloegr. Gwir i William Myddleton droi Llyfr y Psalmiau ar y Pedwar Mesur ar Hugain yn Gymraeg—cyfansoddiad a saif yn gampwaith oesol a rhyfeddol, ond ni osododd neb, debygwyf, bennill o hono eriôed ar gerdd leisiol. Canodd yr hybarch Archddiacon Prys agos ei holl waith ar un amser!

Dywedir mai Ambros a ddygodd ganiad y Psalmiau i arferiad yn yr Eglwysi Gorllewinol, yn ol dull y Dwyrain; a'u canu bob yn ail adran. Y mae rhai o'i dônau yn aros hyd heddyw, ac y maent yn nodedig am eu symledd llednais. Nid oedd offer-cerdd wedi dyfod etto i arferiad yn yr Eglwys Gristionogol. Cyfyngai Ambros ei holl gerddoriaeth gyssegredig i bedair tòn sylfaenol, neu bedwar alaw gwreiddiol, a elwid y Doraidd, y Phrygiaidd, y Lydiaidd, a'r Myxolydiaidd, ac ni chyfrifid un cyfansoddiad yn awdurdodol oni fyddai yn yn gainge o'r alawon gwreiddiol hyn. I'r rhai hyn y cyfyngwyd defosiwn leisiol yr eglwys dros ddau cant o flynyddoedd.

CERDDORIAETH AMBROSAIDD.—M. H. EMYN HWYROL ADVENT.

The musical score is written in G major (one sharp) and 2/2 time. It consists of two systems of four staves each. The first system includes a bass staff (C-clef) and three treble staves (G-clef). The second system includes three treble staves and one bass staff. The music features a simple, hymn-like melody with a dotted half note followed by a quarter note in the first staff of each system.

Cerddoriaeth Ambrosaidd—parhad.

Mae'r seithfed angel yn par'toi
 Yr udgorn olaf i ddeffroi ;
 Y dorf a hûn, yn llwch y llawr,
 A'u galw oll i'r fawdle fawr.

Y diwygiad hynod nesaf mewn Cerddoriaeth Eglwysig a ddygwyd oddi amgylch gan Gregory Fawr, yr hwn a etholwyd yn Esgob Rhufain yn y flwyddyn 590. Yr oedd efe yn bugeilio yr Eglwys honno mewn cyfnod hynod o'i hanes—ar fin ei chwmp o uniawnfarn apostol-aid, o symledd ag ysprydoldeb cyssefin, i seremoniaeth ffurfiol ac ofergoeledd, a llygredigaeth cred a buchedd. Gregory oedd yr olaf o esgobion Rhufain teilwng o'r cyfenw "Olynwr yr Apostolion," a gwrthododd yr enwau cabledd a dderbyniodd ac a honnodd ei olynwyr. Casglodd ynghyd yr holl weddillion oedd ar gael o hen Gerddoriaeth Eglwysig, ac heblaw pedair tŷn Ambros, ffurfiodd bedair eraill: ac ar gyfrif ei symledd mawreddus, a'u difrifolder aruchel, yn gystal a dyfnder cyssegredig eu defosiwn, y mae y Tŷnau Gregoraidd yn odidog tu hwnt i ganmoliaeth. Sylfaenodd Ysgol Gerddorol hefyd, yr hon a barhâodd am dri chan mlynedd wedi ei farw. Dygwyd cerddoriaeth Regoraidd i Loegr gan Awstin Fynach, ac felly ffurfiodd wreiddyn caniadaeth Eglwysig y Saeson. O'r un ffynhonnell y tarddodd caniadaeth Lutheraidd a

Phrotestanaidd yr Almaen. Dyma hefyd seiliau alawol y mwyafrif o gyfansoddiadau aneilfydd prif feistriaid cerdd y Cyfandir, yn enwedig Handel a Mendelssohn, yr anthemau, yr offerenau, a'r corosau godidocaf a fedd y byd.

Os gweddilliwyd dim o gerddoriaeth Dafydd ac Asaph, ac ysgol y prophwydi, trwy ddefod a thraddodiad y synagog, credir fod y bywullyn i'w gael yn alaw y tŷnau Gregoraidd. Y mae 9fed Dôn Regoraidd yr un â'r Dôn Basg Iuddewig, yr hon y credir i'n Hiachawdwr a'i ddisgyblion ei chanu "y nos honno y bradychwyd Ef."

YR HEN DON BASG IUDEWIG.

Araf.

Ti, Farnwr y byd, O Ar-glwydd cyf-iawn,

Brysia i'n gward, at-ol-wg i Ti.—Diolch i Ti,

O Ar-glwydd, Ha-le-liw-ia, A-men.

Megis yr arferasai cyfeiliornwŷr cerddoriaeth a hymnyddiaeth i swyno clustiau dynion at athrawiaethau gau, felly bu caniadaeth Ambros yn foddion nerthol i ledaenu syniadau uniongred. Ond un diben mawr gan Gregory oedd glanhâu caniadaeth y cyssegr oddi wrth weddillion cerddoriaeth baganaidd, a thônau ysgeifn masweddiol, a ddygasid, o bryd i bryd, o'r chwareudŷ i'r eglwys.

CERDDORIAETH REGORAIDD.—*Magnificat.*

Llon. Y DON GYNTAF.

The musical score consists of two staves. The top staff is in treble clef and the bottom in bass clef. The time signature is 2/2. The music is written in a style of chords with some melodic movement, typical of Gregorian chant accompaniment. There are two measures in each staff, separated by a double bar line.

Fy enaid a fawrha yr Arglwydd, &c.

Llon. Celebrate. Y BUMMED DON.

The musical score consists of two staves. The top staff is in treble clef and the bottom in bass clef. The time signature is 2/2. The music is written in a style of chords with some melodic movement. There are two measures in each staff, separated by a double bar line.

Clodforwech yr Arglwydd, &c.—PSALM cxxxvi.

Cyfnod hir a thywyll a ddilynodd oes Gregory—dyddiau na ffynnai dim bron, ond monachaeth ac addoliad y Forwyn Fair. Etto yn y nos ysprydol hon, nos marweidd-dra a llygredigaeth cyffredinol, canwyd rhai o'r hymnau godidoccaf a fedd yr eglwys, y'mhlith para y gallwn yn arbenig enwi "*Veni Creator*;" ac ni chynnyrchodd un oes emyn mwy ysprydol ac efengyl-

aidd. Y mae cyfieithiad yr Archddiacon Prys yn ddigon hyspys a rhagorol—

“Tyr'd Yspryd Glân i'n c'lonau ni
A dod d'oleuni nefol,
Tydi wyt Yspryd Crist dy ddawn
Sydd fawr iawn a rhagorol.

Llawenydd, bywyd, cariad pur,
Ydynt dy eglur ddoniau;
Dod eli 'n llygaid, fel i'th saint,
Ac enaint i'n gwynebau.”

Ei ail gyfieithiad, modd bynnag, yw y meithaf a'r nesaf at y gwreiddiol.

Dywedir yn gyffredin mai yr Ymerawdwr Siarl Fawr oedd awdwr yr hymn ogoneddus hon.

Y'mysg emynau hynottaf y canol-oesoedd, gallwn hefyd nodi “*Jesu, dulcis memoria*,” o waith Bernard; drychfeddwl gwreiddiol, “*Iesu, difyrwch f' enaid drud*” gennym ni. Ond yr ardderchoccaf oll yw y “*Dies Irae*,” hymn fawr yn disgrifio dychrynfeydd Dydd y Farn, ar fesur triban odlog, gan Thomas Celano. Wele yr Emyn—

Dydd digofaint, myrdd alarant,
Arwydd fawr y Groes a welant,
Nef a daear a gydlogant.

Dyn gan ofnau calon gryna,
Barnwr pawb o'r nef ddisgyna,
Ar ei raith pob peth ddibyna.

Rhyfedd sain ! yr udgorn gana,
Drwy'r beddrodau y dadseinia,
Pawb gerbron y frawdle alwa.

Angau leddir, natur gryna,
Llwch y bedd a ymddadebra,
Ac i'w Farnwr yr atteba.

Wele, lyfr yr holl gyfrifon,
A gweithredoedd meibion dynlon,
Lle darllenir dedfryd gyfion.

Dring y Barnwr craff i'r orsedd,
Pob cuddiedig fai a throredd,
Ddwg gerbron ei faingc a'i fawredd.

Beth, ys, t'uan ddyn ! ddadlenuaf ?
Ar eiriolaeth pwy disgwyliaf
Am drugaredd y dydd olaf ?

Frenin o ofnadwy fawredd !
Cymmorth fi â rhad drugaredd,
Ffynnon gras ! fy holl angeledd.

Iesu Mawr ! fy iachawdwriaeth
Earaith ryfedd ymgawdoliaeth,
N'ad fi fyn'd i golledigaeth.

Drwy fawr ludded blin y'm ceisiaist,
A thrwy boen y groes y'm pryniaist,
Beth a ddaw o'r gras a roddaist ?

Barnwr pur y cyflawn daliad,
Dyro imi ymollyngiad
Cyn dydd mawr y penderfyniad.

Euog wyf, 'rwy 'i 'n tywallt gweddi
Cyffes drist o'm gwarth a'm cyni,
Arbed fi, O Dduw, 'rwy 'i 'n gwaeddi.

Pechadures fawr waredaist,
Lleidyr ar y groes achubaist,
Ac i minnau gobaith roddaist.

Beth yw gweddi daer ruddfannol ?
Etto clyw, O Dduw 'n dosturiol,
Achub fi rhag tân trag'wyddol.

Dod fi 'mysg dy ddefaid priod,
Nid y'mhlith y geifr i'm gwrthod,
C'od fi i'th ddeheulaw uchod.

Pan lewyga 'r annuwiolion
Yn nyfnderau 'r ffamlllyd eigion,
Galw fi i lys angelion.

Wrth dy draed yr ymostyngaf
Yn y lludw 'r edifaraf,
Cymmorth fi 'n fy nghyflwr olaf.

O ddydd dagrau ! dydd o dristyd !
O lwch daear yn dychwelyd,
Dyn i gyflawn farn ddarpara
Arbed ef, O Dduw ! prysura,
Ti agorwr pyrth y bedd,
Dyro hun trag'wyddol hedd

Y mae hefyd yn y Gwasanaeth Angladdol ddernyn o hymn ganol-oesoedd odidog, a elwir y "*Media Vita*." "Y'nghanol ein bywyd yr ydym yn angau," &c. Dywedir i'r emyn hon gael ei chyfansoddi yn y nawfed ganmlwydd, gan Notker Fyngus, Abad St. Gall, wrth edrych ar seirimeini yn adeiladu pont dros yr afon Martobel mewn mawr berygl bywyd. Y'mhen amser, cenid yr emyn hon ar gychwyn i frwydr, ac weithiau

fel cyfaredd; a dyna yr achos i Gymmanfa Cologue, yn 1316, wahardd i neb ei chanu heb genad esgob.

Dyma brawf, er fod yr eglwys weledig yn huno yn aflendid llygredigaeth ysprydol, ar lin ofergoeledd a gwag-ddefodau Rhufeinaidd, na fu crefydd ysprydol—Cristionogaeth Apostolaidd—eriôed yn llwyr farw ar y ddaear. Ond yn ystod rhyw fil o flynyddoedd o dywyllwch moesol a meddyliol, ychydig bach iawn a ychwanegwyd at hymnau ysprydol yr eglwys. Ar yr un pryd, yr oedd cerddoriaeth yn cael ei diwyllio ac yn ffynnu,—canu wedi myned yn broffes a galwedigaeth personau neillduol, yn hytrach na rhan o addoliad cynnulleidfaol. Ond er c'yd fu cwsg Pabyddiaeth, diflannodd y breuddwydion o'r diwedd, fel nos rhag golwg haul. Ac y mae adfywiad yn nghaniadau yr Eglwys ar wawr pob diwygiad ysprydol, fel cân adar ar dorriad dydd. Torrodd mudandod oesoedd, dan warrog ffurfiol y Babaeth, allan yn orfoledd a chân gynnulleidfaol yn nyddiau Luther. Nid oedd er's oesoedd ran na chyfran i'r gynnulleidfa yn hymnyddiaeth yr eglwys. Hyd yn oed gan foreued a chynghor Laodicea, yn nechreu y bedwaredd ganmlwydd, penderfynwyd nad oedd i neb ond canonwŷr a'r côr, y rhai a ganent o lyfrau memrwn, feiddio canu yn yr eglwys. Ac y'mhen amser aeth y gwaharddiad yna yn afreidiol; bu farw yr iaith Lladin yn fuan wedi codwm diadfer yr Ymerodraeth Rufeinig; ac, yn wir, o'r diwedd collodd y werin a'r bonedd wybodaeth o honi, tra y parhâodd yr eglwys i gynnal ei haddoliad yn yr iaith honno, yn groes i gyngor apostolaidd, ac i farn y byd rhesymmol. Ni oddefai y Pab Gregory VII. gynnal gwasanaeth yn yr eglwys yn yr iaith gyffredin, am y byddai i'r fath ganu cyffrediniol a chroch lygru cerddoriaeth.

Dechreuodd hymnyddiaeth boblogaidd yn yr Almaen gyda â dydd y Diwygiad Protestanaidd, yr hwn, medd rhai, a achlysurwyd gan emyn a thôn o waith Speratus,

pendefig o Swabia, yr hwn a fu wed'yn yn gydlafuriwr â Luther. Cenid yr hymn hynod yma gan gerddorion pen-höol, drwy bob dinas, a thref, a phentref o'r Almaen, ac agorodd ddrws i'r Diwygiad mewn manau lawer. Ac un diwrnod, eisteddai Luther yn bendrist yn ei lyfreudy, pan darawodd yr emyn hynod o'r heol ar ei glust; gwrandawodd nes hidlo dagrau, a daeth i'w feddwl daenu y Diwygiad rhagllaw drwy hymnau pobl-ogaid, yn gystal a phregethau; rhoes ei fryd ar gasglu a chyfansoddi emynau efengylaidd ac alawon cynnull-eidfaol; a daeth i fod yn hynod hyd heddyw fel per-ganiedydd yr Almaen. Meddai yn wir awen bardd, a thalent pencerdd. Y mae enaid a nerth, cynhyrriad a theimlad dwfn, yn ei holl gyfansoddiadau, a dywedir iddo wneud mwy o niweid i Babyddiaeth â'i ganiadau nag â'i bregethau, er mor danllyd a nerthol ei ddarlithiau. Yn hyn yr oedd yn rhagori yn fawr ar Calfin, yr hwn nid oedd ganddo, wrth natur, gymmaint ag un pill o gerddoriaeth yn ei enaid. Y mae holl dônau Luther yn ddihafal, ni flinir byth ar eu canu, er eu pyngcio o oes i oes.

EMYN ENWOG LUTHER.

1546.

Parhad o Emyr Luther.

The image shows a musical score for a hymn. It consists of two systems of music. Each system has a treble clef staff and a bass clef staff. The key signature is one sharp (F#), and the time signature is 4/4. The music is written in a simple, homophonic style, typical of hymn tunes. The first system has 8 measures, and the second system has 8 measures. The melody is primarily in the treble clef, with the bass clef providing a simple harmonic accompaniment.

Duw mawr ! pa beth yw 'r braw a'r llef ?
 Daeth amser i'w ddiweddnod,
 Mae Barnwr pawb o entrych nef
 Ar gwmmwl gwyn yn dyfod ;
 Yr udgorn gân, a'r beddau sydd
 Yn gollwng meirw 'r oesau 'n rhydd :
 O f'enaid bydd yn barod.

Y meirw 'n Nghrist yn gyntaf oll,
 Ar floedd yr angel uchod,
 A gippir fry, heb un ar goll,
 I'r awyr i'w gyfarfod ;
 Dim ofn na braw i'r rhai'n bydd
 Ei wedd a daen drag'wyddol ddydd
 Ar ben pob un fydd barod.

Y rhai digred, mewn dychryn mawr,
 Sy 'n canfod llid y Duwdod,
 I wae cyfodant oll yn awr
 Difedur fydd eu trallod :
 Machludodd haul eu gras a'u llwydd,
 Gan grynu gwelwant yn eu wýdd,
 Yn euog ac anmharod.

Duw mawr ! ein hedifeirwch gwel
 Ein galar dwfn am bechod,
 Dâl ni 'n y dydd ofnadwy ddel
 O'th ràd drugaredd hynod.
 Boed ini 'n nydd ein bywyd brau,
 I air dy ras oll ufuddhau,
 Ae felly fod yn barod.

Cynnyddodd hymnyddiaeth y Cyfandir yn rhyfeddol,
 a dywedir fod 80,000 o hymnau yn yr Almanaegeg er-
 byn heddyw.

Luther, meddwn, oedd cerddor mawr y Diwygiad, yr uchaf—nid yr unig benigamp fardd-cyssegr yn yr Almaen. Daccw Hans Sachs, y crydd o Nuremburg, yr hwn a ganodd fwy na Luther—chwe mil o ganiadau efengylaidd!—ac a wnaeth felly fwy i hau egwyddorion y Diwygiad ym mysg y werin na neb yn ei oes. Yr amser a ballai i ni enwi hanner emynwyr hynod yr Almaen, y rhai a gyfranasant at ganiadaeth yr Eglwys Brotestanaidd drysorau na dderfydd eu gwerth hyd ddiwedd amser, nes i gân Sion ddaearol gael ei cholli yn ngorfoledd tragwyddol y nef.

CERDDORIAETH ALMAENAIDD.—*Emyn Pasc.*

The musical score consists of three systems, each with a treble clef staff on top and a bass clef staff on the bottom. The time signature is 4/2. The key signature has one sharp (F#). The music is written in a style typical of early 20th-century hymnals, with block letters for notes and stems. The first system has a double bar line at the end. The second system has a double bar line at the end. The third system has a double bar line at the end.

Parhad Cerddoriaeth Almaenuidd.

O sanctaidd ben a wisgwyd
 A g'wradwydd ac â drain,
 O ystlys lân a wanwyd
 A'r greulawn bicell fain ;
 O'r dwylaw llawn tosturi
 A hoeliwyd wrth y pren,
 A'r traed ddangosent ini
 Y ffordd i'r nefoedd wen !

O'r clwyfau a'th arteithient
 Yn gosp pechodau 'r byd,
 O'r ffrydiau gwaed ddiffoddent
 Ddigofaint Duw i gyd ;
 O angau lyngcodd Angau,
 O drange fu 'n drange i'r Bedd,
 Yn ddiwedd i bechodau,
 Yn iawn ac aberth hedd.

Er mor angherddgar oedd Calfin, efe oedd y cyntaf a ddygodd Psalmyddiaeth ar fesur i Eglwysi Protestanaidd Ffrainge. Athrawiaethwr, nid bardd, oedd Calfin; ac felly y mae ei ganlynwyr, fel corph, hyd heddyw, y'mhob cwr o'r byd, ac wedi parhâu hyd yn ddiweddar i lwyr-wrthod cerddoriaeth offerynol a chelfyddydol.

Yn yr Alban, a'r Iwerddon, a manau eraill, y mae y Presbyteriaid yn cadw yn gaeth at Psalmyddiaeth Buritanaidd. Na thybier ein bod yn dyweyd nad oedd gan y gwahanol enwadau Calфинаidd eu caniadau ysprydol, neu nad ydynt wedi bod yn bleidwŷr canu mawl cynulleidfäol bob amser ac yn mhob man. Caiff y darllenydd weled hyn pan ddelom at Ganiadaeth Gyssegredig Cymru.

Y'mysg gweinidogion anrhydeddus Francis I., yr oedd Clement Marot, dyn o ddawn fawr, a syniadau Protestanaidd, yn fardd-teulu; hwn a droes ar gân ddeg â thrugain o Psalmau Dafydd, ac a'u trefnodd ar dônau difyr, poblogaidd, a hawdd i bawb eu dysgu; ac ymledodd yr arfer o ganu psalmau fel tân sanctaidd dros yr holl dir, o'r llys brenhinol i'r pentŷ gwladaidd; a dechreuodd yssu rhwydau a maglau ofergoeledd ac anfoes hen y genedl. Bu rhaid i Marot o'r diwedd ffoi o'i wlad rhag yspryd erlidgar Pabyddiaeth, yr hwn a godasai â'i ganiadau psalmaidd, a bu farw mewn deoled-jgaeth. Ond y dysgedig Theodore Beza, ar daer annogaeth Calfin, a orphenodd gyfieithiad y Psalmau; ac ychwanegwyd, ar gais Calfin, dônau priod o waith y cerddorion pennaf, gan eu cyhoeddi yn Stasburg, yn y flwyddyn 1546. Arferir y cyfieithiad hwn hyd heddyw yn Eglwysi Protestanaidd Ffraingc. Cafodd Psalmyddiaeth Ffraingc effaith dwys a bendithfawr ar y rhan Brotestanaidd o'r genedl, a dylanwad i raddau ar y werin Babyddol. Hyd yn hyn, modd bynnag, nid oedd gan Ffraingc un hymnydd cenedlaethol; ac hyd heddyw, ei phrif ganiedydd hymnau yw Cæsar Malan, yr hwn ni chyfyd byth i uchder yspryd Watts y Saeson, a Williams y Cymry, yn hediadau ei awenyddiaeth gyssegredig. Ac yn wir, y mae Psalmau Dafydd yn gyfaddas, ar y cyfan, i holl amgylchiadau yr eglwys filwriaethus; ac yr oeddynt yn cyd-daraw i'r byw â phrofiadau tanllyd, trallodus, dyfnion, ac etto

nefolaidd, y Protestaniaid boreu yn Ffraingc, y rhai a orfoleddent mewn gorthrymderau ac erlidiau na phroffodd neb o ganlynwŷr yr Oen eu creulonach na'u chwerwach yn holl helynt yr eglwys ar y ddaear. Canent a phyngcient drwy ras yn eu calonnau i'r Arglwydd, nid yn unig yn eu cynulleidfaoedd, eu teuluoedd, a'u hystafelloedd, ond yn eu hymguddfêydd, yn nghysgodau caead y coedwigoedd, yn ogofâu dirgel y creigiau, a chilfêydd anhygyrch y mynyddoedd, lle y'u hymllidid gan waedgwn erlidedigaeth Babaid. Un o ddywediadau hygof Luther oedd, fod canu mawl yn archolli teimladau y diafol, ac yn ei yrru i bruddglwyf; felly yr oedd Psalmyddiaeth syml, ond enaid-gynhyrfiol, yr Huguenotiaid yn llidio y Pabyddion i gynddaredd. Gwaharddai Louis XIV. i Brotestaniaid Ffraingc ganu psalmau yn eu cynulleidfaoedd, yn yr heolydd, yn y meusydd, neu yn eu tai-annedd; a chafodd Claude Goudimel, pencerdd enwog yn Lyons, ei ferthyru yn y dull creulonafr, ar ddydd du Bartholomœus (1572), am gyfansoddi tônau Protestanaidd, a gwrthgilio o Eglwys Rhufain at yr Huguenotiaid. Wedi ei faeddu yn gywilyddus yn yr heolydd, torrwyd ei ben oddi ar ei gorff, a bwriwyd ef i'r afon Rhone. Arferir rhai o'i dônau godidog hyd heddyw, nid yn unig yn Eglwysi diwygiedig Ffraingc, ond yn Lloegr a Chymru.

Cafodd Psalmyddiaeth Switzerland a Ffraingc adsain o enau a chalonnau Diwygwŷr Protestanaidd Lloegr. Yn y flwyddyn 1539, cyhoeddodd yr Esgob Coverdale lyfr yn cynnwys pymtheg o Psalmau, a chwech-arlugain o odlau ysprydol, ar fesur cerdd, yn Saesoneg, gyd â thônau priod o alawon Geneva. Trwy y caniadau ysprydol hyn, a llu a'u dilynodd, y dygwyd y Diwygiad oddi amgylch yn y wlad hon, yn gymmaint a thrwy bregethau nerthol ac argyhoeddiadol, yma ac accw ar hyd a lled y tir. Yr Esgob Jewel, yn ysgrifenu at Bedr y Merthyr, a ddywed, "Peth cyffredin yw clywed yma

chwe mil o bobl yn canu psalmau ar unwaith wrth groes St. Paul," yn Llundain. A'r Esgob Burnet a ddywed, "Cenid psalmau a hymnau gan bawb a garent y Diwygiad: yr oedd yn arwydd wrth ba un y mesurid serch dynion tuag atto—a ganent ai peidio." Cyn hyn, ni chanai gwerin na bonedd Lloegr ddim ond maswedd a digrifwch ynfyd, hyd yn oed yn llys y brenhin. Ond yr oedd Thos. Sternhold, gwastrod ystafell wely Harri VIII. ac Edward VI. yn ddyn o dduwioldeb dilynwiw, er nad oedd ond prydydd anghlymgar. Poenid ei yspryd yn fawr gan gerddi gwagedd gwŷr ac arglwyddesau y llys, a phenderfynodd droi Psalmydd Dafydd ar gân, gan obeithio y cymmerant le y caniadau anfoesol ac annuwiol a glywai beunydd. Nid oedd yn meddwl yr arferid ei waith byth yn gyhoeddus yn yr Eglwys; a bu farw yn 1549, cyn cyfansoddi, ond hyd Psalm xxxvii; a gorphenwyd llafurwaith ei gariad gan John Hopkins, ac eraill—"dynion," fel y sylwa Fuller, "y rhai yr oedd eu duwioldeb yn rhagorach na'u barddoniaeth, ac yr oeddynt wedi yfed yn ddyfnach o'r Iorddonen nâg o'r Helicon." Y mae eu hodliad yn ddigon beïus yn aml—eu hacceniad, eu corfaniad, a'u cystrawriad yn anystwyth, ac weithiau yn hollol wallus. Yn ein hoes ni, cyfrifem y fath gynnyrchion yn rhigymmau, pe na baent wedi eu cyssegru drwy gymmeradwyaeth hir, a'r wybyddiaeth eu bod yn ffrwyth duwioldeb gwŷr dysgedig yn eu hamser, ac yn bennaf oll eu bod yn anwahanadwy wrth hanes y Diwygiad yn Lloegr. Argraphwyd hwynt gyd â Llyfr Gweddi Gyffredin diwygiedig Edward VI., yr hwn a gyhoeddwyd yn mis Medi, 1556; a defnyddiwyd hwynt gyntaf yn y plygain yn Eglwys Antholma, yn Llundain; fel y dywed Strype, "Wedi i'r gloch ganu am bump (y bore), canwyd psalm yn ol dull Geneva, yr holl gynulleidfa—gwŷr, gwragedd, a bechgyn—yn canu yn un llais." Y bore hwnnw y clywed canu cynulleidfaol gyntaf eriôed yn Eglwys Loegr, yr hyn, trwy

ras Duw ni thawodd hyd heddyw, ac ni thaw, gobeith-iwn hyd ddiwedd amser—yn yr Eglwys nac yn mhlith Ymneillduwŷr.

Yn 1696, cyhoeddwyd pennilliad newydd o'r Psalmiau yn Saesoneg gan Tate a Brady; ac ar y cyfan y mae yn rhagori ar yr hen. Dylasem ddyweud fod yr hyspysiad canlynol fel rhagymadrodd i'r Hen Bennilliad:—
 “Holl Lyfr y Psalmiau, &c., wedi ei osod allan a goddef ei ganu yn yr holl Eglwysi, gan yr holl bobl y'ngghŷd, o flaen ac ar ol Gweddi Foreuol a Phrydnawnol; ac hefyd, o flaen ac ar ol pregethau; ac hefyd mewn tai anghyhoedd, er eu diddanwch dwyfol a'u cysur; gan roddi heibio bob caniadau a cherddi annuwiol, y rhai a dueddant yn unig i feithrin drygioni a llygru ieuengctid.”
 Y ddau Bennilliad hyn a arferir hyd heddyw yn Eglwysi Sefydledig Lloegr.

Y Presbyteriaid—Eglwysi sefydledig ac ymneillduol yr Alban—a arferant Bennilliad Psalmiau Francis Rous, Rheolwr Athrofa Eton, gwaith a ymddangosodd gyntaf yn y flwyddyn 1643.

Yn y fl. 1719, cyhoeddwyd Bennilliad y Dr. Watts o “Psalmiau Dafydd yn iaith y Testament Newydd,” yr hwn a arferir nid yn unig gan Annibynwŷr a Bedyddwŷr Lloegr, ond fwy neu lai fe'i mabwysiedir yn holl lyfrau hymnau Eglwys Loegr; a chyfrifir Watts gan Gristionogion o bob enwad, megis prif hymnydd ei genedl a'i wlad.

Gyd â'r gwahanol bennilliadau o'r Psalmiau argraphwyd tŷnau priodol, gan gerddorion goreu yr oes. Yr argraphiad cyntaf o Psalmiau Sternhold a Hopkins, gyd â thŷnau gosodedig, dan olygiad John Daye, a gyhoeddwyd yn 1562. Cyhoeddwyd hefyd Sallwyrâu, neu *Psalters*, cyffelyb yn yr Alban, a chan Damon, Denham, Este, Ravenscroft, ac eraill yn Lloegr. Yn y rhai hyn caid tŷnau mwyaf poblogaidd a chynnulleidfäol Geneva

a'r Almaen, a phigion cyfansoddiadau Tallis, Dowland, a Morley.

Ar yr un pryd, ymwrthodai y Crynwŷr, a rhai cynnulleidfäoedd o'r Bedyddwŷr, â chanu mawl yn gwbl am rai oesau! Yn wir, o fewn y blynyddoedd diweddaf y dechreuodd y Crynwŷr foliannu Duw ar gân, ac hyd heddyw ni chenir byth yn nhai cwrdd y blaid fanylaf o'r enwad. Cyfrifai y ddau enwad crybwylledig ganu psalmau a hymnau fel traddodiad dynol, ffurf addoliad cnawdol, a llygredigaeth ysprydol. Yr holl Buri taniaid manylgaeth a waharddent ddefnyddio organau, a phob math o offerynnau-cerdd, gan gredu bod "un ochenaid yn yr yspryd yn fwy cymmeradwy yn nghlustiau Duw, nâ holl sŵn holl organau y byd."

Gallwn gyfrif Watts, Wesley, Doddridge, Cowper, Newton, a Montgomery, y'mysg hymnyddion pennaf Lloegr. Ond er bod y ganmlwydd ddiweddaf wedi cynnyrchu mwy o farddoniaeth emynol nâ'r holl oesoedd blaenorol, gellir edrych ar yr amser hwnnw fel cyfnod o ddirywiad mewn cerddoriaeth. Nis gallem yn wir ddisgwyl i ddadganiaeth y miloedd a wrandawent ar Wesley a Whitefield, a'r "Diwygwŷr Methodistiaidd," yn yr heolydd, y marchnadoedd, y prif-ffyrdd, a'r caeau, fod yn hynod glassurol; etto, yr oedd yn nerthol, yn gynnyrfiol, a thoddiadol. Dilynwyd yr hymnyddiaeth hon gan gerddoriaeth eglwysig dyddiau ein hieuengctid ein hunain, pan oedd y tönau yn llawn o bob "cwafrio," ac ail ar ail fyned dros yr un barrau,—oes y tönau "crynion" diderfyn, mwy priodol i'r chwareudŷ nag i'r cyssegr. Serch hynny, yr oedd y tönau ysgeifn gwylltion hynny yn fwy poblogaidd a dylanwadol nâ llawer o dônau dofion a difywyd y dyddiau diweddaf hyn.

Am ganiadaeth gyssegredig Cymru yn yr hen oesoedd ni wyddom ond ychydig, dim bron ond oddi wrth

grybwyllion damweiniol y beirdd. Er na ddaeth yr organ (yr offeryn ardderchog a alwn ni felly) i fod hyd y seithfed ganrif, arferid y delyn, a'r crwth, yn yr eglwysi, o leiaf cyn foreued a'r ail ganmlwydd, nid hwyrach bob amser. Ni wâd neb a grêd yr Ysgrythyr arferiad offercerdd yn y deml, ac addoliad cyhoeddus yr hen Eglwys Iuddewig, a chan mai Iuddewon oedd y Cristionogion cýntaf, nid yw yn debyg eu bod yn meddu un syniad gwahanol ar y pen hwn. Clemens Alexandrinus a ddywed nad oedd y Cristionogion ddim yn arfer addoli Duw â sain offerynau rhyfelgar, megis yr udgorn a'r tabwrdd, ond â thelynau. Yr arferiad hwn a barhaes yn Nghymru oesoedd lawer, fel y crybwylla Madoc ap Gwallter yn 1250,—


“Pwy ni'th fawl o'r sawl ar y seilych,
I'th foliant seiniant sôn clych—a llyfrau,
Cerddau telynau, cras dannau crych.”

Yr oedd pedwar dull o ganu yn arferol yn y gynulleidfa. 1. Y carol neu awdl, cân a ddadgenid gan un cantor. 2. Y gydgan neu emyn, yn yr hon yr ymunai yr holl gynulleidfa. 3. Y Psalm, yr hon a genid bob yn ail pennill neu adran, gan y gweinidog, y côr, a'r gynulleidfa. 4. Yr anthem, yr hon a genid gan un neu ragor o'r côryddion, a'r holl bobl a ymument yn y byrdwn neu haleliwia. Yr oedd Cymru yn hynod am ei charolau, y rhai a genid gynt ar holl brif wyliau yr Eglwys, gyd â'r delyn a'r crwth. Yr oedd i'r clychau hefyd eu rhan yn moliant yr Eglwys, yn enwedig yn y *Te Deum*, pan ddeuid at y geiriau “Sanct, Sanct, Sanct, Arglwydd Dduw Sabaoth, &c.”

Cyfrannogodd Cymru hefyd yn adferiad mawl cynulleidfäol ar dorriad dydd y Diwygiad Protestanaidd.

BANGOR. M. C.

HEN ALAW GYMREIG.



'R wy'n edrych dros y bryniau pell,
 Am danat Iesu mawr;
 O! tyr'd, f' Anwylyd, mae 'n hwyrhau,
 A'm haul bron myn'd i lawr.

Ond ni bu gennym namyn un psalmydd enwog, sef yr anfarwol Archddiacon Prys. Y mae ei waith wedi bod o wasanaeth mawr i'r Eglwys, a'r Methodistiaid, hyd heddyw, ac yn cynnwys llawer pennill rhwydd a godidog, er ei fod ar y cyfan yn anystwyth, a gwallus yn aml



o ran acceniad a chorfanniad. Yn wir, ychydig o'n beirdd a fedrent, hyd yr oes hon, gyfansoddi yn rhwydd ar fesurau rhyddion digynghanedd. Ni ddylem ychwaith adael yr Hen Ficer Prichard heb grybwylliad parchus, yr hwn a roes ganiadaeth mor dduwiol (bersonol a theuluoedd) i'w oes a'i genedl, er mai mewn Cymraeg cymmysglyd a llygredig iawn, ac anaddas i arferiad cynnulleidfäol neu eglwysig.

Un emynydd mawr a fu gennym, sef Williams, Pant-y-Celyn, llawn o dân dwyfol, ac aml ehediad gwir farddonol, er bod ei iaith yntau yn brin o goethder gwir Gymreig. Ac, ar y cyfan, y mae yn fwy profiadol a phersonol nâg addoliadol a chynnulleidfäol. Yn hyn y mae emynau llawer o'n beirdd diweddarach yn tra rhagori. Ac etto, y mae lle i wellhâu.

Y mae hanes crefyddiaeth Cymru, yn anad un wlad o'r bron, yn profi dylanwad cryf a mawr effaith caniaeth dduwiol boblogaidd. Gwyddom fod Methodistiaeth Galfnaid a Wesleyaidd, wedi cael ei lledaenu drwy ganu agos gymmaint a thrwy bregethu. Mewn llythyr oddi wrth y Parch. H. Davies, o sir Penfro, dyddiedig Mawrth 5ed, 1743, sonir am ganiad pedair mil o bobl, yn parhâu am eiriau, a thrwy y nos, ar eu ffordd adref. Clywid llais eu gorfoledd dros yr holl wlad, a'r awyr yn adsain eu haleliwia. O bob dyffryn a chwm cyfannedd y'mysg y mynyddoedd codai sain cân yr hen Fethodistiaid, ac yn aml camgymerid adlais eu gorfoledd, pan y'i clywid o bellder milltiroedd liw nos dawel, am fawl yr angelion. Ië, y mae hen bobl yn Nghymru a gredant yn ddiysgog iddynt glywed angelion y nef yn canu liw nos yn "amser y Diwygiad mawr." Ond yr oedd cyfarfodydd canu psalmau wedi dechreu mewn llawer plwyf yn y wlad cyn i Fethodistiaeth godi, nid hwyrach er dyddiau Elizabeth. Yr ieuengctid mwyaf bucheddol yn bennaf a gyrchent i'r cyfarfodydd hyn, ac yn wir dywedai traddodiad fod yr

angelion i'w clywed weithiau yn canu yn Eryri cyn bod sôn am Howell Harris, Williams o Bant-y-Celyn, na Rowlands, Person Llangeitho.

CERDDORIAETH FETHODISTAIDD.



Braint, braint
 Yw cael cyndeithas gyda'r saint,
 Na welodd neb eriôed ei maint :
 Ni ddaw un haint fyth iddynt hwy ;
 Y mae'r gymdeithas yma 'n gref,
 Ond yn y nef, hi fydd yn fwy.

Cerddoriaeth Fethodistaidd y Ganmlwydd ddiweddar.

Cyfammod rhad, cyfammod cadarn Duw—
 Ni syfl o'i le—nid ie a nage yw;
 Cyfammod gwir, ni chyfnewidir chwaith—
 Er maint eu pla, daw tyrfa i ben eu taith.

Felly yr oedd canu y Wesleyaid cyntaf yn Nghymru yn llawer hynottach nâ'u pregethu. Ni bu ychwaith ddim cynnydd ar y Bedyddwyr nes iddynt ddechreu canu, a diammeu fod hir arafwch ac annibendod cynnydd yr Annibynwyr (hyd yn ddiweddar), ac agos lwyr ddarfyddiad yr *hen* Bresbyteriaid yn Nghymru, i'w priodoli, mewn rhan fawr, i ddiffyg meithriniad caniadaeth a cherddoriaeth gyssegredig. Y mae o bwys hefyd i ni sylwi mai diffyg caniadaeth boblogaidd yn Eglwys Loegr oedd un o brif achlysuron ymneillduaeth yr oes a aeth

heibio. Nid oedd dim canu cynnulleidfäol yn yr Eglwys, ac ni chymmerai y gynnulleidfa un rhan o'r bron yn ei ffurf-wasanaeth. Gadawent yr holl addoliad i'r Person a'r Clochydd, a'r cantorion, tra yr hefrient ac yr heppient eu hunain ar glustogau gwelyaidd y côrau cauedig.

Tua deng mlynedd ar hugain yn ol, dechreuodd yr Eglwys ymddadebru, yn yr Iwerddon a Lloegr, ac, y'mhen amser, yn Nghymru. Cychwynodd y diwygiad diweddaf hwn, yn wir, yn y Chwaer Ynys, yn y ffurf o wrthdystiad adnewyddol yn erbyn Pabyddiaeth, yr hwn a ymestynodd hyd brif drefydd Lloegr, lle y casglodd offeiriad Gwyddelig zelog, a galluog fel pregethwyr, gynnulleidfäoedd mawrion. Deffroes yr Eglwys yn bur gyffredinol, ac er i wahanol bleidiau duwinyddol godi, ac i ryw nifer wrthgilio at Babyddiaeth, a gwan gred, y mae cynnydd yr Eglwys wedi bod yn fawr a rhyfeddol. Gallwn sylwi oll fod canu cynnulleidfäol yn un o brif nodweddau eu hofferynnau y diwygiad olaf hwn. Lle bynnag y mae yn ymddangos y mae yn ddeffroad at Gerddoriaeth Eglwysig a Chanu Cynnulleidfäol.

CERDDORIAETH YR AMSER PRESENNOL.

EMYN HWYROL.

W. H. MONK.

The musical score is presented in two systems. Each system consists of two staves. The top staff of each system is in treble clef, and the bottom staff is in bass clef. The time signature is 4/2. The key signature has two flats (B-flat and E-flat). The music is written in a style typical of 19th-century hymn tunes, with a focus on harmonic accompaniment.

Parhad o "Eryn Hwyrrol."

The image shows a musical score for a hymn. It consists of two systems of music, each with a treble and bass staff. The key signature is one flat (B-flat), and the time signature is 4/4. The music is written in a simple, homophonic style, typical of hymn tunes. The first system has 8 measures, and the second system has 8 measures. The melody is primarily in the treble clef, with the bass clef providing a simple harmonic accompaniment.

Mae'r haul ar ŵyr
 Yn myn'd dan lén i lawr,
 Amrantau'r hwyr
 Yn cau ar fyd yn awr:
 Ein pabell fawr,
 Ein haul a'n heddwyt Ti;
 Duw Dad o'r nef, yn awr
 Trig gyda ni.

Diflanna'r dydd
 A'i oleu llesg yn llwyr,
 Gelynyon sydd
 O'n cylch fel bleiddiau'r hwyr
 Yn oriau hún
 Ein Ceidwad ydwyt Ti,
 Duw Fab o'r nef, dy hun
 Trig gyda ni.

Trig wrth y llyw,
 Yn nos ystormydd blin,
 Melusach yw
 Dy ras na'r puraf win;
 Ein cafell gref,
 A'n gobaith ydwyt Ti,
 Duw Ysbryd Glân o'r nef,
 Trig gyda ni.

O awr i awr,
 Mae'n heinioes yn byrhau,
 Tywyllwch mawr
 Nos angau yn nesáu,
 Ond tawel hún
 Gawn yn dy fonwes Di;
 O Sanctaidd Dri yn Un,
 Trig gyda ni.

BUDDUGOLIAETH.

Allan o "PALESTRINA."

The first system of musical notation consists of four staves. The top three staves are in treble clef, and the bottom staff is in bass clef. The key signature is three sharps (F#, C#, G#), and the time signature is 3/2. The music begins with a whole rest on the first staff, followed by a series of quarter and eighth notes across all staves.

The second system of musical notation consists of four staves. The top three staves are in treble clef, and the bottom staff is in bass clef. The key signature is three sharps (F#, C#, G#), and the time signature is 3/2. The music continues from the first system, featuring a repeat sign with a first ending bracket and a double bar line. A fermata is placed over the first ending in the top staff.

The third system of musical notation consists of four staves. The top three staves are in treble clef, and the bottom staff is in bass clef. The key signature is three sharps (F#, C#, G#), and the time signature is 3/2. The music continues from the second system, ending with a double bar line and repeat dots.

Parhad o "Buddugoliaeth."

The image shows a musical score for a hymn. It consists of four staves of music. The first three staves are in treble clef, and the fourth is in bass clef. The key signature is three sharps (F#, C#, G#). The music is written in a simple, hymn-like style with quarter and half notes. There is a double bar line in the middle of each staff, and a final double bar line at the end. A small 'g' symbol is visible in the top right corner of the first staff.

EMYN DYRCHAF AEL.

Aleliwia! Aleliwia! Aleliwia!
 Cyfodi wnaeth Tywysog hedd,
 Gorchfygodd uffern fawr a bedd,
 Esgynodd i'w drag'wyddol sedd,
 Aleliwia!

Agorwyd disglaer byrth y nef,
 Fe glywir gorfoleddus lef,
 Fel sŵn y môr neu daran gref,
 Aleliwia!

Myrddiynau o angelion glân,
 G'wfannant eu hadenydd tân,
 Ar aur delynau seiniant gân,
 Aleliwia!

Y fuddugoliaeth fawr a gaed,
 Seraphiaid gwym pant wrth ei draed,
 A'r saint a olchwyd yn ei waed,
 Aleliwia!

Cymmerwn ein telynau 'n awr,
 Oddiar yr helyg prudd i lawr,
 Ymunwn yn yr anthem fawr,
 Aleliwia!

Merch Seion ddaw o'r anial dir,
 Mwy hawddgar fydd ei gwedd yn wir
 Na gwridog wawr y boreu clir,
 Aleliwia!

Esgynodd Crist i entrych nef,
 Pob glin a blyga iddo ef,
 Dyrchafwn y fuddugol lef—
 Aleliwia!

"Gogoniant" fo yr uchel gân,
 Trwy 'r nef a'r ddaear heb wahan,
 I'r Tad, a'r Mab, a'r Yspryd Glân,
 Aleliwia!

Y'nghorph y traethawd hwn, gwelsom fod cân a mawl wedi bod yn rhan arbenig o addoliad yr Eglwys filwriaethus, y'mhob oes, a than bob goruchwyliaeth, felly hefyd y maent yn gwneyd i fynu lawenydd tragywyddol yr Eglwys orfoleddus uchod. Nid yw cân y nef ond byrdwn mawreddus (*grand chorus*) yr anthem sydd wedi dechreu ar y ddaear. Pan gesglir ynghyd holl gynnulleidfaoedd ac etholedigion Duw, yna bydd llef eu moliant diddiwedd, fel llef dyfroedd lawer, "ac fel llef taranau cryfion, yn dywedyd, *Aleliwia!* oblegid teyrnasodd yr Arglwydd Dduw Hollalluog."

HANNIAD Y BYD.

DYMA un o brif destynau dadl ein dydd; ac y mae yn dwyn sylw arbenig anianyddion a chwil-feirniaid Beiblaidd. Y cwbl a ddywed Ysprydoliaeth am hanniad y byd yw, "Yn y dechreuad y creodd Duw y nefoedd a'r ddaear; a'r ddaear oedd afluniaidd a gwag, a thywyllwch oedd ar wyneb y dyfroedd." Ond tyb gyffredin daearonwyr yw bod y ddaear ar y cyntaf, neu unwaith, yn bellen o dân byw, nid hwyrach yn seren losgyrnog yn crwydro yr ehangder diderfyn, ond iddi, yn nhro oesoedd afrifed, ymgrynhôl yn blaned digon sylweddol i ymgadw o fewn cylch crynach ac agosach i'r haul canoldynol, a thrwy arafiad ei chylchdro, i'w chynffon wreiddiol ddiflannu neu gael ei hattynnu a'i dylyngu yn raddol i'w phen neu gnewyllyn planedol. Wrth i'w sylwedd tawdd oeri yn raddol, ffurfiwyd, fel y dychymmygir, y crystyn gwenithfaen—y math boreuaf neu isaf o'r holl greigiau adnabyddus; oblegid nid yw holl ymchwiliadau mwngloddiol dyn ond megis wedi tyllu tippyn

yma ac accw i donnen uchaf hen gragen allanol y ddaear. Credir yn gyffredin fod calon y ddaear hyd heddyw yn ffwrn, neu eigion o dân, ac mai dyma yr achos o wres cynnyddol y mŵngloddiau dyfnaf, daeargrynfäau, ac ymdorriad mynyddoedd tanllyd. Y mae yn sicr fod y dirgynnyrfiadau hyn wedi myned yn anamlach, ac yn llai eu grym, o fewn olrheiniad hanesyddiaeth y byd, a phriodolir hynny i oeriad graddol crombil y ddaear.

Ond y mae i'r dybiaeth dânaidd rai gwrthwynebiadau pwysig. *Yn gyntaf*, Y mae Moses yn sôn am yr elfen ddwfr o flaen tân, o leiaf cyn goleuni, yr hwn yw un o briodolion tân. *Yn ail*, Barn llawer o anianyddion enwog yw, bod tân tanddaearol yn cael ei achlysuero gan dreiddiad dwfr i lawr drwy holltau creigiau at amrywiol fŵnau a daearau hylog, a thrwy beri dadansoddiad fferyllaidd, yn cynnyrchu taniad, tebyg i ymlosgiad tâs o wair anghrin, neu galeh byw. *Yn drydydd*, Er bod yr Ysgrythyrau yn sôn am ddinystr dyfodol y byd drwy dân, dysgrifir y tân barnol hwnnw megis i ddisgyn o'r nef, i gael ei wlawio ar yr annuwiolion a gwrthodwŷr Efengyl Crist.

Etto rhaid i ddyn fod yn meddu ffydd fawr mewn daearoniaeth i allu credu bod yr holl aneirif ddaearau, mŵnau, mettela, creigiau, llyisiau, a chyrph anifeiliaidd, i gyd wedi cael eu ffurfio o wenithfaen, a hynny drwy ddamlygiad graddol, ac nid drwy weithred gredigol bendant ewyllys Hollalluog—drwy sylweddïad gwyrthiol yn eu galw i ymffurfiad perffaith ar unwaith. Dywed Moses, drwy Ysprydoliaeth dwyfol, i Dduw *orphen* ei holl waith, hynny yw, iddo lunio pob peth mewn cyflwr o berffeithrwydd, ar derfyn y chwe diwrnod; ac nid ei fod, fel y breuddwydia gau athronwŷr diweddar, yn unig wedi darparu y sylwedd defnyddiol, yn lwmp o gäos poeth, a'i adael i ffurfio ei hun, yn ystod myrddiynau dirif o oesoedd, yn fyd gogoneddus, a phreswylïedig gan luoedd annifeiriol o fodau bywydol,

yn dyfod o hunandarddiad dechreuol. Yna, meddynt, drwy holltau ac agennau y plisgyn gwenithfaen fferredig, dïangodd y gwahanol nwyon (*gasses*) allan, y rhai, drwy gyduniad fferyllaidd a ffurfiant awyr a dwfr; ac yn nhraul myrddiynau o oesoedd, maluriodd y creigiau gwenithfaen neu dânaidd, drwy dreuliad dwfr ac awyr, yn haenau o dywod a chlai; ac o'r malurion hyn y ffurfiwyd, o gyfnod i gyfnod anfynegadwy o amser, yr holl welyau haenog a orwedant oddi arnodd. Y gwahanol waddodion o raian, tywod, llaid, a chlai a ymgaledasant, o honynt eu hunain, dan bwys a gwres oesoedd dirif, yn greigiau tîrf, y rhai wed'yn a wthiwyd i fynu yn fryniau a mynyddoedd, neu a suddasant yn bantiau a glynnau sychion neu orchuddiedig gan ddwfr, drwy ymchwydd graddol gwres tumewol y ddaear. Mewn rhai manau tafwyd y creigiau hyn i fynu yn glogwyni danneddog, mewn lleoedd eraill disgynasant dan waelod y môr, neu y maent yn aros bron yn eu cyflwr gwreiddiol. Yn y sylw hwn, yr ydym yn cyfyngu ein golwg at ffurfiad mŵnyddol y ddaear, heb wneud un cyfrif o fodolion llysieuol neu anifeilaidd. Ac i ddwyn cread y ddaear ddifywyd i ben y mae daearonwŷr yn gofyn amser hyd fyrddiynau o oesoedd. Tybiant, ond caniattâu digon o hyd o amser, fod pob gwrthwynebiad a phob anhawsder yn diflannu o flaen y bendrefn o ddamlygiad graddol a chenedliad hunanachosol, fel pe disgwyliai gwallgof i delpyn aflunaidd o glai ffurfio ei hun, ond gadael iddo gael digon o amser, yn briddfaen unionoglog llyfnwynebog, neu yn llestr tebyg i gelfiad crochenydd neu waith llaw.

Yr hyn i gyd y mae daearonwŷr digred, rhesymolwŷr, ac anffyddwŷr, yn anghofio neu yn cau eu llygaid ar lawer ffaith bwysig, megis,—

1. Nad yw Hollalluogrwydd ddim yn gofyn amser i gyflawni ei waith, fel y maent hwy yn cyfrif amser, ond bod “un dydd gyd â'r Arglwydd megis mil o flynydd-

oedd, a mil o flynyddoedd megis un dydd." Ië, bod tarawiad amrant gyd âg Ef fel myrdd o oesoedd.

2. Eu bod yn dadleu mewn cylch, yn troi a throi o amgylch eu pwngc, heb byth ddyfod i ben rheswm terfynol. Fel hyn y mae y ddaearonwr yn cymmeryd i fynu dalp o garreg, ac yn ymresymu uwch ei phen fel hyn: "Bu amser pryd nad oedd y maen hwn ond clap o glai—gwyn neu lân—neu grug o dywod" (yn ol ei natur), ond ymgaledodd mewn oesoedd aneirif yn rhan o graig. Ac nid oedd y clai, neu y tywod o ba un y cyfansoddir y maen hwn, ond malurion creigiau mwy cynoesol, pa rai oeddynt wedi eu cydffurfio o ronynau boreach sylwedd—malurion creigiau hynach fyth. Y dull troellog hwn o ymresymu sydd yn pendroni anianyddion yr oes o barth hanniad y byd. Ni welant fod yn rhaid i'r Hollalluog roddi i bob sylwedd ryw ffurf pendant wrth eu greu, a'r ffurf hwnnw yr un ag a allai gymmeryd wed'yn hyd byth drwy gyssodiad naturiol.

Un o amcanion uffern yn y dyddiau hyn yw dadymchwelyd y ffydd gyffredinol yn nwyfol awdurdod yr Ysgrythyrau, ac i'r diben hwn y mae yn ymgais i godi ammheuon ynghylch yr hanes a rydd Moses am greadigaeth y byd. Y mae Satan yn ymarfogi, â holl rym celfyddyaeth a gwyddoniaeth yr oes, i geisio profi bod "y Bydhanniad Moesenaidd" yn groes i ddarganfyddau anianyddiaeth. Haera fod yr hyn a ddywedir yn Genesis am gread goleuni cyn bod haul, na lleuad, na sêr, yn beth annichonadwy, oblegid mai yr haul yw ffynnonell goleuni, ac achosydd dydd a nos. Gwir yw nas gall yr effaith fodoli cyn yr achos. Ond y mae yn amlwg, os yw goleuni yn sylwedd gwahaniaethol, ac anymddibynol ar yr haul, y gallai hanfodi cyn lluniad y goleuad mawr sydd yn awr yn llywodraethu yn y nefoedd wybrennol. Ac y mae Syr Wm. Herschell, a llawer o'n seryddwyr enwocaf yn credu, ac yn profi tu

hwnt i ammheuaeth, mai corph tywyll yw yr haul ei hun, fel ein daear ni, ond ei fod yn cael ei amdoi ag awyrgylch disgleiriog. Mewn geiriau eraill, fod corph sylweddol yr haul a'i oleuni mor wahaniaethol ag yw y ddaear hon a'r awyr sydd o'n hamgylch, neu y corph dynol a'r wisg sydd am dano. Etto, nid yr haul yn unig sydd yn meddu y gallu o roi goleuni, ond gellir ei dynnu allan o'r rhan fwyaf o'r sylweddau daearaidd. Ac os oedd y ddaear unwaith yn belen o dân byw, rhaid ei bod yn oleu o honi ei hun, oddi eithr lle y tywyllid hi gan fwg ei hymlosgiad. Neu, fod aneirif safnau llosgfalog yn goleuo y sychdir, gan adael cefn môr yn "dywyllwch ar wyneb y dyfnder," cyn goleu haul y pedwerydd dydd. Ond y mae Moses yn llefaru am wahaniad y goleuni a'r tywyllwch fel gweithred o ewyllys a gallu yr Hollalluog. Pa fodd y cynnyrchid y cyfnewidiadau hwyr a bore, cyn y pedwerydd dydd, nis gall un dyn ei wybod, gan nad yw yr *achos* naturiol yn gweithredu mwyach. Nid yr haul ychwaith sydd yn achos yn awr o ddydd a nos, ond ymdröad y ddaear ar ei phegynau. Y mae'n rhesymmol i ni gasglu bod y goleuni cyn ei grynhoi am gorph yr haul, yn wasgaredig dros un rhan o'r wybren, a'r rhan arall yn dywyll. Gwyddom fod yr *ehangder* tu allan i awyrgylch y ddaear a'r planedau eraill yn gwbl dywyll. Ond ammherffaith iawn yw ein gwybodaeth am natur goleuni, a phwy ym ni, bryfed y llwch, i osod terfyn i'r Hollalluog.

Yn ofer y gwrth-haera yr anffyddiwr fod yr hanes a rydd Moses am dri diwrnod cyntaf y greadigaeth yn groes i sylw beunyddiol dyn, nas gall hwyr a boreu fod heb haul, oblegid yna y mae yn "crefu'r ddadl," gan ei fod yn cymmeryd yn ganiattäol fod y ddaear yn cael ei goleuo gan yr haul o'r dechreu. A oedd efe yn bresennol i weled trefn natur ar ddydd cyntaf y greadigaeth? A all efe brofi nad oedd yn bossibl fod y ddaear, y pryd hynny yn *human-oleuol*, fel yr haul a'r ser sefydlog?

Diau nas medr. A phaham nas gallasai y ddaear, fel yr aneirif fydoedd serenog, fod yn meddu awyrgylch hunan-oleuol yn nechreu ei bodolaeth? Ac y mae hanes Moses am y tri diwrnod cyntaf mor groes i anianyddiaeth y cyn-oesoedd, pan olygid yr haul fel byd o dân, ac mor wahanol i drefn bresennol pethau, fel mai prin y gellir credu y buasai un dyn yn ysgrifenu y bennod gyntaf o Genesis oddi gerth dan oruwchreolaeth Yspryd Duw.

Yr un modd y mae yr wrthddadl nas gallai gwellt y ddaear, na llysiâu y maes, na phrennau y coed fyw cyn bod yr haul, yn syrthio i ddiddymdra; oblegid, yn ol y ddadl uchod, yr oedd y ddaear yn rhoddi, y pryd hynny, oleuni a gwres o honi ei hun. Ac y mae ymchwiliadau daearoniaeth yn profi fod gallu trofannol neu ffrwythlondeb y ddaear unwaith yn llawer mwy nâg yw yn bresennol, a gwres trofannol—brydaniaeth cyffelyb i'r hyn sydd yn bod ynghanolbarth y byd yn awr—unwaith yn teyrnasu yn nhiriogaethau rhewllyd y pegynau. Neu fod y tymmerusrwydd unwaith yn gyfartal dros holl wyneb y ddaear, yr hyn nis gallai ddyfod oddi wrth dywynniad yr haul, ond o herwydd fod y ddaear yn hunan-oleuol. Neu ynte fe symudwyd gorphwysle pegynnau y ddaear yn nhrychineb y Diluw.

Ond y mae Satan â'i holl ymgais yn ymosod ar hanes y Diluw, ac y mae y rhan fwyaf o'r gwrthddadleuon a godir yn erbyn "Bydhanniad Moses" yn osgôi cyfadd-efiad o Ddiluw cyffredinol, a'r cyfnewidiadau dirfawr a ddygodd y llifeiriant barnol hwnnw oddi amgylch, pan ymrwygodd ffynhonau y dyfnder, ac y tröwyd dyfroedd yr eigion dros holl wyneb y byd, gan adael hen welyau y moroedd cynoesol yn sychdir hyd y dydd heddyw. Nid rhyfedd fod St. Petr yn sôn am y Diluw megis ymddattodiad y byd oedd o'r blaen. Llyngewyd pob "ewin" o'r hil flaenorol, yn ddyn ac anifail i grombil

anghof tragywyddol,—gadawodd eu holion maenedig yn y creigiau—oddi gerth y rhai a gadwyd yn yr arch, ac fe wnaeth y fath gyfnewidiadau yn hinsawdd ac awyrgylch y ddaear, fel y byrhawyd oes dyn o gannoedd i gynnifer a ddegau o flwyddi. Dyna drychineb ofnadwy a ddygwyddodd i'r holl hil ddynol o fewn cylch hanesyddiaeth. Mor fawr yw gallu ac ofnadwy yw digofaint Duw Hollalluog!

Wrth dynnu i derfyn ein myfyrdodau ar hanniad y byd, gallwn sylwi nad yw y gwrthddadleuon amseryddol ond tybiaethau heb un sail iddynt o fewn cylch hanesyddiaeth ddilys. Dywedir yn aml, gyd â digon o haerllugrwydd, fod y cofiaethau Chinëaidd ac Aiphtaidd yn profi fod y byd yn bôd filoedd o flynyddoedd neu o soedd cyn "Creadigaeth Moses." Ni sonir bod llawer o'r hyn a elwir yn "Gofiaethau Aiphtaidd," tuhwnt i ddadl yn ffugiol, a hollol ddireswm. Yn y croniclau Aiphtaidd ceir cyfnodau o ugain mil, ac un fil ar bymtheg ar hugain o flynyddoedd, pan nad oedd ond duwiau a hanner duwiau yn preswyllo ar y ddaear. Ac wedi dyfod i lawr i "oes dyn," y mae hanesyddiaeth forëol yr Aipht yn llawn cymmysgedd, dychymygion, a rhamantau, fel na wyddom yn iawn pa faint i'w gredu, na pha faint i'w wrthod, ond yn unig trwy gymhariaeth â'r Ysgrythyrau Sanctaidd, a gweddillion henafiaethau dyffryn y Nilus. Yr unig haneswyr Aiphtaidd y daeth dim o'u hysgrifeniadau i lawr hyd ein oes ni ydynt Manetho ac Eratosthenes, ill dau yn byw o fewn rhyw dri chan mlynedd cyn Crist, agos i ddeuddeg can mlynedd ar ol Moses. Ac y mae gweithiau y ddau a enwyd wedi myned ar ddifancoll tragywyddol, oddi gerth rhyw friwsion a geir ym mysg ysgrifeniadau Josephus, Esebius, a Syncellus. Yn wir, o waith Apollodorus o Athen, y mae Syncellus yn difynu yr hyn a rydd i un o hanesyddiaeth ddiflanedig Eratosthenes. Am Manetho hawdd i'w profi ei gymmysgedd a'i ffugiaeth, yn enwedig gyd â

golwg ar amseryddiaeth, a'i fod yn camgymmeryd brenhinoedd a gydoesent fel rhai yn byw mewn gwahanol oesoedd, ac yn priodoli iddynt weithredoedd annichonadwy, neu hollol anhygoel. Er holl ymffrost anffyddiaeth am henafiaeth mawr y cofiaethau Aiphtaidd, y mae Bunsen ei hun yn dangos yn amlwg nas gallai teyrnas yr Aipht fod wedi cael ei sefydlu yn foreuach nâ 3,643 mlynedd cyn y cyfnod Cristionogol, ac y mae Rouse yn profi bod Bunsen, drwy wrthod tystiolaeth Josephus a dilyn Africanus, yn gosod y dygwyddiad i lawr 442 mlynedd yn rhŷ fore. Ond y mae yr olaf yn dadleu yn alluog ac anattebadwy nad yw y cofieithau Aiphtaidd ddim boreuach nâ Moses. Priodola anffyddwyr hynafiaeth o filoedd o oesoedd i weddillion adeilyddiaeth Aiphtaidd. Cyn darganfod "Maen Rosetta," yr hwn sydd wedi profi ei hun yn allwedd mor hwylus i ddarlleniad y darlun-ysgrifau (*heiroglyphics*) Aiphtaidd, credai'r *doethion* fod y côfgoelofnau Pharöaidd yn cwbl wrthbrofi amseryddiaeth Moses, a phrophwydai Volney, ac anghredinwyr eraill, y byddai diwedd byth am Gristionogaeth pan ellid darllen y cerfiadau rhyfeddol hyn. Mor ddirfawr y siomwyd Satan. Pan oedd Napoleon I. yn yr Aipht, tynnwyd sylw neillduol at y ddwy sidydd (*zodiacs*) cerfiedig ar nèn teml Dendera ac Esneh, taerai Jomard eu bod 3,000 o flynyddoedd hŷn nâ Christionogaeth, Dupois 4,000, a Gori 17,000 o leiaf. Ond digrif ddigon, pan ddaeth Champollion, yn ei ymchwiliad i ddechreuad "modrwyau branhinol" i'r Aipht, cafwyd enw Augustus Cæsar ar sidydd Dendera, ac enw yr Ymerawdwr Antonius ar sidydd haul Esneh. Cymaint a hynyna am hynafiaeth anghyfrifadwy murrdynau yr Aipht. Ar y llaw arall, y mae y gweddillion hyn yn cyd-dystiolaethu â'r Ysgrythyrau gywirdeb "amseryddiaeth Moses."

Yr un ffunnud, y mae y cloddiadau a wnaed ym mysg adfeilion claddedig Babilon a Ninesh, wedi dwyn i

oleuni dystiolaethau annisgwyliadwy o blaid cywirdeb hanesyddiaeth Ysgrythyrol. Ni chaed hyd i un cerfiad na delw hŷn nâr cyfnod Mosëaidd.

Gwir fod "*hanesyddiaeth* China" yn aml yn ngenau anghredwŷr fel cofiaethau llawer hŷn nâg "Ysgrifeniadau Moses." Ond dengys Choo-footze, nad yw yr hanesion ond cread oesoedd diweddar, ac y mae Fung-Chow, hanesydd Chinëaidd cyfrifol arall, yn eu galw yn "ffugchwedlau anghredadwy, croes i bob rheswm a synwyr." Ac, fel y dywed Medhurst, "Yn yw y cymmeriad gwirioneddol boreuaf yn hanes China, ac nid oedd yntau ond cyd-oeswr â Pheleg, yn nyddiau yr hwn y rhannwyd y ddaear, pan ymfudodd dynion hyd dir *Sinim*, ac y dechreuasant osod sylfaen Ymerodraeth China.

Ffaith fawr a gogoneddus yw hon, fod Cristionogaeth nid yn unig wedi anrheithio a diwreiddio paganiaeth ddysgedig Groeg a Rhufain, ond hefyd wedi goroesi holl ymchwiliadau hanesyddiaeth a henafiaeth, wedi marchogaeth yn ddiogel holl donnau tymhestlog dysgeidiaeth ddadleugar oesoedd, ac wedi ennill gloywad a chryfhad oddi wrth gyffyrddiad pob gallu gwrthwynebol.

Camsyniad cyffredin arall yw, fod "pob cenedl y gwyddom ei hanes," o ddechreuad anwar a barbaraid, yn byw unwaith fel bwystfilod y goedwig, a bwyttawŷr eu cyd-ddynion, a bod gwareiddiad cenedloedd y byd wedi cymmeryd myrddiynau dirif o oesoedd i'w ddwyn oddi amgylch. Ni bu cenedl Israel eriôed mewn cyflwr anwar. Ac er fod yr hen Aiphitiaid a'r Caldëaid, a'r Groegiaid, a'r Rhufeiniaid diweddarach, yn eilunaddolwŷr bore, nis gellir dangos iddynt fod eriôed yn *anwariad*. Y mae pob mymryn o weddillion gwaith eu dwylaw yn profi ei gwarddeiddiad, a'u huchel ddiwylliad o'r celfyddydau cymdeithasol.

Yr un mor ynfyd yw yr hyn a haerir gan rai,—Nad oedd dyn ar y cyntaf yn meddu un math o iaith, a fod miloedd o oesoedd o'i fodolaeth wedi myned heibio cyn

iddo ddysgu siarad un dafodiaeth ddealladwy, chwaithach, meddynt, y cannoedd o wahanol ieithoedd sydd yn awr yn y byd. Gwrthddadl fusgrell iawn yw hon hefyd. Pa gynnifer o ieithoedd a godasant ac a ddiflanasant o fewn cylch hanesyddiaeth ddilys. Pa le yr oedd y Saesonaeg, er esiampl, yn nyddiau y Cæsariaid? Prin y gellir dyweyd mai yr un yw â Saxonaeg amser y Normaniaid.

Fel hyn y ceisiasom ddangos na lwydda un offeryn a lunir yn erbyn derbyniad yr Ysgrythyrau fel hanesyddiaeth ddilys—y cofiaethau hynaf a'r mwyaf creadadwy a fedd y byd, ac nad yw daearoniaeth, seryddiaeth, hanesyddiaeth genhedlig, amseroniaeth, nac ieithyddiaeth, yn profi dim angen nag a ddywed Moses am "Hanniad y Byd."

OES GWYBODAETH A RHESWM.

UN peth a wyddom, fod Gwirionedd yn anghyfnawidiol. Nid ydyw rhwysg a chwyldroadau amser yn cyfnewid dim ar ei natur. Gall, yn wir, orwedd yn guddiedig dros genedlaethau ac oesoedd, fel aur a meini gwerthfawr yn nghrombil anweledig y ddaear, a chael ei ddarganfod o bryd i bryd, drwy ymchwil neu ddamwain. Ond nid yw yn cynnyddu nac yn lleihâu ynddo ei hun, mwy nâ'r trysorau cuddiedig, er dydd y greadigaeth. Gwir fod mwy o wirionedd wedi ei amlygu yn awr nâg oedd yn adnabyddus yn yr oesoedd boreu, â bod ei ddadguddiad yn ymehangu ac yn myned oleuach oleuach o oes i oes. Y mae hyn yn wir am wirionedd o bob natur—anianyddol ac ysbrydol. Ond y mae y sylw i'w gyfyngu yn ochelgar, gyd â golwg ar wirionedd ysprydol, i'r datguddiadau ysprydoledig o feddwl ac ewyll-

ys y Duwdod, ac yn terfynu gyd â diflanniad yspryd prophwydoliaeth—gyd â chanon awdurdodedig yr Ysgrythyrau; fel nad oes un athrawiaeth *newydd* wedi cael ei hamlygu i ddynion er dyddiau Crist a'i Apostolion sanctaidd. Parhâodd datguddiad i gynnyddu ac ymchangu o Adda hyd Grist, ond yn Nghrist terfynwyd a pherffeithiwyd datguddiad pob gwirionedd *ysprydol*. Fel hyn, dan yr oruchwyliaeth bresennol, hyd oni ddel Crist eilwaith, nid oes, ac ni bydd, y fath beth a “datguddiad cynnyddol o feddwl Duw,” fel y tybia llawer o gyfeiliorwyr yr oes hon. Nid yw goleuni gwybodaeth gelfyddydol, lledaeniad addysg, na darganfyddiadau Athroniaeth Anianyddol, wedi ychwanegu un cufydd at faintioli ein gwybodaeth am natur a llywodraeth foesol Duw, nac wedi gallu taflu y llewyrch lleiaf ar sefyllfa ysprydol a thragywyddol dyn. Nid yw Duwinyddiaeth, ychwaith, wedi gallu darganfod dim ond sydd ysgrifenedig yn y gyfraith a'r prophwydi, a'r efengyl dragywyddol. Soniwch, yn wir, am oleuni cynnyddol yr oes, ond cofiwch mai nid goleuni “datguddiad” yw. Dichon, yn wir, i lygaid y naill ddyn fod yn oleuach nâ golwg y llall; dichon un fod yn ddall a'r llall yn gweled, ond nid oes dim cynnydd yn ngoleuni yr haul, na lleihâd ar ei ddisgleirdeb er y dydd y'i crewyd. Felly y mae gwirionedd Duw—gwirionedd datguddiedig—llewyrch ysprydol Haul Cyfiawnder—ynddo ei hun yr un y'mhob oes, er bod llygad moesol y naill oes yn gliriach nâ chanfyddiad y llall, ac yn graffach ei olygiadau.

Etto, gallwn ddyweyd fod gwirionedd fel y bryniau oesol a'r creigiau tragywyddol a ffurfiant rannau corphorol sylfaenol y ddaear, y rhai sydd heb gyfnewid dim o fewn sylw oes dyn, nac oes hanes y byd. Ond am farnau, a syniadau, ac opiniynau dynol, y maent, fel y llysieuyn sydd yn gwisgo gwyneb y ddaear, yn cyfnewid, yn prifo, ac yn ymddarfod, gyd â thymhorau ac oes-oedd. Ië, y mae y gwahanol gyfundraethau athron-

yddol, fel pob adeiladau dynol, yn codi ac yn syrthio gyd â rhwysg amser a chwyldroadau oesoedd. Yn wir, y mae argraph cyfnewidiad opiniynau dynol wedi ei gadael ar ddalen hanes pob oes. Y mae barnau a syniadau poblogaidd, ysgogiadau y meddwl cyffredin, "opiniwn y bobl," a dyfaliad doethion y byd, yn rhedeg o lanw i ddistyll, a o drai i lanw, yn ddiiorphwys. Y mae i bob ysgogiad hefyd ei wrthdro.

Fel hyn y mae i symmudiadau mawrion diwygiol, yn y byd crefyddol, eu gwrthdro dilynol. Etto y mae y gwrthdro bob amser rywfaint llai nâ'r ysgogiad gwr-eiddiol, ac fel hyn y mae cynnydd moesol y byd yn myned rhagddo yn raddol, ac eglwys Dduw yn ennill, yn ymlwybrad amser, fwy o dir nâg y mae yn ei golli o bryd i bryd yn ngwrthdroad syniadau y byd.

Nid anhawdd fydd i ni ysgrifenu bywgraphiad ysprydol o nodweddiad moesol neu grefyddol pob canmlwydd er dechread y cyfnod Cristionogol, ond digon i'n perwyl heddyw fydd myned yn ol yn ein hadolygiad at fore y Diwygiad Protestanaidd. Fel hyn, cawn, yn gyntaf, oes adfywiad dysgeidiaeth a gwybodaeth ieithyddol, hanesiol, a duwinyddol. Yna, oes diwygiad athrawiaethol, ac adferiad defodau Apostolaidd; pan ddaeth ellyllon ofergoeledd tywyllwch oesol Pabyddiaeth i fod yn ddychryn i'r byd crefyddol yn ngoleuni tanau erledigaeth. Wed'yn, oes Puritaniaeth bur, yna zel grefyddol yn berwi i benboethni ac aflywodraeth wladol. Drachefn, oes marweiddiad crefyddol, yn fferru i foesolrwydd oerllyd, deistiaeth syniadol ac ymarferol yn ymgeulo yn llygredigaeth buchedd ac anghrefydd gyffredinol. Ac yn olaf, "oes gwybodaeth a rheswm"—"oes egwyddorion y byd," a "doethineb y byd"—oes athroniaeth gelfyddydol a rhesymoliaeth. Dyma ein hoes ni, i'w gweled yn ei "goleuni" balchïol ei hun. Dyma oes fawr y celfyddydau—oes philosophyddiaeth ddiweddar; ac ni fu, ar ryw olygiad, eriôed oes debyg

iddi. Y mae pob cangen o wybodaeth, pob gwyddoniaeth ddynol, wedi cael ei ddiwyllio a'i meithrin, ac wedi prifio mwy neu lai, neu fawr gynnyddu, yn ein hoes ffrwythfawr ni. Y mae efrydiaeth yr ieithoedd dysgedig, a'r "saith gelfyddyd freiniol," wedi rhoddi lle i Athroniaeth Naturiol, a Duwinyddiaeth Ysgolaidd wedi diflannu o flaen Philosophyddiaeth Foesol, a rhwysg Gwyddoniaeth Anianyddol. Nid oes neb yn darllen gweithiau duwinyddol, nac yn ysgrifenu ond ychydig ar byngciau athrawiaethol. Ac y mae pregethiad yr oes yn un *ymarferol* yn hyttrach nag *athrawiaethol*. Anianyddiaeth yw prif bwngc astudiaethac ymchwil y "byd dysgedig." Y mae philosophi megis yn ymgais am oruchafiaeth ar grefydd ddatguddiedig. Ië, y mae llawer o ddysg anianyddol yn gyrru dynion yn ynyd yn eu syniadau a'u tybiaethau—am greadigaeth y byd, dechreuad yr hil ddynol, natur datguddiad Dwyfol, a llawer o bethau cyffelyb. Y maent wedi myned i edrych ar ddisgleirdeb pethau ysprydol drwy ddrych tywyll Crefydd Natur. Y maent wedi drachtio mor ddwfn o ffrydiau cymmysg-lyd philosophyddiaeth, wedi madroni cymmaint ar "egwyddorion y byd," fel nas gallant archwaethu y dyfroedd bywiol a darddant allan o ffynnonnau iachawdwriaeth; y maent yn gwrthod rhodio gyd â Duw wrth oleu dydd datguddiad Ysgrythyrol, ac yn dewis ymbalfalu am dano y'nghelloedd tywyll Daearoniaeth (*Geology*), wrth hudlewyn rheswm a dychymmyg. Nesânt at Gristionogaeth gyd â rhagfarnau anianyddol, ac felly gwrthodant bob pwngc o ffydd Crist nas gallant ei ddodi i ffurf philosophyddol a "rhesymmol."

Y mae ymddangosiad pob gwrthddrych yn ymddibynu yn fawr ar sefyllfa yr edrychydd, a'r ffordd y nesêir at yr hyn y tremmir arno. Tybiwn ein bod yn nesâu at ryw ddinas fawr; nid yw yn ymddangos yr un fath o bob ffordd atti. O un cyfeiriad, ceir golwg fawreddus, gyflawn, a chywir arni; o ffordd arall, gwel-

ir hi dan yr anfantais fwyaf, ni chenfydd yr edrychyd ond ychydig o'i gwir fawredd a'i gogoniant. Ymddengys yn wahanol iawn o hen fryn amlwg, o'r briffordd glir, ac o liw dydd, i'r hyn y gellir ei ddychymygu am dani pan ddeuwn atti drwy dorlennydd a cheuffyrdd ac o liw nos. Etto yr un yw y ddinas o ran ei mawredd a'i gwychder priodol ei hun. Felly y rhydd teithwyr ddysgrifiadau mor wahanol, a gwrthddywedol i'w gilydd, am yr un lleoedd. Ië, felly y mae golygiadau dynion, a dynion dysgedig, ar y grefydd Gristionogol a datguddiedig mor amrywiol ac mor groes. Y mae un yn edrych arni oddi ar fryn Calfaria, drwy ddrych ysprydol, goleu, Cyfryngdod Crist, y ffordd newydd a bywiol sydd wedi ei chyssegru drwy y llen; ar hyd llwybr dolurus y grôg i ben esgyniad gogoneddus yr Olewydd. Y mae'r cyfryw yn edrych â gwyneb agored ar Gristionogaeth, yn llawenyachu y'ngoleuni a gwres datguddiad, cyfiawnder, cariad, a gras Duw; yn gweled, yn profi, yn credu, ac yn llefaru. Y mae un arall yn nesâu at Gristionogaeth ar hyd yr hen ffordd Rufeinig—traddodiadau y tadau,—llwybr a balmantwyd drwy awdurdod Babaid, drwy gysgodau beddrodol seintiau a monachod, drwy darth yr offeren, a mwg tywyll y purdan, a thrwy gwmmwl o gyfryngwyr gau. Y mae y trydydd yn nesâu at grefydd Crist, drwy niwl philosophyddiaeth anianol, neu trwy ddringo llwybr llaethog Seryddiaeth anturiol, drwy gloddio i ogofâu dioleu Daearoniaeth, a dilyn ei rheswm gwyrdraws ei hun. Felly y mae yn methu canfod yn ei fyw fod Cristionogaeth yn ddim amgen nâ chyfundrefn o Philosophyddiaeth Foesol, wedi ei damlygu (*developed*) drwy gynnydd graddol "addysgiad y byd," ac yn well nâg Iuddewiaeth, Mahometaniaeth, a Phaganiaeth, o gymmaint ag y mae, yn ol ei dyb ef, yn nes at "Grefydd Natur." Ond am obaith da drwy ras, am lawenydd a gorfoledd yr iachawdwriaeth, yn dwyn ei enaid i gymdeithas a delw

Duw, y mae wedi cael ei "yspeilio drwy philosophi, a gwag dwyll, yn ol traddodiad dynion, yn ol egwyddorion y byd, ac nid yn ol Crist."

DIWEDD Y BYD.

Y MAE pob peth megis yn ein rhybuddio fod dydd maith yr oruchwyliaeth Efengylaidd yn tynnu at ei derfyn, fod dull presennol y byd yn prysur ddirwyn i ben, a dydd mawr datguddiad Crist yn agos, fel na wyddom y dydd na'r awr y daw i'w deyrnas a'i ogoniant. Nid dychymmyg na breuddwyd i'w hyn, ond gwirionedd difrifol—gwirionedd mawr a gogoneddus. Onid yw arwyddion yr amserau hyn yn cyfattedb yn amlwg a hynod i argoelion rhagfynegedig ail ymddangosiad gwynfydedig ein Harglwydd? Y mae holl amgylchiadau rhyfedd, cyflwr pryderus, a rhagolygiadau teyrnasoedd Cred, megis yn cydrybuddio yr Eglwys a'r byd, fod rhyw chwyldroad mawr wrth y drws—rhyw gyfnod na bu ei fath er dyddiau y ddaear. Y mae y byd celfyddydol, masnachol, crefyddol, ac annuwiol megis yn dyblu ei egniadau, yn cydgasglu ei holl nerth, yn ymdrechu, ac yn dirdynnu pob gewyn, yn gorweithio pob cymmal, i redeg ei yrfa i ben. Gwir iawn mai "oes agerdd" yw yr oes hon, a bod yr agerdd-beiriant, a'i lusg trystfawr, yr hwn sydd yn mygu, yn pwoffio, yn ymegnio, yn trystio, ac yn ffullio heibio i'n dinasoedd, a thrwy ein meusydd, yn arwyddlun perffaith o'r oes hon; oes lawn o yni, oes nerth braich ac ysgwydd, oes brysur, oes ffêst ar ffull, oes drystfawr a diorphwys. Pa beth yw yr holl brysurdeb a'r sŵn hwn? Oh, nos Sadwrn y byd yw; pan y mae yn tasgu ei holl

alluoedd, yn hyspyddu ei holl adnoddau, yn dirweithio, pob aelod, a chymmal, ac erfyn, i gyflawni ei rwymed-igaethau—i orphen ei waith cyn gwaedd hanner nos—“Y mae y priodfab yn dyfod”—cyn i orlais y brophwydoliaeth daro awr ddiweddaf yr oruchwyliaeth hon.

Y mae lluoedd ar luoedd yn “cyniwair,” chwedl Daniel Brophwyd, yn y prysurdeb cyffredinol hwn, yma ac accw, ar edyn agerdd, yn “fyw” drwy yr holl ddaear; ac y’mhob parth o’r byd y mae “gwybodaeth yn amlhâu.” Dyma y “goleuni yn yr hwyr” wedi eisoes lewyrchu ar yr oruchwyliaeth am yr hon y rhagfynegwyd mai “Nid dydd ac nid nos” a fyddai. Onid yw Anghrist eisoes yn ymfrawychu, coron haiarn ei dra-arglwyddiaeth yn ymlithro dros ei dalcen, rhwymau pres ei lwynau yn ymddattod, ei liw yn newid, fel gwedd Belsassar, ei liniau yn ymguro y naill wrth y llall, a’i draed priddlyd yn dechreu corphi, dan effaith dileol disgleirdeb cyfagos Crist? Y mae gwawr, cyn codi haul rhyddid milflwyddol, megis yn ymdorri ar dywyllwch tiriogaethau caethiwed oesoedd. Y mae efengyl y deyrnas yn cael ei phregethu i’r holl genhedloedd.” Y mae “diwedd pob peth yn nesâu,” yn ol yr holl arwyddion cyfamserol hyn.

Bwriwn olwg dros lyfr rhyfeddol a gogoneddus y Datguddiad, a chydmarwn esponiadau y duwinyddion dysgediccaf, disgleiriaf eu ffydd a’u buchedd, a gwelwn yn amlwg fod yr holl brophwydoliaethau yn dirwyn i ben. Y mae y bummed phiol wedi cael ei thywallt er’s llawer dydd ar orseddfainge y bwystfil Pabaid, ei deyrnas wedi myned yn dywyll, a’i allu tymhorol agos wedi llwyr ddiflannu. Ië, y mae y chweched phiol wedi cael ei thywallt ar yr afon fawr Euphrates, a’i dyfroedd yn sychu i fynu yn ddistaw ond yn brysur; hynny yw, y mae y gallu Mahometanaidd neu Dyrcaidd yn diflannu, ac uwchafiaeth wladol y Gau-brophwyd yn myned yn ddim. Y mae tri yspryd aflan tebyg i lyffaint wedi

dyfod allan o enau y ddraig, o enau y bwystfil, ac o enau y gau brophwyd, yn ffurf Penrhyddid (*Latitudinarianism*), Traethodyddiaeth (*Tractarianism*), a Rhesymmolyddiaeth (*Rationalism*), yn ymlusgo i gonglau dilewyrch cysgodog y cyssegr, ac yn "crawcian" o amgylch llawer allor ffurfiol, gan lygattynnu rhai o fawrion, a phendefigion, a "breninoedd y ddaear," i lochi ac ategu Paganiaeth, Mahometaniaeth, a Phabyddiaeth, i ddibenion gwladol.

Er hynny, y mae y cyrn coronog a roisant cyhŷd o oesoedd eu gallu a'u hawdurdod i'r bwystfil, yn dechreu casâu y buttain,—bron wedi ei gadael yn unig ac yn noeth. Ac nid oes iddi ond disgwyl ofnadwy am dywalltiad digofaint gorphenol y seithfed phiol—"lleisiau, taranau, a mellt, a'r ddaeargryn" sydd i'w llyngau i dragywyddol ddinystr, a gwarth, a dialedd; fel na weler mwyach ond "mwg ei phoenedigaeth yn esgyn i fynu yn oes oesoedd."

Pa beth bynnag a ddywedir am farn Arglwydd Carlisle, Dr. Cumming, ac eraill, gyd â golwg ar y flwyddyn bennodol 1867, tra na pherthyn i ni wybod "yr amseroedd na'r prydiau," y mae yn ddigon eglur nas dichon dydd Crist fod y'mhell. Braidd na chredem fod sŵn olwynion ei gerbydau buddugoliaethus, a sang meirch gwynion yr osgordd nefol, i'w clywed yn nesâu, uwch twrf cwmp agosach "Babilon Fawr." Y mae yn dyfod i ddinystrio ei elynion, i adgyfodi llwch ei saint hunedig, i gyfnewid ei saint byw, i ddwyn trugaredd a gogoniant i Israel, i ddiddymu brenhiniaethau cleddyfog y ddaear, i gymmeryd meddiant o'r deyrnas a brynodd â'i waed, i eistedd ar orseddfa Dafydd, ac ar ei frenhiniaeth o hyn allan a hyd byth, i farnu yr holl genhedloedd, ac i roddi tangnefedd tragywyddol a gogoniant i'w bobl. Y mae yr Yspryd a'r Briodasferch yn dywedyd, "Tyred;" a'r hwn sydd yn darllen dyweded, "Tyred." "Yn wir, tyred, Arglwydd Iesu." Gan hynny, gwgliwn,

gweddiwn, edrychwn, dymunwn, hiraethwn, disgwyl-iwn am dano, am na wyddom, bellach, na'r dydd na'r awr y daw Mab y Dyn.

Yn olaf, os yw dydd gras yn hwyro, a'r oruchwyl-iaeth efengylaidd bron ar ben, gyd â pha egni a phen-derfyniad y dylai yr eglwys gyffredinol weithio ein cenhadaethau cartrefol a thrammor, rhag i'n Harglwydd ddyfod a'n cael heb gwbl gyflawni ei orchymyn ymad-awol, "Ewch i'r holl fyd a phregethwch yr efengyl i bob creadur."

MEDDYLIAU A DYWEDIADAU MOESOL.

Y MAE gwybodaeth anianol i ddyn mewn tywyllwch ysprydol fel goleu lleuad, yn rhoddi llewyrch benthyc-col a thwyllodrus i'r deall, heb ddangos dim yn ei wir liw; ac yntau yn ceisio cerdded llwybr rheswm rhwng cysgodau camsyniad.

Y mae dynion o dalentau mawrion a chyrhaeddiau uchel, heb ddigon o ofn Duw, a gras attaliol, fel llong wag dan hwylbren talog llawn lliain, mewn perygl o gael eu bwrw wyneb yn isaf gan bob pwff o brofedig-aeth a chwyth arnynt.

Pan amcanodd balchder ddringo yn uwch nâ'r nef, ei ddamwain fu cael codwm i uffern.

Y mae'r cariad sydd yn cynneu brysuraf yn aml fel tân gwellt, yn fflagu i ffordd ac yn darfod, heb adael dim marwor.

Y mae'r edifeirwch sydd yn canlyn taranau Sinai fel cawodydd o wlaw cenllifog; yr hwn a gynnyrchir yn ngwres Calfaria fel gwllith distaw araf yn defnyddu ar berlyisiau.

Lle bydd y ffrwd ddyfnaf yno y rhed lonyddaf a distawaf.

Ni bu eriôed bris ar ddysg rhad. Goreu dysg a brynir; oni phrynir yn rhy ddrud a rhy hwyr.

Oni flodeua gwybodaeth mewn ieuengctid ni addfeda doethineb mewn oedran.

Y peth annhebyccaf yn y byd yw i ddyn farw i Dduw wedi byw i ddiafol.

Ni ddisgyn un dafn o drugaredd byth ar grasdir colledigaeth.

Pechod yw yr erfyn a gloddiodd y pydew diwaelod, y fegin sy'n chwythu tân uffern yn fflam o boenedigaeth dragywyddol.

Y mae croeswynt y naill yn cwythu yn deg i arall.

Ni wêl rhai dynion ddim â llygad noeth rheswm, ond edrychant yn wastad drwy y pen yma neu y pen arall i ddrych rhagfarn; felly canfyddant bob peth yn fwy neu yn llai nâ'i wir faintioli.

Melus gan dafod gweniaith lyfu cornwyd balchder.

Y neb a rydd raff i'w ryfyg annuwiol i edrych dros ddibyn terfynol trugaredd a syrth i agendor colledigaeth.

Y mae dyn yn byw yn rhy hir y'nghyfrif y byd pan fo yn goroesi ei ddefnydd a'i werth.

Y mae gobaith y credadyn fel ffenestr arch Noah, yn edrych yn unig tua'r nef.

Y mae diwedd y Cristion yn well nâ'i ddechreuad; fe'i ganed yn bechadur, ond y mae yn marw yn sant.

Y mae y celfyddydau cywrain a'r gwybodaethau breiniol yn disgleirio fel cynnifer o ser perlog yn ffurfafen crefydd natur, a phob peth o'u hamgylch yn nos ysprydol. Pa ryfedd, gan hyny, fod doethion bore Caldea a dysgedigion Groeg yn ymbalfalu dan eu dwylaw, yn methu canfod yr Anweledig, yn syrthio ac yn addoli carreg fud neu foncyff o bren, gan ddywedyd, "Ti yw fy Lluniwr, gwrando, ac achub fi," tra yr oedd hi etto yn rhy dywyll i ddyn adnabod ei hun.

Yr oedd yr holl ganhwyllau prophwydol a oleuent yr oruchwyliaeth gysgodol wedi llosgi allan er's yspaid pedwar can' mlynedd cyn ymddangosiad Crist, fel y bydd ser y cyfddydd yn diflannu ennyd cyn codi haul.

Gellir cyfrif Ioan Fedyddiwr fel seren-ddydd yr oruchwyliaeth Efengylaidd. Cododd yn ddisglaer yn ffurfafen yr Eglwys Iuddewig yn union o flaen ymddangosiad Haul Cyfiawnder.

Y mae ffrydiau cariad a gras yn tarddu o galon Duw, yn ymdywallt i gronfa anfesuradwy cyfiawnder Crist, ac o hono Ef yn rhedeg drosodd i holl lestri trugaredd.

Un diferyn o Waed y Cymmod a ddiffoddai holl eirias uffern, ond y mae pob dafn o drugaredd wrthodedig ar y ddaear yn troi yn gwmmwl o wŷg tragywyddol cyn cyrraedd y fflam.

I'r neb y rhoddes natur fwyaf y rhydd ffortun yn aml leiaf.

Y mae cyfoeth y byd hwn fel dyfroedd y môr, yn llenwi heddyw i dreio yforu.

Y mae yr ychydig a gesglir trwy lafur gonest a gofal darbodus yn fwy bendithiol nâ mawr olud drwy ddi-gwyddiad heb boen i'w gyrraedd, teilyngdod i'w feddu, na doethineb i'w ddefnyddio.

Y mae calon llawer dyn yn rhy egwan o ras, a'i ben yn rhy ysgafn o synwyr, i sefyll codiad mawr yn y byd heb wag-droi gan uchder, edrych i lawr yn ddiystyr ar eraill, a syrthio wrth gyffelybrwydd Satan.

Yr ymgydiad tynnaf wrth fwyniant daearol yw y tebyccaf o dorri fel rheffyn o wellt, a'n gollwng ninnau wysg ei cefnau i gwymp diddisgwyl, gofidus, a chywilyddus.

Y mae i gyfoeth fwy o addolwŷr nâg un duw arall ar y ddaear.

Y mae ffafr y byd yn myned heibio fel gwisgiad tymmor.

Fel march siomgar yn gostwng ei ben wrth dennyn ei dorriad, y bydd ambell ŵr ffrom gwag-ogoneddgar yn ceisio gwneyd ei ostyngeddwrwydd yn ddrych moliant y byd. Ond nid oes dim ymddiried iddo. Gwylied dyn isel fyned yn rhy agos atto, ymgadwed o fewn pellder parchus, rhag cael cic budr niweidiol yn ei wrthol.

Y mae balchder yn chwydd yng nghoryn dyn byth wedi'r cwmp, ac y mae yn teimlo wrth natur gymmaint oddi wrtho fel nas gall ddioddef i ddim ei gyffwrdd, ond pluen moliant, neu dafod gweniaith. Ac nid oes dim a'i gostwng yn effeithiol ond olew dwyfol ras.

Y mae y byd yn gorchfygu miloedd, ond y mae y Cristion yn gorchfygu y byd, ac felly yn fwy nâ choncwerwr.

Y mae cyfeiliornad gŵr dysgedig fel niwl ganol dydd; y mae y deall ynddo ei hun, yn oleu, ond bod y gweliediadau yn fŷr, yn gymmysglyd, ac yn dwyllgar.

Mordaith yw bywyd y Cristion, drwy dawelon yn gystal a thymhestloedd. Ac mae tywydd llonydd yn aml yn lluddio ei hynt yn fwy na'r gwyntoedd a'r dryghin. Y mae tawelwch cnawdol yn rhagflaenu tymhestl profedigaeth. A phan na bo un awel gynnyrffiol yn llenwi ei hwyl, nac un dòn yn crychu gwyneb ei deimladau ysprydol, na'i fwynderau daearol, dyna adeg arbenig i ymaflyd yn rhwyf dyledswydd, a thynnu yn rymmusach tua thir ei etifeddiaeth nefol.

Nid oes distadlach nâ'r neb a gymmer fenthyg enw a chlod am waith eraill.

Nid oes camsyniad mwy cyffredin nâ meddwl bod dyn yn ei ddyrchafu ei hun pan yn ymostwng i iselu arall.

Y mae canmoliaeth fel olew sydd yn iro olwynion holl weithrediadau dyn, a'r meddwl gwannaf sydd yn gofyn mwyaf o hono; ac y mae y cryfaf yn anhyd yn i weithio llawer heb ddim clod. Mawl y da a ladd y drwg.

Camp dyn yw ei ragoriaeth, ac onis gall ennill enwogrwydd clodadwy, efe a gais hynodrwydd anghlod. Y neb ni fedr wneyd da, a wna ddrwg i wneyd sôn am dano.

Dysg fyw fel y medrych farw. Y mae yr oes ferraf yn rhy hir i bechu.

Unig gysur gauaf henaint oer a phenwyn yw gobaith gwanwyn irlas blodeuog anafawroldeb.

Y mae gweithredoedd drwg fel ellyllon dan fantell nos, yn ymrithio allan o gelloedd dioleu marwolaeth ysprydol, ac yn ymrodio y'mysg beddau llygredigaeth moesol y byd.

Y mae yr afonydd mwyaf yn cymmeryd teyrnged y cornentydd a'r goferydd lleiaf: bob yn ychydig ac ychydig y cesglir llawer—llawer o wybodaeth fel llawer o gyfoeth.

Fel y try rhew y dyfroedd yn iâ y mae anghariad yn oeri ac yn caledu y galon.

Ar wisg y Cristion glanaf ei rodiad cyffredin yr ymddengys ol codwm damweiniol i bechod futtraf; y mae fel parddu uffern ar wyneb angel, a phob pechadur adnabyddus yn ei hwttio i gywilydd.

BARDDONIAETH.

Cyfansoddiadau Cyssegredig.

DIFYNION O AWDL AR GYSTUDDIAU, AMYNEDD, AC ADFERIAD JOB.*

MYDRA gywrain ymadrodd,
O Awen fwyn, o iawn fodd.

I'r goludog ŵr gwirglodus,—hwnnw
Oedd hynod lwyddiannus,
Diddrwg ac anrhydeddus,
Galluog—enwog yn Us.

* * * * *

Un teimladol at aml dylodi,
Da, ystyriol, o fawr dosturi ;—
Neb yn rhwyddach i bawb yn rhoddi,
Mewn hwyl unwedd, a mewn haelioni
Heb air sarug, heb ryw sorri—na bloedd,
Yn noddi cannoedd yn nydd cyni.

Ar diroedd aur y Dwyrain,—y cadarn
Fel cedrwydd yn firain,
Beunydd, a'i gynnydd yn gain,
Lledai ei geingciau llydain.

Saith mab, yn arab o nerth,—a hanent
O hono, a phrydferth
Dair merch lân (o wiwlan werth)
A doniol—nid plant dinerth.

* Testyn Cadair Eisteddfod y Gwyneddigion a gynnaliwyd yn Llynlleif-iaid yn 1838: dyma'r Awdl gyntaf a ganodd y bardd, ond ni ddanfonwyd mo honi i'r gystadleuaeth, ac os ceir ynnddi gynghaneddion sydd yn awr yn eiddo beirdd eraill, cofier eu bod, chwarter canmlwydd yn ol, yn berffaith newydd i'r bardd ieuangc, ac na wyddai efe ei fod yn dwyn dim oddiar neb.

A dāoedd gwlanog, corniog, carnol,
Ca'dd yn feddiant, ac iddo yn fuddiol—
Goludoedd ac enw gwladol—a'i weision
Yn ëon fawrion annifeiriol.

* * * *

Gwasanaethwŷr,
Amddiffynwŷr,
Dano 'n swyddwŷr,
Dawnus oeddynt ;

Gweision gwiwswydd,
Mwyn, llon, mewn llwydd,
Haelion hylwydd
Eu helynt.

Ië, gweision,
Ufudd purion
Ô fodd parod ;

Merched gweini,
Gwâr a heini',
A gwŷr hynod.

Duw yn rhwydd—dedwydd y dawn !
A rannodd i ŵr uniawn
Ffyniant, a llwyddiant yn llawn,—i Job hael,
A'u gafael yn gyfiawn.

Yn mlodau dyddiau y daeth
I foddion etifeddiaeth ;
Yma 'n hir y mwynhai hedd,
Golud, bonedd gwlad-bennaeth.

Hwn oedd y mwyaf yn ddiameuol
O radd, o rinwedd, o'r fro ddwyreiniol,
A'i aml arfeiddiau, a mawl rhyfeddol,
Gŵr o gynnorthwy, fel y graig nerthol,
I'w frodir fawr hyfrydol—yn arglwydd
Ar ei dir dedwydd, ŵr awdurdodol.

A gwleddoedd bob gŵyl oeddynt,
I feibion ac wyrion gynt.

Eu chwiorydd
Fr llawenydd
Yn ddir beunydd
A dderbynient ;

Peidiai murmur
Prudd anghysur,
Poen a dolur,
Pan y delent.

Croesaw mwyn, heb gwyn, a gaid,
Pob danteithion breision brwd,
Gwenau hael, a gwin o hyd,
Puraf, gloywaf yn eu gwlad.

Ar ddydd y wledd haelwedd hon,
Yr enwog henwr union,
Ar wawrddydd, mewn ffydd a pharch—
Mewn gofal mynnai gyfarch

Duw y nef, â'i lef wiw lwys
 Wibredai i Baradwys ;
 Ardderchog eiriau ddyrchai,
 Ac eorth gymmorth a gai.
 Achubiaeth drwy bechaberth,
 Cymmorth hawdd, a nawdd, a nerth,
 Ei gadarn Dduw yn Geidwad,
 Yn awr pryder tyner tad.

* * * *

Cedwid, cynhelid mewn hwyl—a seibiant
 Ryw Sabbath, neu gylchwyl,
 Diwrnod o gymmod a gwyl
 I fwynion y nef anwyl.

Cynnulent, ymgasglent i gyd—i ddilyth
 Addoli yn unfryd
 Iehofa, eu Hiôr hefyd,
 Creawdydd a Barnydd y byd.

Daeth Satan aflan i wÿdd
 Y Duwdod, fel y dedwydd !
 Gwnaeth gyffes o hanes ei hynt,
 Pan holwyd pen ei helynt ;
 “Daethum,” meddai, “o deithio,
 “Pedair bro gwynt drwyddynt dro,
 “Dirfawr wledydd daearfyd
 “Rodiais, amgylchais i gyd.”

“A sylwaist—deliaist di'n dda
 “Hefyd,” ebe Iehofa,
 “Ar Job fy ngwas addas I,
 “I'w ddelyn i addoli
 “Y Duwdod—onid ydyw,
 “I'r gyfraith berffaith yn byw,

* * * *

“A chalon i ochelyd
 “Chwantau a beiau y byd ?

I hyn y gelyn a gai
 Attebiad, fel y tybiai,
 “Ai rhyfedd,” ebr, hefyd ;
 (Yn wawdus fradus ei fryd,)
 “Ei droi yn was o ras di rith,
 “Dan fwynder Duw yn fendith ?

“Gwisgaist, amgylchaist y gŵr
 “Goludog â mawr glydwr ;
 “Ond tyn dy law draw, a drwg
 “Ei galon ddaw i'r golwg.

“Gyr a'mharch i'r gŵr yma,
 “Trallod, neu ddyrnod i'w dda
 “Bydol, ac na arbeda ;
 “Yna'n rhwydd y gogwydda,
 “O'i gampus ffydd e' gwympa,
 “A iaith rugl iawn y'th rega ;
 “Tyn y fraich sydd tan ei fron
 “A'i foddion i grefydda.”

Ebr Duw, “Myfi biau 'r da,
 “Am hyn, anhydyn, hwda,
 “O law y Ner cymmera,
 “Hen Ddiafol, hyn i'w ddifa,
 “Mewn dig ; yn unig na wna,
 “(Trwy ammod) y tro yma,
 “Drwg i'w berson union ef,
 “I oddef poen ni haedda.”

Allan yr aeth yr ellyll,
 Awdwr pechod hynod, hyll,
 Hen gwympwr dyn o wynfyd,
 Cynnyrfwr mawr boenwr y byd,
 Lluniwr brad yn Mharadwys—nwyd allan
 Y'nghalonau glân angelion glwys.

Arweiniodd gâd o'r wiwnef,
 Cyffrodd, cynnyrfodd y nef ;
 Draig ydoedd droai gedyrn,
 O chwant, i wrthryfel chwyrn ;
 Seraph ydoedd, sarph wed'yn,—
 Cyfrwysach, dyfnach na dyn.

Aeth Job yn nôd hynod hwn,
 Yn annwn yr ennynodd
 Dialedd o du ei elyn ;
 Ar y didwyll wir gredadyn
 Yn sydyn ymosodd.

Plant y cyfion,
 Er rhybuddion,
 Annufuddion
 I'r nef oeddynt ;

I'w hanghrefydd
 Tost ddialydd
 Gaed a cherydd
 Gyda chorwynt.

*

*

*

*

Gwas syn, er ei ddychryn ddaeth,
 Ag annedwydd gennadaeth,
 Ag uthrawl olwg athrist,
 Crymmai, adroddai yn drist—

“Herriai ’r Sabeaid hirion—dy weision
 “Dewisol a dewrion,
 “Ond dinerth oedd ein dynion,
 “O flaen bleiddiaid yr haid hon.

“Y gweision a orchfygasant—Ow sôn!
 “Asennod dy feddiant;
 “A’th ychain bras ddygasant,
 “Y lladron chwyrnion, o’u chwant.

“A’u cleddyf glas lladdasant—y dynion,
 “Un o dy weision ni adawsant;
 “Y treiswyr i’w ffordd y troesant—yn ol
 “A mud dewisol ymadawsant.

“Myfi, adyn! bryfyn brau!
 “Ddiengais rhag cledd Angau
 “I unigol fynegi
 “Llymder eu toster i ti.”

Dyben diball
 A fyn y Fall,
 O’i duth-yrriad, daeth arall
 Gŵr llymmach, llwyttach na’r llall.

“Nodai i Job annedwydd—i ddifa
 “Dy ddefaid, fy Arglwydd,
 “Daeth fflam dân allan o wydd
 “Y Duwdod a’r llu dedwydd.

“Trawodd, enynodd yn union
 “Y defaid gyda ’r ŵyn dofion,
 “Y dynion hefyd a daniodd,
 “Ond syndod, hynod yw hyn!
 “Abwydyn a arbedodd,
 “Adyn llwm! mòr drwm y drych!
 “I edrych ac i adrodd.”

Trydydd genhadydd ar hyn
 Dechreu a wnai mewn dychryn,

Lefain yn dra gwylofus
 “Daeth lladron a bron heb rus,
 “Mileiniaid, Caldeiaid du—
 “Tair byddin i’n trybaeddu.*

“Dy weision dewrion a dorrwyd
 “A’u cleddyf hwy, ac a laddwyd;
 “Ysbeiliwyd gan weis Belial
 “Gamelod a’u llydnod llon,
 “Y da hyfion dihafal.

“Rhag creulonaf drymaf drais
 “A du Angau diengais,
 “Do, ryw fodd i adroddi
 “Y gair tost a’r gwir i ti.”

Pedwerydd negesydd a gaid
 Ynganai yn ing enaid,
 Neges hwn tra’n agosâu
 Arwyddid ar ei ruddiau,
 “Erglyw,” meddai, “fy Arglwydd,
 “Etto o’i law rhoed Duw lwydd,
 “Minnau glod am fod yn fyw
 “Heb haeddiant, fel bu heddyw,
 * * * * *
 “Ymrodiais ymdrois draw”—

Hyd at hafod dy etifedd,
 Gwin a *music* gawn a maswedd,
 A mawr afiaeth (O mor ryfedd !)
 Glywid yno o’i glyd annedd.
 Gyda gloddset gwyd y gleddent,
 Y dyferion a’u difyrrent;
 Y chwiorydd a chwareuent,
 A’u hoyw frodyr a hyfrydent.

Aent yn fwynaidd
 O dan beraidd
 Swyn hudolaidd
 Sain y delyn,

I’r gyfeillach,
 A’r gyfeddach,
 Bawb yn ddyfnach,
 Bob yn ddefnyn.

* Ceir cynghanedd cyffelyb i’r llinell hon, ac hefyd

“Herriai Sabeaid hirion,”

yn amryw o’r awdlau ar Job, yr hyn a brawf fod yr un cordeddion yn dyfod i bennau gwahanol feirdd yn hollol ddjarwybod i’w gilydd, ac weithiau ar yr un amser.

Awr y'mhellach yr ymhyllent,
 Ië, neidient i anwydau,
 Yn ysbleddach nos y bloeddient
 Hwyl, a gwaeddent, a'u hagweddau
 Dyn ni pharchent, Duw nid ofnent—
 Diystyrent, ei dosturiau ;
 I'r Fall tyngent, ymfelldigent,
 I hwn nodent eu heneidiau.*

O yr anialwch ar un eiliad
 Yni yr awel a wnaï ruad,
 A chwythai gorwynt chwith ei guriad,
 Yna y trowynt â'i un tarawiad,
 'R ofer dylwyth a'r fawr adeilad
 I'r dom chwalai ar eu dymchwelyd.

Caddug lychlyd a'u cuddiai ;
 Y dirfawr gwyp a dyrfai
 Fel rhwygiad neu chwythiad chwai,
 Trwy yr enaid taranai,
 Dros ennyd draw y swniai,
 A chwa boenus chwibanai
 Drwy ddrylliau y muriau maith,
 Ac eilwaith yr enciliai.

Och ! bu'n drallod uwchben y drylliau,
 Twr o gelanedd ! tyr galonau !
 Uwch annedwydd ocheneidiau,
 Merched anwyl, môr wych eu doniau !
 Dy feibion dewrion yn dyrrau—gwelw
 Wed'yn yn marw dan y muriau.

O'r dirfawr aruthr derfyn,
 A arbedodd Duw'r abwydyn ?
 Heb haedd bu heddyw,
 Un o'i fath yn fyw,
 Nid ydyw ond adyn !

Pryf a ffodd i adroddi,
 Dy galed flin dynged di,
 Gyda'm braw a gwyd i'm bron—
 Tost gwynion tyst o gyni.

* Fel hyn, bydd yr awen yn arwain y bardd weithiau yn groes i'w syniad neu farn.

A drylliedig fron drallodus,
 E' lefai Job yn wylofus
 Mewn aethus wayw ymnoethai;
 Buan äi allan, ei ben a eilliai,
 Yn llwyd o dano y lludw a daenai,
 Y wê rawn yn wasgod ar hyn a wisgai,
 Mewn dwys gwynion yn y man disgynai,
 Ar ddeulin er addoli—Duw nefol
 A llaw Ddwyfol ei allu addefai.

Ebr ef, “ Duw nef a wnaeth,
 “ Iôr glanaf, ei ragluniaeth.
 “ Diau yn noeth y down ni
 “ Allan o'r groth—ni elli
 “ Y balchaf ei ben eilchwyl
 “ Ddwyn dim ymaith chwaith (ar chwyl
 “ Amser), o fwynder i fedd,
 “ I adferu dy fawredd.
 “ Trengi 'n noeth—holl gyfoeth gŵr
 “ A luniwyd i'w olynwr,
 “ Bendigaf a molaf mwy
 “ Y Duwdod mawr clodadwy;
 “ Rhoddodd, cymmerodd, a mi
 “ A ddylwn ei addoli.”

Job hefyd yn ynfyd ni wnaeth—drosedd
 Er d'ryswch rhagluniaeth,
 A thrwy ffydd, y cerydd caeth,
 Dygodd, a'r brofedigaeth.

* * * * *

Daeth amser i'w adferyd
 I barch a chymdeithas y byd
 Drwy gyrraeddol drugareddau,
 Ei gyfodi o'r gofidiau,
 O orboenau hir benyd.

Edfrydwyd, e ddyblwyd ei dda—eilwaith
 O olud Jehofa,
 A holliach fu 'r ol gwella
 Y blin gornwydydd a'i bla.

Cymmydogion llon yn llu
 A ddenwyd i'w ddiddanu,

† Yma gadawyd allan y rhan fwyaf o'r arwrgerdd.

Hen gyfeillion mwynion mau
 A grasol fwyn garesau
 A gaid a'u llygaid yn lli'
 Gwynant am ei gyni ;
 E' gafodd fil i'w gyfarch,
 Tlysau, a pherlau, a pharch—
 Anrhegion a rhoddion rhydd
 A gludid o eitha'r gwledydd.
 Diddanwyd cysurwyd y sant
 Gan gynnydd, gan ogoniant.
 Ca'dd blant drwy ffyniant ei ffydd
 Gorgryfion mewn gwir grefydd,
 Hanodd rhyw ddeg o honynt
 (Yn eilfydd i'w gynnydd gynt)
 O'i lwynau yn olynawl
 Plant di-glwy', a mwy eu mawl.

Heppil happus,
 Ei nawdd yn Us ;
 Ei ogoneddus gynnyddol,
 Haelwedd ddoniol hil ddiddanus,
 A daionus ei dŷ uno'—
 Mor wareiddiol a mawreddus !

Ac yn llawen orhendaid,
 O gryfdwr y gŵr a gaid.

Canmlwydd a degeinmlwydd i gyd—'r oesodd
 Yn rasol ei fywyd,
 A chafodd mwyach hefyd
 Ei barch anfarwol drwy 'r byd.

Gan huno, mewn gwyn henaint
 Ar sedd y'ngghymmanfa'r saint.
 A diwedd hwn ydoedd hedd—nef olau—
 Duw Dad i minnau dod Amynedd.

O.Y.—Gwel y cyfarwydd fod yr Awdl hon yn cynnwys pob un o'r
 Felwar Mesur ar Hugain.

AWDL ADLAIS CAN YR ANGELION AR
ENEDIGAETH CRIST.

(*Gweler Mesurau yr Hen Ddosbarth*).

DYNION a glywent dônau—arwyrain
Yr euraidd delynau,
Clodydd clau ;
Adlais y nefol odlau,—hir effaith
Seraphaidd garolau
Ar forau ;
Swynion seiniau,
Mwynion hymnau,
Lwysion leisiau
O lysoedd,
Dawnus wiw dant
Medrus a mant
Melus moliant
Y miloedd

Angelion gwynion yn gwau
Eu hunedig ganiadau ;
Myrdd i'r Messia 'n rhoi mawl
Yn y breiniawl wybrennau :

A swm eu byrdwn drwy'r bau—eilchwyl
Fel uchaf daranau,
A dorrent mewn pellderâu,
A bloedd y torfoedd yn tau.*

* Yn gyffredin *tau* yw y trydydd person unigol, modd mynegol, a'r amser presennol, o'r ferf *tewi* neu *tawu*—tawa, taw, tau, he, she, or it becomes silent. Ond arferais i *tau* fel rhangymmeriad presennol, megys cwtogiad o *tawi* neu *tewi* yn y llinell

A bloedd y torfoedd yn tau.

Nid ydym yn sôn am yr ansoddair *tau*, y rhagenw meddiannol *tau*, nâ'r rhagferf *tau*—yn *dau*.

Ni wyddwn fod gan yr anfarwol Brydydd Hir gynghaneddiad tebyg i'r llinell hon, ac mi ddywedaf i chwi beth ; ryw noswaith hâf clywais dymestl gwlaw taranau o'm gwely, a chenais fel hyn :—

Dw'r to yn dylifo i lawr—twrw
Clec taran arswydfawr,
Cenllysg yn derfysg dirfawr,
Goleuo mellt a gwlaw mawr.

Ac yr oeddwn yn meddwl yn sicr fod pob llinell yn *wreiddiol*, ac adroddais hwynt i gyfaill o fardd, ac ebe yntau, "Englyn penigamp, a'r darluniad mor berffaith a natur, ond y mae un bai arno, sef, bod y llinell olaf i'w chael yn ngwaith rhywun arall. Yna am y waith gyntaf y tarawodd i'm côf fod y *drydedd* llinell hefyd yn ail-llaw i'r byd, er ei bod yn berffaith newydd i mi pan y'i cenais.—GLANMOR.

CYWYDD NADOLIG

*A ganwyd i ail ofyn Carol Plygain dros gantorion Llan —,
yn y flwyddyn 1844.*

Y DIDWYLL ŵr clodadwy,
Gŵr o'n plaid goreu 'n y plwy',
Heno daethum fy hunan
At dy ddôr i geisio 'r gân.
Curo yr wyf mewn cariad,
Agor i mi y gŵr mâd.
Yn dy borth caf gynnorthwy,
Genau mawl i ganu mwy.
Ni ro'f dant a moliant mau
Y Duw gwyn i deganau ;
Curo 'r wyf am y Carol
I Aer Nef—i'w yrru'n ol ;
Carol i bedwar corydd
O'r Eglwys deg ar glais dydd.
Cân nefol o'th byngciol big,
Cân deilwng cyn Nadolig ;
Eryn Duw y min y dydd,
Gwych aberth ga Achubydd
Byd, o'th ddawn ffrwythlawn, a ffraeth
Gân deilwng ei gnawdoliaeth.
Geiriau iachus goruchel,
A dawn y sant o dan sêl ;
Geiriau bardd goreu y byd—
Cana fel beirdd y cynfyd.
Gyrr uchel gân angel im'
Cywir aberth *Cerubim* ;
Anthem gref y nef yn ol
O'th ddoniau mewn iaith ddynol ;
Mawl broydd y clodydd clau,
Ardal lân aur delynau ;
Ugain mil a ganmolant
Grist yn ben ar dyner dant ;
Lleng oleu llu angelion,
Tafodau seintiau yn son
Am gariad yn magwrydd,
A goror deg gwawr y dydd.
Gad wybod ei glod yn glau
Beraidd gan ser y borau ;
Myfyria am y Forwyn
Ym mhob gwedd—am ei Mab gwyn ;
Pan faethodd hon o fron frau,
Yr Iôr glân ar ei gliniau ;

Y Bôd a wnaeth ein byd ni,
 Y nef fawr a'i nifeiri,
 Alwodd, a ddygodd o ddim
 Asur hoff lys *Seraphim*.
 Ac â'i law y goleuodd
 Haul nefol—rhyfeddol fodd !
 A lloer wen uwchben y byd,
 A rhifodd y ser hefyd.
 Lledodd y moroedd llydain,
 Pwysodd a rhwymodd y rhai'n
 I nodau terfynedig ;
 Ac i gau dyfnderau dig,
 Dorau wnaeth—a'n daear ni,
 Isel fan ei sylfeini,
 A phob darn i'w chadarnhâu
 Is y môr o'i swmmerau.
 Cloddiodd, gosododd y sail,
 A chododd oruwchadail,
 'Stafellau a dorau De
 "A Gogledd ar y gwagle,"
 Caerydd Gorllewydd a'u llain
 O du arall i'r Dwyrain.
 Haul tanbaid heb baid tra b'o.
 A lloer eilwaith lle 'r elo,
 Ac olwynion goleuni—
 Planedau nosau i ni—
 Lampau wybrenau heb ri'
 Drwyddynt sy'n ymadroddi
 Chwedl i bob cenedl ac iaith.
 Hyd derfyn y byd hirfaith.
 Nid oes planed ysplenydd,
 Na chlaerwen seren y sydd,
 Yn hofran yn y nwyfre,
 Heb draethu ei allu E'.
 Mawr ydyw ym Mharadwys—
 Llys angelion gloewon glwys ;
 Gwel cethern uffern ei ol
 Er du ofid, a'r diafol.
 Clywn roch, ei reg groch a'i gri,
 Trwy annwn y trueni !
 Llais o geudod llosgedig—
 O ffwrn dân uffern a'i dig,
 Tristyd a phenyd y ffau
 Na phenwyd tranc i'w phoenau,
 Artaithe anobaith yn uban,
 Wylo dieifi ar wely o dân.

Rhingc dieflig ddamnedig ddyn,
 Llosgedig a llesg adyn ;
 Pob ulwyn a edwyn ol
 Duw 'n oesi yn dân ysol,
 Lle myn o'i hwyr a'i lwyr lid
 Godi dwrn ei gadernid.

Yn y cnawd mae 'n frawd o fru
 Y forwyn i'n hadferu,
 A'n cadw, er ein codwm,
 O gyrraedd trist gerydd trwm ;
 Cymmod tros bechod traws buchedd—grwydrawl
 A'r groes sy'n hawl i'r gras, a'n hedd.
 A phen draw ei phoenau drud
 A'i ch'wilydd yw gwych olud.

Mawl Sion yr Ion a'i rad,
 Ei Hiachawdwr a'i Cheidwad.
 Torred ei fawl fel taran
 O enau 'i gôr yn un gân ;
 Ymrwyged y môr eigion
 Gan ruad dwnlad ei don ;
 Llen y nef â llef ei llu,
 Daear gron fo 'n dirgrynu
 Gan floedd gwerysilloedd y saint,
 A llef fawr fel llifeiriaint,
 Rhaiadrau a seiniau sydd
 Gyfunol ag afonydd—
 Carried aden y corwynt
 Ysgythrog hyrddiog ei hynt,
 Yn treiglian drwy bob trigle ;
 Ac awel dawel y De.
 Torred creigiau 'u geiriau 'n g'oedd
 A phrennau y dyffrynoedd.
 Doed o wlad y gwastadedd,
 A'i themlau golau eu gwedd,
 Adsain ar blygain, a bloedd
 Fwyneiddiach o fynyddoedd.
 Rhod holl Gred i'w Gwaredydd
 Ganiad ar dorriad y dydd.
 Cyweirier tant moliant mau
 A iaith lân a thelynau,
 Yr organ wych, a'r clych clau ;
 A phawb oll â phibellau,*

* Wedi canu y Cywydd hwn cyfarfum a'r un cynghaneddiad y'ngwaith erall.

Canant ogoniant yn gu,
 Felusaf fawl i Iesu—
 Llawr obry a llu 'r wybren
 Clodforant, molant. Amen.

D.S.—Cyfnewidiwyd rhyw ychydig arno er pan ysgrifenydd ef gyntaf—
 bum' mlynedd cyn Eisteddfod Aberffraw, lle y ceid cynghaneddion cy-
 ffelyb yn ngwaith eraill.

PRYDDEST AR ING GARDD GETHSEMANE.

RHAN I.

Y LLOER Basg edrychai dros ael yr Olewydd,
 Ar euraidd byrth Salem a'i thyrau ysplenydd ;
 Yr hwyrnos a hunai yn nistaw gysgodion
 Beddrodau brenhinol ogofau Nant Cedron ;
 A mud oedd y ffrwd a furmurai drwy'r oesau
 Gan waed cyssegredig deng myrdd o aberthau,
 A chwyddai ei chornant ar wyliau y Cymmod,
 Ac etto'n rhy fychan o iawn am un pechod !
 Tawelwch marwolaeth deyrnasai drwy'r fangre,
 Ond clywid ochenaid o Ardd Gethsemane—
 Ochenaid ddilynid gan ddyfnion ruddfanau
 Yn esgyn o'r deiliog dywyllion gysgodau.—
 Gruddfanau yn codi yn eglur wylofain
 O galon yn gollwng ei hing yn gryf-lefain.
 “Fy Nhad, meddai tafod gusanai y dulwch,
 “Lle crymmai i'r ddaear dan orlwyth o dristwch,
 “Fy Nhad,” oni cheraist cyn cread angelion
 “Dy Uniganedig a gwir lun dy berson ?
 “Ai 'r hwn sy'n ogyfuwch mewn gallu trag'wyddol
 “Sydd yma 'n ymgrymmu i'th droedfainc daearol ?
 “Ai 'r hwn a gyhoeddaist yn Arglwydd y bydoedd,
 “I dderbyn addoliad y nef a'i galluoedd ?
 “O ! ddwfn ddarostyngiad i Fab yr Anfeidrol,
 “Fydd marw dan ddirmyg fel pryfyn ddaearol !
 “Fy Nuw, rwy 'n ymostwng i'th 'wyllys fendigaid,
 “Ac etto 'n ymddadleu yn chwerwedd fy enaid.
 “Fy Nhad, oni ddichon i'r cwppan fyn'd heibio,
 “Fel na bo i'm henaid trist yfed o hono ?

"O na, ni throseddais dy 'wyllys un amser,
 "Yn ufudd disgynais o lys yr uchelder ;
 "Gadewais ogoniant y nefoedd yn llawen,
 "A gorsedd ddisgleiriach na haul y ffurfafen,
 "Uwch myrddiwn o euraidd a pherlog frawdfeinciau,
 "Lle lleinw y tanlyd seraphiaid eu swyddau,
 "Mewn cylchoedd o urddas a gallu dirprwyol,
 "O amgylch gorseddfaine y Mawredd Anfeidrol.
 "Diosgais fy mantell frenhinol a'm coron
 "I wisgo cadachau yn mhreseb yr eidion,
 "Bum ufudd i'm gwneuthur yn is na 'r angelion,
 "Yn niwyg naturiaeth a gwendid plant dynion.
 "Ni cheisiais uchafiaeth ddaearol na mawredd,
 "Na golud, na gallu, na rhwysg, nac anrhydedd.
 "Goddefais bob drygau damweiniol i natur
 "Dyn, yn ofidus a chynnefin â dolur,
 "Pob drwg a ddigwydda i'r hil, ond marwolaeth,
 "Yr hyn ni ofynir fel dyled naturiaeth,
 "Ond rhan yw a ddisgyn o glorian Duw uchod,
 "Fel cyflog dyledus, i Adda am bechod.
 "Am hynny, o dichon i'r cwppan fyn'd heibio
 "Na b'o i'r dieuog ddim yfed o hono.
 "Erioed ni throseddais ar air nac ar weithred,
 "Na meddwl y galon, un ddeddf nac adduned.
 "A raid im' mewn dagrau mor waedlyd o alar,
 "Erfynnu tystiolaeth y nefoedd a'r ddaear,
 "Ac uffern ruadwy, a gallu marwolaeth
 "Sy'n chwennych fy enaid di-fai yn ysglyfaeth?
 "Dywedwch, syrthiedig ysprydion a'ch pennaeth,
 "Os llywyddodd eich malais drwy un brofedigaeth,
 "I wyro'm cerddediad, diwyno fy muchedd,
 "Neu faglu fy enaid yn rhwydau anwiredd?
 "Neu tystiwch, angelion dihalog y Wynfa,
 "Fu'n gwyllo fy nghamrau o'r preseb hyd yma,
 "A ganfu eich treiddgar olygon a d'wynant
 "Fel myrddiwn o heuliau o entrych gogoniant,
 "Frycheuyn llychwinol ar wisg fy nynoliaeth
 "A'm rhwymai i yfed o gwppan marwolaeth?
 "Rwy'n codi appeliad at orsedd uwch hono,
 "At farn Hollwybodaeth na ddichon byth wyro ;
 "At frawdaine trag'wyddol gyfiawnder y Duwdod,
 "A'r tanlyd sancteidrwydd nid edrych ar bechod,
 "A gaed ynwyf gamwedd er dydd fy nghnawdoliaeth,—
 "A yf y dibechod o gwppan marwolaeth?"
 Ei waedlyd chwys-ddagrau ddisgynent i'r ddaear,
 A'r nef oddiuchod yn fud ac yn fyddar.

Tra cysgai'r disgyblion, yn nhrymder yr hwyrnos,
 A dyfnder eu galar, dan brennau cyfagos,
 Gweddiai eu Harglwydd yn daearach, "Os dichon
 "I gwppan ofnadwy marwolaeth mor greulon
 "Fyn'd heibio, fy Nhad,—ond gwneled d'wyllys,
 "Mae'r bwriad trag'wyddol i'm henaid yn hysbys.
 "Ond, O, mor ofnadwy i natur yw angau ;
 "I'r cawr a'r abwydyn mae'n llawn dychryniadau.
 "Yr oll—oll a fedd y creadur yw bywyd,
 "A thrais yw ar natur i angau'i gymmeryd.
 "Arswydus yw marw ar borphor welyau,
 "Dan leni o lawryf, yn gyflawn o ddyddiau.
 "Arswydus tranc maban, yn huno ar ddwyfron,
 "I ddeffro mewn gwynfyd yn monwes angelion.
 "Myrdd mwy arswydus yw trengu'n hoeliedig
 "Dan gollfarn a dirmyg ar bren melldigedig.
 "Pa drais ar deimladau sancteiddiaf y natur
 "I'r cyfiawn yw marw'n nghymmeriad pechadur !
 "Mil chwerwach yw ingoedd yr enaid dibechod,
 "Yn marw dan wg a digofaint y Duwdod.
 "Anrhydedd oedd isel orweddfa y preseb
 "I Dywysog Gogoniant, dan wenau dy wyneb,
 "O hoff natur ddynol ! o'r cwlwm o undod !
 "O artaith arswydol yr awr i ymddattod !
 "Dan lygad y nefoedd yn cau yn elynol
 "Ac uffern yn agor ei safn yn anferthol.
 "“Ond gwneled dy 'wyllys.’”—Ar hyn y cyfodai
 "Ac angel i sychu ei ddagrau ddisgynai.

RHAN II.—TUCEFN I'R LLEN.

Y nos ofnadwy hon bu cyffro mawr
 Drwy holl ororau erchyll uffern ddofn,
 Llais Satan, fel llais udgorn rhyfel croch,
 O ddyfnder gwae, ddadseiniai 'mhell a chras,
 Drwy gudd ogofau llog y pydew tân.
 Pyrth cedyrn colledigaeth grynent oll.
 Deng myrdd o chwyrn ellyllon wrth ei lais
 Ddisgynent dros losgfalog greigiau serth
 A chrog, drwy froydd o drag'wyddol nos,
 Lle na thywynodd lloer na ser erioed,
 Ehedeg wnaent, ar edyn chwim o fflam,
 At orsedd eu damnedig bennaeth mawr.
 Fel lleng o ser syrthiedig fflaglent oll

O amgylch eirias fawr digofaint Duw.
 Y'nghanol hon, cryccydai Satan hen,
 Fe llew rhuadwy llidiog yn ei ffan.
 Ei olwg oedd fel lygad tanllyd ffwrn,
 A'i safn fel olyn boeth. A thafod flam
 Tynghedai lengoedd nerthol Annwn fawr,
 I ymfyddino 'n barod wrth ei arch,
 Dan faner Angau, ei gadfridog dewr,
 A chychwyn ar ryfelgyrch fawr heb oed
 I'r ddaear draw. Fel mellt o'i wýdd yr aent,
 Drwy byrth marwolaeth, yn arfogion oll;
 Ymdeithient drwy bellderau 'r gwagle mawr
 Ac erchyll froydd damnedigaeth gaeth,
 A moroedd tawdd anniffoddadwy dân,
 Hyd deg cyffiniau haul, a'r ddaear hon;
 Gwersyllu wnaent yn mysg beddrodau prudd
 Nant Cedron ddofn, i warchau pyrth yr ardd,
 A rhuthro ar Iachawdwr mawr y byd:
 Ond gair o'i enau Ef,—“Dy 'wyllys wnaer,”
 Ddiffrwythai nerth y lleng, fel parlys mud,
 A'u saeth-biccellau tân ddiffodent oll
 Yn nafnau 'r gwaedlyd chwys ar wellt y llawr.

PRYDDEST AR ELI.*

GOLYGFA I.—PABELL DUW YN SILOH.

TRA dan gortynnau cudd, yn Siloh draw,
 Mewn cyssegredig rwysg, gorphwysai Arch
 Cyfammod Hedd a glân Dystiolaeth Duw;
 Dan nawdd cerubiaid euraidd, delwaidd, mud,
 A ledent aden dau dros wyneb cain
 Y Drugareddfa bur, lle t'wynai gwên
 Gogoniant claer raslonder cymmod Duw;
 A'r danbaid lamp a losgai ger ei fron
 Tra 'r yssai 'r sanctaidd dân offrymmau poeth,
 A braster ebyrth hedd yr allor bres.

* Pryddest ar ddull Drama gyssegredig gyda 'r golygfeydd dychym-
 mygol a'r Actwyr.

GOLYGFA II.—ARCHOFFEIRIAD A BARNWR ISRAEL.

Gweinyddai Eli swydd offeiriad Duw,
 A Barnwr arglwyddiaethol Isr'el oll.
 Ei linach hir, ond croes, olrheiniai ef
 Hyd Aaron seiliwr cyssegredig urdd
 Holl gynnrychiolwyr offeiriadaeth Crist.
 I Siloh doi 'r tylwythau ufudd oll,
 O byrth Beerseba hyd ogleddfro Dan,
 Am raith a barn o enau Eli ddoeth.
 Ei ddysg, fel Moses gynt, oedd ehang iawn,
 A'i goedd dduwiolder megys olew coeth,
 A pheraroglus, o enneiniad Nef,
 Ddisgleiniai ar ei henaidd ganaid ben.

GOLYGFA III.—MEIBION ANNUWIOL ELI.

Ac ar ei dadol llin y maethai ef
 Ddau fab gobeithiol yn ei henaint teg,
 Ei Hophni dlws, a'i hoff Phineas iau.
 Ei lymder fel disgyblwr moesau 'r oes
 Ar ben ei blant dymerai cariad tad ;
 Ei lygad mabgar ar eu diriaid gamp,
 A'u hanfoes, gauai 'n aml a distaw bach.
 Plant oeddynt, meddai, oed a'u dysgau 'n well,
 Pan welent werth rhinweddol siampl tad.
 Fel ceinciau braisg o gŷff gwinwydden bêr,
 Heb dorriad, dyfant i anffrwythlawn faint,
 Yn rhwysg gwylltineb ac annhriniaeth hir,
 'R un ffunud tyfai meibion Eli gynt
 Mewn afreolaeth wyllt, o fore oes,
 Tra 'n gweini swydd offeiriad Duw mewn urdd
 Halogi wnaent ei lân gyssegrau Ef ;
 Tra pesgent ar oreuon ebyrth fil,
 A ddygai gweision ffrom ar dridant trais,
 A phob anniwair wraig godineb wnaent.
 Ffieiddiai dynion ebyrth Duw a'i dŷ
 O'u herwydd hwy.—Hyn glywai Eli 'n hwyr—
 Fod gair eu hanglod, am ymddygiad traws,—
 Ar led y wlad—sôn am eu buchedd front.
 Yn brin, hannerog iawn, crybwyllai faint
 Eu camwedd, a'i grynedig egwan law
 Ni feddai 'n hwy awdurdod ar eu rhwysg,
 Na moesol rym i weini cyfiawn gosp.
 Cymmylai sorriant Duw uwchben y tad,
 A thaniai llid y Nef i'w herbyn hwy.

GOLYGFA IV.—GWR DUW YN DYFOD I RAGFYNEGI I ELI
DDINYSTR EI DY.

I Siloh daeth ryw ddiwrnod ŵr i Dduw,
 A'i gennadwri drom draddodai hwn:—
 “Fel hyn y dywed Arglwydd Ior y nef,
 “Mi ymddangosais gynt i dŷ dy dad,
 “Pan grymma'i ysgwydd flin dan feichiau 'r Aipht,
 “O lwythau Isr'el oll dewisais ef
 “I losgi thus aroglus ger fy mron,
 “A gwisgo ephod wen o fewn fy nhŷ,
 “A'm hebyrth tanllyd oll rois iddo 'n rhan.
 “Paham y methrwch fy mwyd-offrwm glân,
 “Mewn rhyfyg balch, dan halogedig droed?
 “Paham yr anrhydeddi dithau 'n fwy
 “Dy bechadurus feibion na myfi?
 “Gan besgi rhwth lythineb moethus chwant
 “A blaenion brasaf fy aberthau oll,
 “A phoeth-offrymmau Isr'el, yn fy ngwydd?
 “Am hynny,” medd yr uchel Arglwydd Iôr,
 “O gwneuthum ammod gynt â thŷ dy dad
 “Y rhodiech ger fy mron mewn urdd hyd byth,
 “Yn awr boed hynny 'n mhell o'm bwriad I.
 “Y neb a'm hanrhydeddo I am tŷ,
 “A wisgaf âg anrhydedd, clod, a gras.
 “A'r hwn a faidd ddirmygu fy enw mawr,
 “Triag'wyddol warth osodaf ar ei ben.
 “Am hynny, wele 'r dŷdd ofnadwy 'n d'od
 “Pan dorraf fraich dy nerth o dŷ dy dad,
 “Fel na bo henwr byth o'th heppil mwy.
 “Ond ti gai fyw i weled gelyn dig
 “O fewn fy nhrigfa hon. A'r gŵr ni thyrr
 “Digofaint ymaith oddiwrth allor Duw,
 “A bair i'th lygaid ballu gan ei warth,
 “A'th galon drom ymsuddo o dy fewn;
 “A'th hil a wywant oll y'mlodau oes.
 “A hyn fydd arwydd it, mewn diwrnod byr,
 “Syrth Hophni 'th fab, a'i frawd Phinêas iau.
 “A chodi wnafl offeiriad ffyddlawn pur
 “I rodio byth o flaen f' Enneiniog I.
 “A'r neb ni lwyr ddiwreiddir o dy had
 “Mewn llwch yr ymostynga ger ei fron,
 “Am ddernyn arian, o elusen brin,
 “Neu dammaid bara dyrr ei newyn tost,
 “Neu offeiriadaeth isel, fechan, fain.”

GOLYGFA V.—Y BACHGEN SAMUEL YN GWEINI GER BRON ELI.

Bryd hyn gweinyddai Samuel ei swydd
 Yn ieuanc iawn y'mhabell Siloh lân,
 Mewn ephod liain rhodiai ef y'ngwydd
 Yr Archoffeiriad hen, mewn mawl a chân ;
 Fel plentyn hoff yn gwasanaethu tad,
 Mewn nerth, a gras, a synwyr yn cryfhau,
 Tra töai anwybodaeth trwch y wlad,
 Ac ofergoeledd eilun-dduwiaeth gau.
 Gair Duw oedd brin yn awr fel gemmau drud,
 Heb weledigaeth glir—y Nef oedd fud.

GOLYGFA VI.—DATGUDDIO CYNGOR DUW I SAMUEL YN
 SILOH LIW NOS.

Gwyll nos orphwysai ar y babell dau,
 Ac Eli hen orweddaï yn ei fan,
 A'i lygaid pwl gan oedran yn ymgau ;
 Lamp Duw, heb lwyr ddiffoddi losgai 'n wan,
 Yn nistaw awr arswydus dyfnder nos.
 O gwsg defföid Samuel gan lais
 Dieithriol Duw 'n datguddio iddo farn
 Ac arfaeth Nef am dÿ ei feistyr hen
 Y llais lefarai, “ Wele fi yn d'od,—
 “ Gwnaf beth ferwina glust pob dyn a'i clyw,
 “ Y dwthwn hwnnw dygaf fi i ben
 “ Yr oll a draethais I am Eli wan,
 “ Gan ddechreu a diweddu yr un waith.
 “ Mynegais hefyd fel y barnwn mwy
 “ Ei dÿ 'n drag'wyddol, i'w ddinystyrio 'n llwyr,
 “ O herwydd yr anwiredd wÿr efe,
 “ I'w feibion haeddu melldith, barn, a chosp,
 “ Ac na wahareddes yntau rwysg eu chwant,
 “ Am hynny, tyngais innau na wneid iawn
 “ Ag aberth byth nac offrwm dros ei hil.”

GOLYGFA VII.—ELI YN TYNGEDU SAMUEL I FYNEGI IDDO 'R
 WELEDIGAETH.

Y maban brophwyd hunai hyd y wawr,
 Ar ddydd, agorai ddrysau Pabell Duw.
 Rhag adrodd dim wrth Eli ofnai 'n fawr
 Neu ynghan geiriau 'r ddedfryd yn ei glyw,
 Nes ei dyngedu 'n gaeth yn enw 'r Nef
 I agor y dirgelwch iddo ef.

Yn fud y gwrandawai yr hen Archoffeiriad
 Mor fawr ei gywilydd ! mor ddwfn ei ddiraddiad !
 Ond gras a gynnalai ei ben dan ostyngiad
 Fel plentyn y plygai dan dadol geryddiad ;
 "Yr Arglwydd Dduw," meddai, "yw ef y mae 'n amlwg,
 "Gwnaed y cynghorion a f'ont dda yn ei olwg."

GOLYGFA VIII.—RHYFEL YN ERBYN Y PHILISTIAID, CURO
 ISRAEL O FLAEN APHEC.

Sain udgorn rhyfel a gynnyrfai 'r wlad,
 Tinc arfau dur ac uchel floedd y gâd,
 Holl gedyrn Isr'el ymfyddino wnaent,
 Yn erbyn llu 'r Philistiaid dewrion aent,
 I dorri iau gorthrymder traws â'r cledd,
 Neu fesur â'u piccellau hyd eu bedd.
 O Ebenezer brwydrent llaw-yn-llaw—
 Gwaed lliwiau wellt y maes—hyd Aphec draw
 Marchogai llid, ac Angau yn ei 'sgil,
 O Isr'el cwmpai 'n feirwon bedair mil.
 I'r gwersyll ciliai 'r lleill yn ol drachefn
 Yn flin, a gorchfygedig, a di-drefn.

GOLYGFA IX.—DWYN ARCH DUW YN GED I WERSYLL
 ISRAEL.

Fel niwl ben bore trist gan ddaurau gwlaw
 Eisteddai c'wilydd ar bob ael a braw.
 "Paham," gofynent hwy yn drist a syn,
 "Goddefai Duw ein taro ni fel hyn ?"
 Henuriaid Isr'el roddent gyngor ffol,
 "Ewch," meddynt, "ewch i Siloh draw i nol
 "Arch sanctaidd Duw i'r gwersyll attom ni,
 "Cawn fuddugoliaeth wyrthiol drwyddi hi."
 Cennadon aent i Siloh gyda brys
 I ddwyn Arch Duw o'i gyssegredig lys,
 Lle trigai rhwng cerubiaid tau cyhyd,
 A dau fab Eli hefyd gyda 'r glud,
 Yn osgorrd o anrhydedd, rhwysg, a pharch,
 A gwyliadwriaeth swyddol dros yr Arch,
 Pan ddaeth bloeddiasant gyda llef mor fawr,
 Drwy wersyll Isr'el oll nes siglo 'r llawr.

GOLYGFA X.—CYNGOR RHYFEL Y 'NGWERSYLL Y
 PHILISTIAID.

Pan glywai y Philistiaid draw eu llef
 A'u bloddest fawr yn esgyn hyd y nef,

A deall d'od Arch Duw o Siloh draw,
 Tarawyd hwy â syndod ac â braw.
 "Gwae ni," hwy waeddent, "pwy a'n gweryd mwy
 "O law eu duwiau clodfawr nerthol hwy?
 "Y duwiau mawrion hyn fu 'n difa gynt
 "Holl nerth yr Aipht cyn cychwyn ar eu hynt.
 "Gan hynny, O Philistiaid, byddwch wŷr—
 "I'ch gwlad a Dagon fawr eich duw bur,
 "Ymleddwch! rhag ein dwyn â'r cledd i gyd
 "Yn gaeth i'r rhai fu dan ein hiau cyhyd."

GOLYGFA XI.—GORCHFYGIAD A LLADDEDIGAETH ISRAEL AR
 FAES EBENEZER A DWYN ARCH DUW GAN Y GELYN.

Un rhuthyr-gyrch ofnadwy wnaent yn awr
 Ar rengau Isr'el, nes eu medi llawr;
 Deg mil ar hugain sathrent dan eu traed,
 Nes diffodd fflam eu llid mewn môr o waed,
 Lladd Hophni a Phinēas yn ddi-barch,
 Drwy orthrech mawr, a dwyn y sanctaidd Arch.

GOLYGFA XII.—FFOADUR YN MYNEGI Y TRYCHINEB Y'MHORTH
 SILOH, A DIWEDD ALAETHUS ELI.

I Siloh daeth ffoadur ffest a blin,
 A'i wisg yn rhwyg, a lludw ar ei ben,
 I adrodd colled Isr'el ar y maes,
 Lladd feibion Eli hen, a dwyn yr Arch.
 Un waedd wylofus godai 'r dorf i gyd,
 Ac Eli syn eisteddai uwch y porth.
 Dyn trwm esgyrniog oedd, a'i farf yn wen,
 A'i lygaid niwliog safent yn ei ben;
 Ni wahaniaethent wŷr na phrennau coed,
 Yn ddeunaw mlwydd a phedwar ugain oed.
 Pryderu 'n fawr am Arch ei Dduw yr oedd
 Pan glywai yr alarwm wyllt a'r floedd,
 Tra 'n holi achos yr alarnad hon
 Ar frys y deuai 'r gennad ger ei fron;
 Gwrandawai Eli 'n fud, a'i wedd yn llaes,
 Holl chwedyl trechiad Isr'el ar y maes,
 Er clywedlladd ei feibion ni chyffroes,
 Ond am Arch Duw ei galon lesg a droes
 O'i fewn fel carreg oer, neu bwys o blwm,
 Mewn llewyg syrthiodd, ar y newydd trwm,
 Yn wysg ei gefn, a'i wddf gai farwol glwy',
 Rhoes un ochenaid ddofn, ac nid oedd mwy.

CAROL NADOLIG.

CLYWN ! clywn dafodau filoedd
 Ar y wawr, ar y wawr,
 Sain aur delynau 'r nefoedd
 Ar y llawr ;
 Yn canu Haleliwia !
 Yn meusydd Bethle'm Juda,
 Am eni y Messia
 Ar y wawr, ar y wawr,
 Yn Geidwad i hil Adda—
 Iesu mawr.

Daeth, daeth Mab Duw trag'wyddol,
 Ar y wawr, ar y wawr,
 I wisgo 'r natur ddynol,
 Ar y llawr,
 Yn ol yr addewidion,
 Gadawodd lys angelion,
 Gogoniant y nefolion
 Ar y wawr, ar y wawr,
 I drigo gyda dynion
 Ar y llawr.

Gras, gras fel môr diwaelod,
 Rhyfedd yw, rhyfedd yw,
 Gynnyrfai 'n monwes Duwdod,
 Rhyfedd yw,
 Penllanw o drugaredd
 Tosturi ac amynedd,
 Maddeuant am bob trosedd,
 Rhyfedd yw, rhyfedd yw,
 A chymmod a thangnefedd
 Gyda Duw.

Mawr, mawr ryfeddod ydyw
 Gyda ni, gyda ni,
 Ei eni 'n Methle'm heddyw
 Gyda ni,
 Mae Duw a dyn mewn undeb,
 O ddyfnder y doethineb !
 Dirgelwch mawr duwioldeb
 Gyda ni, gyda ni !
 Yn gorwedd yn y preseb
 Gyda ni !

Hedd, hedd i'r byd gyhoeddir
 Trwyddo Ef, trwyddo Ef;
 Efengyl gras bregethir
 Drwyddo Ef,
 Llawenydd i'r holl bobloedd,
 Breswylant dan y nefoedd
 Iuddewon a chenhedloedd,
 Drwyddo Ef, drwyddo Ef,
 Hyd dertyn yr holl oesoedd,
 Drwyddo Ef.

Draw, draw bu yn weledig
 Hyd yn mhell, hyd yn mhell,
 Ei Seren fawr Nadolig—
 Hyd yn mhell ;—
 Hon welid gan y doethion,
 A ddygent eu anrhegion,
 I faban Frenin Sion,
 Draw o bell, draw o bell,
 Doent i'w addoli 'n ffyddlon,
 O wlad bell.

Clod, clod a mawl diddarfod,
 Iddo Ef, iddo Ef,
 A roddwn ninnau 'n barod,
 Iddo Ef.
 Yr Anwyl Fab gusanwn,
 I'w deyrnwialen plygwn,
 Efe a wasanaethwn,
 Iddo Ef, iddo Ef,
 Trag'wyddol foliant roddwn
 Iddo Ef.

 DYDD Y FARN.

“Yn yr awr ni thybioch y daw Mab y Dyn.”

MOR hardd yw gwyneb Anian,
 A heulwen deg ei drych
 Yn agor dorau euraidd
 'Stafellau 'r dwyrain wych !
 Mae'r adar yn per-byngcio
 Ar gangau deiliog hardd,
 Ac awel haf yn gwasgar
 Aroglau per yr ardd.

O Dduw ! pa beth a glywai ?
 A'i torriad taran gref ?
 A holltodd seiliau 'r ddaear ?
 A gwypodd caerâu 'r nef ?
 Mae'r ser i gyd yn syrthio
 I'r eigion draw fel mellt,
 A chedyrn greigiau 'r ddaear
 Yn fflagu megys gwellt !

Mae'r beddau yn ymagor
 Wrth lef ofnadwy Duw,
 A'r meirw 'n d od i fynu
 O d'wyllwch Angau 'n fyw.
 Agorwyd pyrth Marwolaeth,
 A phydew Uffern ddofn !
 A chalon yr annuwiol
 Fel deilen gryn gan ofn.

Ar gwmmwl gwyn a disglaer,
 Eistedda Barnwr byd,
 Saif daear fawr ac uffern
 O flaen ei fainge yn fud.
 Anfonir yr annuwiol
 I annherfynol boen,
 A'r saint i fythol wynfyd
 Yn nheyrnas Duw a'r Oen.

EMYN.

Gwregysa dy lwynau, mae'r yrfa yn faith,
 Ystormydd a rhwystrau i'th gwrdd ar dy daith ;
 Y glynnoedd yn ddyfnion, y gelltydd yn serth,
 A'r llwybyr yn arw, ond Duw yw dy nerth.

Gwregysa dy lwynau, mae'r gelyn yn gryf,
 Y llu o yspeilwyr yn arfog a hyf ;
 Dy gleddyf fo'n finiog, dy galon yn gref,
 Dy d'wysog yw Iesu, a'th nerth sydd o'r nef.

Gwregysa dy lwynau i redeg yn rhwydd
 Mae cwmmwl o dystion yn sefyll ger gwydd,
 Tafi ymaith bwys pechod, i ennill y dydd,
 Gan edrych ar Iesu perffeithydd dy ffydd.

Gwregysa dy lwynau, cai goron y gamp,
 Boed canwyll dy broffes yn oleu fel lamp,
 Yn disgwyl y Brenin o neithior y nef ;
 Ni wyddost na'r diwrnod na'r awr y daw ef.

Gwregysa dy lwynau i weini dy swydd,
 Mae 'th Arglwydd yn dyfod, fe'th elwir i'w wýdd .
 Bydd effro i wylie, cai wobrwy am boen,
 Ac eistedd i wledda yn Neithior yr Oen.

Y GREADIGAETH.

YR Arglwydd a sylfaenodd golofnau mawr y byd,
 Ei law a adeiladodd y nefoedd faith i gyd,
 Ei fysedd a grogasant y lampau sydd uwch ben,
 A llewyrch ei wynebpryd oleuodd haul y nen.

Un gair o enau Duwdod a greodd fydoedd fyrdd,
 A'r gair galluog hwnw a'u ceidw yn eu ffyrdd,
 Trwy rym yr un gorchymyn mae'r bydoedd mawr yn troi,
 Tu hwnt i 'wyllys Duwdod nis gallant byth ysgoi.

Pwy all fesuro anian, a chael ei therfyn llawn,
 Mynegi ei heangder, a dweud ei maint yn iawn ?
 Ond beth yw'r Duw a'i lluniodd, a'i dygodd oll i fod ?
 Addolwn a rhyfeddwn, a rhoddwn iddo 'r clod.

ENGLYNION AR Y CROESHOELIAD.

Y GORON o ddrain gaerog—a mawr loes
 Am arleisiau dieuog ;
 O Grist, oddefaist ar grog
 I dy hoelio, 'r Dihalog !

Trechaist, deliaist y dolur—mawr archoll
 Mor erchog i natur ;
 Y dafnau gwaed, y dwfn gur,
 A dolefain dy lafur.

HAWDDGARWCH CRIST.

Ar gwrel y rhagori—dewisach
 Wyt Iesu na'r lili,
 Gem purach teccach wyt ti,
 Glanach na haul goleuni.

Cyfansoddiadau Marwnadol.

LLINELLAU AR GOFFADWRIAETH Y DIWEDDAR MRS. H. R. SANDBACH, o HAFODUNOS.

GANED y foneddiges a alarnedir yma, yn agos i Lynlleifiad, Ebrill 28ain, 1812. Merch ydoedd i Edward Roscoe, Ysw., a'i wraig, Margaret, merch hynaf Joshua Lacey, Ysw., o Liverpool. Ei thad oedd bedwerydd mab yr enwog William Roscoe, Ysw., awdwr "*The Pontificate of Leo. X.*" "*Lorenzo de Medici,*" &c., &c.; Efe oedd y dyn cyntaf erioed a feiddiodd wrthwynebu a cholffarnu caethfasnach yn gyhoeddus yn Liverpool, ac oblegid hynny y collodd ei eisteddle dros ei dref enedigol yn y Senedd Ymerodrol.

Mae ar Gymru ddyled i'w goffadwriaeth fel noddwr haelionus rhai o'i meibion tylodion athrylithgar. Bu yr ieithydd rhyfeddol, ond truan a diddefnydd hwnnw, "Dic o Aberdaron," yn byw am flyneddau ar haelioni Mr. Roscoe; ac efe oedd cefnogwr boreuaf y Cymro celfydd hwnnw John Gibson, Ysw., yr hwn y mae ei enw yn adnabyddus i'r darlennydd fel un o brif gerflunwyr presennol Ewrob, i'r hwn y cyflwyna Mrs. Sandbach ei gwaith barddonol a elwir "*Aurora.*" Tuag ugain mlynedd yn ol, ymwelodd y Cymro hynod hwn â gwlad ei enedigaeth, a threuliodd rai wythnosau yn Hafodunos; a dangosai ei fod yn balchio mwy o'i iaith a'i genedl nag yn ei enwogrwydd celfyddydol.

Tra nad oedd gwrthrych ein cofiant etto ond maban, pedwar neu bum mis oed, daeth y teulu trosodd i Gymru, a chymmerasant eu trigfod yn y Pistill, gerllaw Treffynnon, lle yr arosasant dros wyth mlynedd, ac yna dychwelasant i gymmydogaeth Le'rpwl. Tybir mai y cysylltiad boreuol hwn a dueddodd i'w gwneud mor hoff o wlad a chenedl y Cymry trwy ei hoes.

Priododd Miss Roscoe, ar y 4ydd o Fai, 1832, Henry Robertson Sandbach, Ysw., mab hynaf Samuel Sandbach, Ysw., o Woodlands, yn agos i Le'rpwl, a maer y dref honno yr un flwyddyn.

Ar ol eu priodi cymmerodd y ddeuddyn ieuainge eu preswylfod, am rai blyneddau, yn Aigburth, pryd yr oedd Mr. Henry Sandbach yn rhannog yn nhŷ masnachol Sandbach, Tinne, a'u Cwmpeini.

Yn mhen blyneddau ar ol eu priodi cymmerasant daith ar y Cyfandir, trwy yr Iseldiroedd, i'r Almaen, a thros y mynyddoedd Alpaidd, i'r Eidal, gan ymweled a Rhufain a phrif ddinasoedd a'r lleoedd hynottaf Ewrob; ac, yn mhen agos i ddwy flynedd, dychwelasant adref drwy Ffraingc.

Yn 1835, Samuel Sandbach, Ysw., a brynodd Hafodunos, hen dreftadaeth y Llwydiaid o Wigfair, a hyn a fu yn achos o ddwyn testyn y farwnad hon, ar y cyntaf i ymweled yn achlysurol, ag wedi hynny i drigo yn barhaus, wyth neu naw mis o bob blwyddyn, yn yr ardal hon, lle y bu o fawr les a bendith, megys y dysgrifir yn helaethach gan y bardd. Ond gadaw-

odd rai pethau hygof heb eu crybwyll, megys adferiad ac addurniad Eglwys plwyf Llangernyw, yr hyn a ddygwyd oddiamgylch yn bennaf trwy annogaeth a dylanwad Mrs. S., o fod yn un o'r adeiladau Eglwysaidd mwyaf diaddurn yn y wlad, daeth yn un o demlau llannol prydferthaf Cymru.

Er mor nodedig oedd Mrs. S. yn ei dydd, am ei helusenau a'i chardodau i dylodion, cleifion, gweddwon, ac amdifaidd ei hardal, yr oedd yn fwy hynod o lawer am ei hymdrechiadau i gyfrannu dysg i'r genedlaeth oedd yn codi, ac oblegid hyn cyflwynwyd ysgoldy newydd hardd y Llan i anrhydedd ei choffadwriaeth,—"Ei llafur duwiol a diflino i ledaenu addysg moesol ac ysprydol. &c.,"—megys y darllenir ysgrifen ar bared yr adeilad.

Bu farw ynghanol ei dyddiau a'i defnyddioldeb, ar y 23ain o Fehefin, 1852, yn y ddeugeinfed flwydd o'i hoed, wedi dioddef cystudd trwm dros bymtheng mis gydag amynedd Cristionogol, a chyfarfod angau mewn gobaith sier o'r bywyd sydd dragwyddol. Yn ol ei dymuniad ei hun, dodwyd ei gweddillion marwol i orphwys yn mynwent Llangernyw, lle nodir ei beddrod gan golofn seml, yn dwyn yr argraph fer ond arwydd-occaol,—“MARGARET SANDBACH, 1852.”

Y mae saith cyfrol o'i gwaith yn argraphedig, y rhai a gyhoeddwyd o 1840 hyd 1852.

HAUL yr hwyr mewn mantell borphor—

Gwrid ei ruddiau fel y rhôs,
Dros oreurog fryniau 'r oror
Ddisgynai i 'stafellau nos;
Gwelw bryd y lloer oleuai
Ar ei wên 'madawol ef,
Seren Osper a adawai
I flaenori llu y nef.

Twrf trafterthus dydd a'i lafur
Suddai i freuddwydiog hedd,
Trymgwsg nos a wisgai natur
A difrifol brudd-der bedd,
Dwndwr ffrydiad Elwy 'n stio
Dan ganghenau llaes y llwyn,
Niwlen wlithog nos yn wyllo
Dagrau distaw ar y twyn.

Rhodiai 'r Bardd mewn hwyr fyfyrdod,
Fonwent Digan * drom ei gwedd,
Gwelai rhwng cysgodau 'r beddrod
Golofn fain yn codi o fedd;
Wrth oleuni 'r niwliog leuad
Teimla 'i fÿs gerfiadau 'r maen
MAR'GRET SANDBACH, mewn llyth'reniad
A'i drychiolaeth fyw o'i flaen.

* Llanddigan, neu Llanddygan, oedd hen enw y plwyf, yn ol tradodiad.

Craffai ar yr argraph orddwl,
Teimlai, mewn ammheuaeth hir,
 Torrai gwawl y lloer drwy gwmmwl,
 Gwelai ffurf ei henw 'n glir ;
 Treiglai galar ddeigryn chwerw
 Dros ei rudd, yn rhwydd i lawr,
Hyd lyth'renau cofus enw
 Un a barchai gynt mor fawr.

Gwysiai o'i lochesau beddol
 Angau euog ger ei fron,
 Holai ef trwy lŵ tynghedol
 Am y dywyll weithred hon ;—
 "Ti, O ellyll, dall a chreulon,
 "Gadewaist," meddai, "'r anwir ryw,
 "Gwenaist galon hawddgar fanon,
 "Un addfwynaf oedd yn fyw.

"T'wyllaist lygad a belydrai,
 "Synwyr cryf a disglaer iawn ;
 "Ceuai enau a lefarai
 "Bur wybodaeth helaeth lawn ;
 "Gwywaist law a sychai ddagrau
 "Gweddwon ac amddifaid gwan,
 "Wisgai 'r noeth â chlyd ddilladau.
 "Estynai i'r newynog ran.

"Mud yw 'r tafod fu 'n addysgu
 "Plant ei phentref gyda phwyll
 "I adnabod Duw a'i garu,
 "A'i was'naethu yn ddi dwyll ;
 "Oer yw 'r llaw faethrinai flagur
 "Per a thyner flodau 'r ardd,
 "Godai deml i Awdwr Natur*—
 " "Drwsio ei gynteddau 'n hardd."

Wyres ddoniol Roscoe enwog,
 Pleidiwr caethion feibion Ham ;
 Awdwr dyfnddysg, bardd talentog,
 A seneddwr doeth di nam.
 Etifeddes ei athrylith,
 A'i rinweddau goreu 'i gyd ;
 Merch ddyngarol a ddiragrith
 Oedd ein barddes yn y byd.

* Cylfeirir yma at adferiad ac addurniad Eglwys y Plwyf.

Rhosyn hardd a beraroglai
 Awyr anial diffaeth fyd,
 Seren loew a oleuai
 Ei dywyllwch moesol c'yd.
 Dysg coethedig mewn perffeithrwydd,
 Synwyr yn ei gyflawn rym,
 Rhinwedd yn ei llawn addfedrwydd.
 Fedodd crymman Angau llym.

Perl a gaed 'mysg sothach daear,
 Addurn gras yn nghoron Crist,
 Dygwyd hon o fyd o alar,
 Pam y byddaf finnau yn drist?
 Rhaid i'r llychyn marwol huno,
 Hyd yr adgyfodiad gwell
 Pan gân udgorn Duw i'w deffro :
 Nid yw gwawr y boreu 'n bell.

MARWNAD I'R DIWEDDAR W. OWEN, YSW.,
 TAN-Y-GIRT.

Ustus heddwch dros dref a sir Ddinbych; gŵr a gârai genedl y Cymry,
 ac a wnai lawer o elusenau i'r "bobl."

Du yw 'r Glyn, daear a glodd,
 Arch heddyw a orchuddiodd
 Flodeuyn brigyn ein bro,
 Galar a geir ac wylo.
 Wylofain ac ochain im',
 Galar dy farw, Gwilim
 Owain, ein Hyswain a'i âch
 (Dolenau aur dy linach)
 O *Burwaid* * ac meib Awen,
 A mawr iawn hil Meirion hen.
 Wyr y Doethawr mawr, a mab
 Aneurin oedd ddyn arab,
 O glod gwerin, gwladgarwr
 Tân-y-girt, dyna y gŵr.
 Hyder y fro a'i haden,
 Noddwr a thŵr ein hiaith hen,

* *Telu Pughe.*

Câr i'r beirdd, cywir o'r bron,
 Brawd oeddit i brydyddion—
 Pob cerddawr, pawb cywirddysg *
 Neu ddyn mawr oedd yn ein mysg.
 Un da iawn i'n dynionach
 Tylodion a beirddion bach ;
 Goreu dy lettygarwch,
 Gwae ni 'n llu dy gau 'n y llwch.
 Ar ddydd dy drange yn Nanglyn, †
 Dydd bu dy gladdu 'n y Glyn.
 Dydd d' arwyl, dy ddodi orwedd
 Dan lechi, du ‡ feini dy fedd.
 Dydd galarnad coffadwy
 A dydd blin ydoedd i blwy'.
 Galar oedd ym mhob golwg
 O Dan-y-girt yn dwyn gwg,
 Fel cwmwl ar fol cymmydd,
 Neu niwl dwl yn ael y dydd.—
 Dydd digynnydd dy genedl,
 A dydd och ydoedd o'i chwedl.
 Dydd hir ochir o'i achos,
 Dydd o niwl ydoedd a nos.
 Dwthwn fu 'n rhwyg cymdeithas,
 A dydd drwg ydoedd i dras.
 I'w briod du wedd'dod di wawr,—welwyd,
 Llaith aelwyd, a llwyth elawr.
 Ei briddo fu brudd i'w fam
 Welw, am ei mab *William* ;
 Och chwerw i'w Chwiorydd,
 Och hir i *Feilir* § a fydd ;
 Dwyn eu brawd o dan bridd,
 Dwyn irbren o dan oerbridd,
 Torri lawr i'r twrr o lwch,
 Yn ei hirddail a'i harddwch,
 O'r gwinbren un gangen gu,
 Y goeden oll sy 'n gwaedu ;
 Y llwyn deg oedd yn llawn dail,
 A gwaeyw 'mhlith y gwiail.
 Cwynion y mawion a mân
 Yn deilliaw o'i dŷ allan.

* Neu fel hyn :—Pawb cywirddysg, pob cerddawr
 Oedd yn ein mysg, neu ddyn mawr.

† *Nantglyn* a seinir fel yma.
 yn *Nantglyn*.

‡ Paentir y cerrig-beddau oll yn dduon
 § *Meilir Owen*, Ysw.

A'i hebrwng i fedd obry
 O'i neuadd deg, newydd dŷ,
 I weryd llechlyd y Llan,
 Gofid yw i wlad gyfan
 Golli dyn mor gall a dwys,
 Gwagle mewn byd ac Eglwys.
 Trostwyf y to'dd y tristwch
 Roi daear laith ar d' oer lwch.
 Tawel wyt yn y tywod,
 Ac yn dy fedd gwn dy fod
 Heb gynnau goleu 'n dy gell,
 Distaw wyt ar dy astell.
 Doe 'r oeddit yn dŵr addysg
 O enw mawr yn ein mysg ;
 Doe yn ben fel dyn o barch,
 Braenu heddyw 'n dy bren-arch.
 Doe 'n Ynad a dyn anwyl,
 Heini 'n ei oes, heno 'n wyl.
 Mudanaidd yw 'r mad enau,
 Llygad coeth oll gwedi cau.
 Rhwymo wna angau y rhawg,
 Gwywo llaw y galluawg.
 Och hir sydd a chwerw son
 Marw Ynad mor union.
 Dwyn dy rudd dân y du ro
 Pan oeddit heb heneiddio.

Dagrau yn hallt a dywalltwn—drwy 'r tir
 O alar hir ar elor hwn.
 Gŵr o lwydd garai ei wlad,
 Gŵr i fawrion gwir fwriad ;
 Gŵr oeddit i gyrraedd
 Gwir iawn barch gwerin y byd ;
 Gŵr mad, a gŵr llad, gŵr llon
 Dilediaith, i dylodion.
 Gŵr o fraint garai y fro,
 Gŵr oeddit i'w gwareiddio.
 Gŵr i'w dwyn i garu dysg
 A'i gwreiddio mewn gwir addysg,
 Codi a choethi ei chwaeth—
 A'i bwydo â gwybodaeth.
 Gŵr addas i geryddu,
 Gŵr ar faingc goreu a fu,
 Gŵr o hyd a garai hedd,
 Ustus mewn barn yn eistedd.
 Gŵr wrth raith y gyfraith yn gall—
 Synwyrol, di sen i arall—

Rhagor mil, a rhai gwŷr mawr—
 Duwioledeb hyd dy elawr.
 A gras a ffydd yn ei grym
 Gwelid hwy ynot, Gwilym,
 Ail anian o oleuni
 A delw Duw yn dy ael di.
 Cariad yn anad neb
 Dywynai yn dy wyneb,
 Wrth roi heb rus elusen,
 Dy olud hael i dlawd hen
 Llwyd, a'r noeth, dilladu 'r naill,
 Rhoi d' arian at raid eraill.
 Cofion hir o'r cyfiawnhâd.
 Gweithredoedd dy goeth rodiad ;
 Nid ffurfiau, neu byngciau bach—
 Dy grefydd oedd gred gryfach,
 Y warrant i laweroedd
 O dro gras Duw drwy Grist oedd.

Os cell laith dywell yw 'th dŷ,
 A du, Wilym, dy wely,
 Ni thyrr y cledd ar heddwch
 Gobenydd llonydd y llwch,
 Nerthoedd y gwyntoedd yn gwau
 Eu trinoedd, na'r taranau ;
 Y gafod lem gyfyd li',
 Nâ mellten yn ymholli ;
 Pe Dyli' fai 'n boddi byd,
 Daeargryn dan dy oergryd,
 Huno 'n drwm wneit a'th hen dras*
 Gwypodd angau o'th gwmpas.

Ond er i'r corph ymorphwys
 Y'nghol angeuol y gwys,
 A'i yssu fil o oesau
 Gan faned, gan bryfed brau,
 Perffeithydd y Ffydd ni phall,
 Dy goron ni ddwg arall,
 Cai dithau o'th gyd ethawl
 I fywyd gwynfyd y gwawl,
 Godi o'r llwch gyd â'r llu
 A hunasant yn Iesu,
 Yn y dydd hwnnw y daw
 I Salem i breswyliaw,

* Ei daid, y Dr. W. O. Pughe, ei dad, Aneurin Owen, Ysw., a'u henafiaid, a gladded yn Nantglyn.

Ac eistedd ar orsedd ei ras—
Y diwrnod y daw ei deyrnas.*

ENGLYNION AR FARWOLAETH YR ENWOG A'R
PARCHEDIG JOHN WILLIAMS (AB ITHEL).†

IASAU i'm calon isel—wel'd marw
'Ngwlad Meirion wr uchel ;
Holl Walia wyla na wél
Fyth bythoedd fath Ab Ithel.

Hidlaf ddagrau cenhedlog—o alar
Ar ol y monwesog
Ab Ithel fawr obeithiog,
Pleidydd i Grefydd y Grog.

Colofn, fel marmor caled,—i'r Eglwys
Ar oglyd unionged ;
Neu dderwen i'w hymddiried,
Parod ei chysgod a'i ched.

Gwron yn mysg gwladgarwyr—mawr ydoedd
'Merawdwr haneswyr,
A ni chaed o'n gwaed a'n gwyr,
Ei goethach o'n pregethwyr.

Rhydd Henafiaethydd o'r iawn—ryw ydoedd
Ar rodiad synwylawn,
Ysgolor a llenor llawn,
Enaid Cymreigiaeth uniawn.

Gwanai drwy galon Gwynedd—i Fynwy
Ruddfaniad a chwerwedd
Fwrw Ab Ithel o'i fawredd
I bwl llygredig y bedd.

A ochaf fi uwch ei fedd,—ei fyned
I fwyniant diddiwedd,
Yn nwyfol fro tangnefedd,
I wel'd haul y wlad o hedd?

* Gwel y craff aml "ddeuair" *wyth-sill*, yn lle *saith*, nid yw hynny yn fwriadol, yn y cywydd hwn.

† Yn nechreu ei yrfa lenyddol ysgrifennai y Cymro dysgedig ac enwog hwn dan yr enw "Cynhafal."

AR FARWOLAETH GOLYDDAN.*

A GLADDWYD ein GOLYDDAN—mor foreu,
 Myfyriwr o anian,
 Ardderchog ei rydd orchan,
 Digymmar ei gynnar gân ?

Ar dorriad dadblygiad blagur—talent
 Attelid ei lafur :
 Aeth ffrwyth irlas barddas bur,
 A blodau oes i'r bladur.

Cynnaraf ffrwyth gwinwryfau—anaddfec.
 Gynnyddfawr rawn sypiau
 Blaen-gynnulliad, torriad tau,
 Min engyrth grymman Angau.

Ei elw fu ei alw i fwrdd—
 I lŷs glân y gynghan gerdd ;
 Ei gario 'n hoff goron hardd
 Iesu a fawl oesau fyrdd.

Oes ei anfarwol "IESU,"—o deil iaith
 Genedlaethol Cymru,
 Ni phalla—darllena llu
 GOLYDDAN, er ei gladdu.

Ei glod fydd hynod a hir—
 Wele, fe'i anfarwolir.

* Nid oes dim dadl nad oedd *Golyddan* yn un o'r beirdd mwyaf talentog a aned erioed yn Nghymru. Tyfodd fel cicaion las odidog, i lawn flodau hardd a pheraroglus, megys mewn noswaith ; a gwywodd a diflanodd yr un mor sydyn, dan anadl marwolaeth foreu ac annhymmig, er galar i genedl gyfan. Neu, megys planhigyn tyner blagurog blaen haf, gwywodd gan ei orddeiliad a'i orflodeuad ei hun, cyn i ffrwyth pur ei athrylith ryfedd addfedu. Os cafodd *Golyddan* gam gan *Eben Fardd* (coffa da am dano) y mae y beirniad medrus ac addfed ei farn, bellach wedi rhoi cyfrif am ei holl weithredoedd gerbron y brawdlys uchaf, ac yr oedd *Golyddan* yno o'i flaen, os oedd ganddo wir gwyn i'w erbyn. Dymunwr bob rhyw lwydd i waith teilwng o gymmeradwyaeth genhedlaethol, ond "*de mortuis nil nisi bonum.*"

Cofansoddiadau Amrywiaethog.

PRYDDEST AR BRIODAS

EI UCHELDER BRENHINOL ALBERT EDWARD, TYWYSOG
CYMRU.

O HENFFYCH ! Hen Gymru, gwlad bryniau uchelfrig,
 A glynnocdd lle chwery cysgodau y goedwig,
 Lle swnia rhaiadrau dy fawredd naturiol,
 Lle cân pob aderyn dy harddwch cynhwynol,
 Lle gwisga gwedd Anian ei gwridog bêr flodau,
 Lle 'r hun a tangnefedd cartrefol er's oesau,
 Diffwythodd braich gormes dy dreiswŷr estronaidd,
 A'r troed fu'n halogi dy ddyfroedd grisialaidd,
 Esgoraist ar ryddid, a hedd, ac iawnderau
 Yn gwenu 'n angelaudd ar fonwes dy fryniau.
 Ni fathra gelynyon dy ddolydd meillionog,
 Ni feda dialedd dy feusydd toreithiog,
 Ni chlywir tinge saethau ar darian dy ryddid,
 Nid adsain dy greigiau reg gelyn yn ymlid,
 Ni sawria eryrod oer alpau serth Arfon,
 Oddi ar aden cwmmwl, gelanedd dy feibion,
 Dy feirdd ni thelynant uwch gwaed a chyflafan,
 Am ddial "Gwaith Cattræth," na "Brad Morfa Rhuddlan,"
 Ni hoga gwladgarwch eiddigus dy ddewrion
 Y cledd i dalfyrru uchelgais y Saeson.
 Tan grugau tywarchog a thommau dy rosydd
 Cwsg llwch dy frenhinoedd mewn heddwch tragwydd,
 Dy hen dywysogion rhyfelgar syrthiedig
 Diffynnent dy fryniau mor ddewr a brwdfrydig,
 Dychymmyg a genfydd gerfiedig lyth'rennau
 Eu henwau anfarwol ar goppa dy greigiau,
 Gwroniaid gynhalient dy rydd annibyniaeth,
 Fel niwliog ysprydion cysgodau marwolaeth,
 Hyd heddyw 'n ymrithio ar faes hanesyddiaeth,
 Heb hollol ddiflannu o ddrych coffadwriaeth.
 Ond cestyll dy dreiswŷr warchodir gan bryfed,
 Glâs eiddew orchuddia gofiaethau 'th gaethiwed.

Nid "Edward Hirheglog" a honna 'th warogaeth
 A hawlia â chleddyf reoli 'r D'wysogaeth ;
 Llwy'r wywoddd teyrnwial gorthrymmus Normaniaid,
 Hil Cymru orthrechodd yn rhwysg y Tuduriaid,
 A gŵr o waedoliaeth ein hen dywysogion
 Yw 'r glân ALBERT EDWARD, Etifedd y Goron ;
 A mab y gyfiawnaf hawddgaraf VICTORIA
 A'r dyngar ddiweddar Brins ALBERT o GOTHIA.
 Ei fam yn frenhines holl Frydain ac India,
 A'i gallu yn cyrraedd yr euraidd Awstralia ;
 Ei theg deyrnwialen yn estyn dros foroedd
 I wledydd pellenig, a mil o ynnysoedd.
 O eang arglwyddiaeth ! 'd yw haul byth yn machlud
 Ar aden ei gallu, — pwy draetha ei golud ?
 Brenhinoedd y ddaear, a'i phrif dywysogion,
 Wrth draed ei Mawrhydi offrymmant anrhegion,
 Dy bobyl ddyngarol ddiffynnant yr orsedd
 A phennau coronog ymgrymmant i'th fawredd.

O ddedwydd Dywysog !—o linach mor freiniol
 O Dŷ mor odidog, o lŷs mor rinweddol,
 Er rhodio 'r holl wledydd, hyd Sanctaidd Dir Isr'el
 Ni welaist wlad ryddach nâ bro Cymru dawel.
 Drwy 'r Eidal, a Syria, a'r Aipht henafiaethol
 Tramwyaist mewn heddwch, a gwylder crefyddol,
 Fel Pedr llettyaist ym mhorthladd teg Joppa,
 A threiddiaist ddifrifol wyll Ogor Machpela',
 Mewn hedd a llawenydd i mewn i byrth Sion
 Y'th ddygwyd, fel brenhin ym mysg tywysogion,
 Yn d'od i addoli wrth odrau Calfaria,
 A gwrando 'r Efengyl wrth Fôr Galilea.

O boed, ALBERT EDWARD, dy fywyd puredig
 Mor wir dangnefeddus, ac wir gyssegredig,
 Mor ddifai, mor ddisglaer, a buchedd Victoria,
 A'th glodwiw dad Albert, cyn ei ddiangfa
 O lysoedd daearol i balas y Duwdod,
 Lle gwisgir coronau llawenydd diddarfod.

O henffych ! O henffych, Etifedd Victoria,
 O henffych ! O henffych, y lân ALEXANDRA,
 Anadled llarieiddiaf awelon y Gwanwyn,
 A gwened haul euraidd dros niwliog Fôr Llychlyn.
 Y dôn a falchia wrth ddwyn ar ei monwes
 I Gymru henafol ddyfodol D'wysoges.
 Bu oesoedd pan ddeuai y Daniaid rhyfelgar,
 Fel heidiau locustiaid i ddifa y ddaear

Werdd a blodeuog—gororau môr Prydain—
 O Denmarc hen anwar ; pan grwydrai t'wysogion
 Anturiol fel gwylliaid yspeilgar yr eigion,
 Pan rwyfai eu trachwant y dyfroedd ewynog
 A chleddyf a fflaglau mewn treisgar law halog,
 Ond cariad ymesyd yn awr ar ein glannau,
 Merch dyner frenhinol sy 'n dod dros y tonnau,
 Dyweddi brydweddol hawddgaraf i Iorwerth,
 Taweled digofaint cynhyrfus fôr anferth.
 Trosglwydded llong wisgi i Frydain yn llawen
 Y deg brïodasferch o lys Copenhagen,
 Y serchog brïodfab ddisgwylia 'n obeithiol
 Ei glannio yn Lloegyr yn iach a diangol.

Pwy draetha pa dynged sy 'n aros merch brenhin?
 Pa fawredd i fonedd? pa fudd i'r cyffredin?
 Pa nawdd a gogoniant i Loegyr a Chymru,
 Mewn amser i ddyfod i ddeillio o'r teulu?

Y'nghanol gorfoledd a chlod yr holl deyrnas
 Mewn cred yr ymgrymmant wrth allor priodas.
 O selied y Nefoedd eu hundeb goruchel,
 Tân sanctaidd eu cariad cynneued pob awel ;
 Pob pelydyr heulog o lwydd fo 'n agoryd
 Pêr flodau aroglus rhinweddau eu bywyd ;
 Pob cwmmwl yn dangos disgleirdeb hanfodol,
 Pob corwynt yn profi cadernid sylfaenol,
 Cymmeriad ffurfiedig ar gynllun diwyrni
 Ac addysg crefyddol eu clodwiw riëni,
 Yn ffrwyth fel cynnydd addfediad eu dyddiau
 A'u cofiant yn peraidd aroglu drwy 'r oesau.
 Pan ddelont i'r orsedd—ond pell fo 'r dydd hwnnw,
 Mawr fyddo 'u poblogrwydd a disglær eu henw ;
 Boed EDWARD Y SEITHFED fel cedrwydd Lebanon
 Yn achles a nodded i bobyl rydd ffyddlon,
 A'r deg ALEXANDRA, â'i phwys ar ei ystlys,
 Fel traidd winwydden ffrwythlonaf ein Hynys ;
 A'u heppil frenhinol fel planwydd wrth afon,
 Didrai fyddo golud a heddwch eu meibion.

Eu gorsedd ddiysgog a saif yn fawreddol,
 Uniondeb diwyrni fo 'u rheol lywyddol,
 Trugaredd, a barn, a rhyddid digadwyn,
 Gogoniant dilychwin, a heddwch diderfyn,
 Disgleiriant yn nghoron ein T'wysog clodadwy,
 Fel perlau a meini o werth amhrisiadwy,

Un mwy nô Llewelyn, na Ch'radog, nâg Arthur,
 A fo T'wysog CYMRU, fel gwladgar benadur,
 Mwy llachar fo rhinwedd a chlod ALEXANDRA
 Nâg enw 'merodrol y Santes Helena.
 Gwarchodant ein rhyddid a'n Ffydd sefydledig,
 Ac uchel anrhydedd y faner Brydeinig,
 Ac wedi ymddiosg y goron ddaearol,
 Gwisgant fuddugol bleth lawryf trag'wyddol.

GOSTEG AR BRIODAS EI MAWRHYDI,

Yn y flwyddyn 1840.

NODYN.—“Gosteg” y gelwir deuddeng Englyn yn diweddu ar yr un brifodl, ond gwyddai yr awdwr yn burion nad arfer beirdd oedd dwyn cynghanedd *llusg* i linell olaf englyn. Yr unig beth hynod yn yr Englynion isod yw eu cyflawniad llythyrennol yn muchedd rinweddol a chlodforus y Tywysog a'n Brenhines, a llwydd eu had, fel pe buasai yr Awen yn prophwydo mewn cadwyn rwym wrth bost unodl gaethiwus.

FY Awen lân ! O cana—i ALBERT
 Yr haelbor o Gotha ;
 Yr enwog Dywysog da,
 Unodd Iôr â VICTORIA.

Duw hoff, anwyl ! O diffynna—ALBERT,
 Rhag helbul a thrahâ ;
 Rho rasusau—doniau da
 Bob tymmor i VICTORIA.

Y doethwych Dduw Iôr bendithia—ALBERT
 O haelbur Jehofa,
 Yn ëorth o'th gymmorth gwna
 Ef y'nghyngor VICTORIA.

Cuaf rinwedd cyfranna—i ALBERT
 A haelbwyll drwy 'i yrfa ;
 Yn ŵr doeth o'th gyfoeth gwna
 Ef, Dduw Iôr i VICTORIA.

Yn agwrdd anwanega—i ALBERT
 Ei haelbarch cywirdda
 Y'mysg pob plaid—deiliaid da
 Tir a môr ein VICTORIA.

O rho hedd i'r Orseddfa—i ALBERT,
 Yn haelbur cyfranna
 Swccwr i hwn, a sicrha
 Rhag brad tramor VICTORIA.

Cân Affric a'r 'Merica—glod ALBERT,
 A gwlad hael Britannia;
 Fel sant, gogoniant, a ga,
 Enwog bôr, a'i VICTORIA.

Iesin wiw olud Asia—i ALBERT
 O haelbyrth Môr India,
 A'r *Lavant* e ddygant dda
 Mawr i drysor VICTORIA.

Ein llew, yn hyf y llawenha—ALBERT
 Yn haelborth Jehofa,
 Balm o bur gysur a ga,
 O, hawddamor! VICTORIA.

Mewn mawl a hedd mwyn amlha—i ALBERT
 O hil bur Germania,
 Ryw hâd gwych, dinych a da,
 Arglwydd Iôr o VICTORIA.

Hyn welir i Hen Walia—ac ALBERT
 Rhag helbul yn noddfa;
 Galluog dywysog da
 A esgor ein VICTORIA.

Ein hunig Iôn yn enwog gwna—hil ALBERT
 Hael, hawlbur, yn Ngwalia,
 "Tra Brython" dewrion a da,
 "A thra môr" hâd VICTORIA.

 TYMMESTL AR OROR MON.

[Ffrwyth ymweliad y Bardd ag Ynys Mon lawer o flynyddoedd yn ol.]

Nos ddwl mewn cwmmwl mae 'n cati,
 A gwisgedig gysgodau;
 Nos enbyd, drymlyd, a drig
 Yn y niwloedd annelwig;
 Nos fin a'i dryghin ar draeth,
 Mawr dywydd ei mordwyaeth;

Nos gwaew'r dw'r 'n esgor y don
 Ymrwygol yn mru eigion ;
 Nos ddi-loer, ddu, oer, a ddaeth
 Uwch eigion yn marchogaeth
 Pedair rhod cerbyd yr hin
 O gwrr lleuad gorllewin.
 Mor ëorth yr ymrua
 Olwynion chwyrnion y chwa,
 A droes oerfel dros Arfon,
 Y dw'r maith, a daear Môn !
 Pentir draw welir drwy wyll
 Awyr dewaint ordywyll ;
 A golau llesg, gwelw y llu,
 Serennog yn seiriannu,
 Fel gwreichion gwylltion yn gwau,
 Ym mwlwg y cymmylau.
 Gwynt môr Chwefror yn chwifiaw,
 Gyfyd luwch y gafod wlaw ;
 A berw dig a bâr y don
 Amlygir ym mol eigion ;
 Twrw yn y gwtterydd,
 Cynnwr, y dw'r cyn awr dydd ;
 Dwndwr yn y dyfndwr du,
 A chethin nos yn chwythu,
 Chwibaniad hyd dorriad dydd,
 Blin awel y blaen newydd.
 Sw'n y môr yn sïo 'n 'mhell
 Ar drothwy oer ei draethell ;
 Môr eilwaith yn ymrolio,
 Yn llanw trwm mewn llyn-tro ;
 Ton geulog, sarphog, a si,
 Ei chynnwrf yn trochioni.
 Sw'n dryghin, megin y môr,
 Yn gyrru hyd y goror ;—
 Môr gauaf mawr ac ëorth,
 Breccini 'n berwi 'n y Borth.
 Y mwrllif yn ymarllwys
 I drochfa ei ddamchwa ddwys,
 Ton chwyddfawr hyrddfawr ei hwyl
 Yn golchi ar graig eilchwyl ;
 Tresiad a llachiad y lli',
 A chwaliad y lluwch heli.
 Y môr-roliau, mawr alaeth !—alarwm
 Y llif oer trwm yn llafurio 'r traeth.
 Beisdon o'r wendod ar want
 Môr beichiog mawr ei buchiant.

Môr afan yn ymrwyfo—
 Tonnau ar greigiau a gro :
 Rhwyf corwynt a morwynt mwy,
 Rhwyf arthal a rhyferthwy
 Môr gerwin mawr a gurir
 Ar bwynt tost yn erbyn tir.
 Rhyfel ystorm a'i thormiad
 Gefn nos y gauaf a'i nâd—
 Tonnau fel mynnau a'u mus,
 Chwibaniad y chwa boenus.—
 Dwg ofnau maith hyd gefn môr,
 Oer waith ingus wrth angor ;
 Cwyn heno ac anhunedd,
 Neu ddw'r i forwr 'n fedd.
 Galaru y foru a fydd,—gwaeau
 Oer galonnau ar geulennydd.
 Tramwy mae rhuthrau trymmion,
 Twrw mawr ar hyd tir Môn ;
 Adlais siw a miw y môr,
 Dig afan yn dygyfor.
 Rhuad ymrwygiad ei rym—
 Terfysg cenllysg dryghinllym !
 Y llif ar daith, llef fawr Duw !
 Rhuad eilwaith, rhawd diluw ;
 Llef fawr Duw !—y llif ar daith
 Rhawd diluw, rhuad eilwaith !
 Ei nos dyrfiad nes derfydd
 A'i ferw ddeil hyd foreu ddydd.

ADFEILION DINBYCH.

CHWI lwydion ddymchweledig
 Adfeiliau hen dyrau dig.
 Adail oesawl *De Lasi*,*
 Yn gwilied nerth ein gwlad ni ;
 Dychryn y Dyffryn, a dâs
 Murddynau mawr ei ddinas ;
 Mantell ei gastell, ac *ol*
 Ei dai meini dymunol,
 Uwch Dinbych freinwych, ar frig
 Y graig gydiol grogedig ;
 Maenwaith yr hen *Normaniaid*
 A'r Saeson blinion yn blaid ;

* Sylfaenwr y Castell mawr hwn.

Mawrwaith cryf eu murwaith crog—
 Gampusaf gaer gwmpasog,
 Uwchben gwlad y gwastadedd,
 A'r creigiau 'n seiliau ei sedd.
 Muriau y trais, mawr eu trwch,
 Aneddau 'r aflonyddwch,
 Traethwch—dadgenwch yn g'oedd
 Foliant eu hen ryfeloedd ;
 Rhwysgfawredd bonedd y bau,
 A phleser ei phalasu ;
 Grymmusedd gwŷr gormesol—
 Trais a wnaent trwy oesau 'n ol ;
 Gorchestion pob gwron gau,
 A'i lwyddiant mewn ymladdau ;
 Mawredd y *Mortimeriaid*—
 Rheibwyr a threiswyr wrth raid,
 Gwag rithwyr fu 'n coeg reithio,
 Dileu 'n braint—dal ein bro.
 Dinystriol wadnau estron
 Amser hir fu 'n mesur hon.
 "Darfu rhwysg dirfawr y rhai 'n,"
 'Hediad uchel eu hadain,
 Eu trais, terfysg, trwst arfau,
 A bloddest eu gorchest gau ;
 Eu hawl drachwantawl a'u chwydd,
 A'u hanfeidrol ynfydrwydd.
 Cwypodd eu muriau campwch
 Hyd y llawr—dryllfawr eu drych ;
 Llanastr ar lanestr i lwch
 Faluriodd mewn aflerwch ; *
 Dinystr droes Dinystr dros dom
 Arloes eu neuadd oerlom ;
 Clogau murddynau, mawr ddig
 Dyrau llwydion drylliedig ;—
 Cydiant, o'u maenwaith cadarn,
 Hyd ddiwedd byd—hyd ddydd Barn. †

ENGLYN I'R BEDD.

Ah ! llyngcaist lawer llengcyn—a morwyn
 Amharod mewn dychryn ;
 Er im' fawrhau doniau dyn,
 Profi nad yw ond pryfyn.

* Y mae llinell debyg gan Eben Fardd. † Hen gynghanedd ddim gwaeth na newydd.

BER AWDL AR HEN FAES RHYFEL.

Byddar yw torf mewn beddau—diystyr
 A distaw yn angau :
 Yn llygredd y culfedd cau
 Llechasant, a llwch oesau.

Ni wn eu hurddau yn iawn i'w harddel,
 Yn y ddu fro dywyll ddi-fri dawel,
 Y lle ni rifir allan i ryfel
 Arwyr hanesion, na'r werin isel ;
 Angau dall, o'i wall, ni wel—ragoriaeth
 Rhwng gŵr o achaeth a rheng goruchel

A dyn gwreng, pan y trengant—
 I'r un distawrwydd yr ant.
 Hydera dyn daearawl
 Ar achau hen, ar uwch hawl ;

Annoethyn ! pa wahaniaethau ?—lludw
 Oll ydym yn ddiau
 A wybu hwn ein bywhau
 Ag anadl yr un genau ?

LLINELLAU MEWN MONWENT,

Uwchben Bedd cyfeilles ieuange rinweddol.

YR haul a gillasai i 'stafeli y nos,
 Mewn mantell o gwmmwl, a'i ruddiau fel rhos,
 Y wylaidd Loer wridai wrth ddangos ei phryd,
 A'i thegwch gwryfol i olwg y byd,
 Y deg Seren Osper edrychai yn gain,
 Fel perlyn disgleiriaf ymysg gemmau glain.
 I gwsg y syrthiasai y goedwig a'i chôr,
 A'r awel hunasai ar fonwes y môr ;
 Distawrwydd ar foelydd eisteddai yn syn,
 Dan hulyn niwl gwlawog gorwedddai y glyn,
 Y blodau galarus yn bendrwm a llaes,
 A hidlent eu dagrau ar dywarch y maes ;
 A minnau dan ywen orchuddiais fy mhen,
 A wylais hyd hwyrnos ar feddrod merch wen.

Diddanion a Difyrriion.

DIFYNION O AWDL CYFFES YR OFERDDYN,

RHYS MORGAN DASHINGTON MORGAN, YSWAIN,

MAB Y FOTTY FAWR,

Yr hwn, er ei farw yn gardottyn ar y plwyf, a aned yn aer, ac a ddygwyd i fynu yn ŵr bonedig, fel y gallai fwynhau cyfoeth ar ol ei fodryb waddlog, Mrs. Dashington, Hendre Cottage; a phan fu hi farw, dywed,

Y CWBL oedd yn y caban—a gefais,
I gofio 'r hen wreigan,
Myrdd o ryw betheuach mân,
Aur, a thiroedd werth arian.

I rafio yn ŵr ifanc
Yn llenwi ' bwrws allan o'i *banc*.
Etifeddiaeth helaeth hon
Llwyr yfais, fel lli 'r afon.
Oes pagan gâr yspigod
A ffawsed bured yn bod?

Synwyr a phwrs (wrth son) ar ffair—lle meddwais,
Un hwyr a gollais mewn hir gellwair;
Maswedd a gwagedd ymgegais,—yn llawen
Ar hen foeden yr ynfydais.

Gofid wrth garu gefais,—anhunedd
Yn hynod ddifantais;
A brwydr er pan brïodais,
Gwasgu 'r bol, a gwisgo 'r bais.

Hoew, medd llawer, yr heuais,*—gan edliw
Na chawn, i'm briw, ond y chwyn braisg.

Wrth gadw swm am gŵn a gaist,
Moli a chanlyn miliaist,

* Odl gudd neu lusg. Amcan y bardd oedd i'r Awdl hon redeg ar bob odl a ellid ei chanu yn Gymraeg.

Adara, hela'r bob hin,
A thuthio 'r ol cat-heithin.
Troi yswil wegil at waith,
At drin gwn y trown ganwaith.

“At ras,” meddai 'm mam, “pe troit,
“Mwy o barch a'th gyfarch gait,
“Lle ymysg llu dysg lle doit,
“Yn un o bwyll o na bait.”

Gyrru y wraig ymaith, fel gŵr gwammal,
Moch o'r cyttiau i'r meichiau, a'r *cattal*.
Ymuno wed'yn, ŵr mwyn anwadal,
Ffraeo, ac etto yn rhyw ymgyttal ;
Cwyno am wraig i'm cynnal,—a'i gyrru
I guro a maeddu ei gŵr meddal.

Hoff ydwyf o gaingc *ffidil*—a difyr
Yw 'r dafarn anghynnil ;
Caru 'r wyf y cwrw o'r il,
Neu furym ddaw o faril.

Eiste 'n ffol ar 'stol y stelc,
A'm het ddellt fel gwellt yn gwalc,
Byw yn foel ar goel, neu gelc,
Neu fel cul oer ful ar falc.

Os bum yn goegus a balch,
Dofwyd fi 'n eithaf difalch.

Trown yn ddyn doeth, trwy iawn addo 'n deg—a mynych,
Etto chwennych diotta chwaneg.

Oes gyffion neu ysgaffald,
Dy feddwl y ffwl, neu ffald ?
Neu ffon gym'rai wraig i'w phalf,
A'i diben ladd a'i dwybalf ?

Byd blin geir o feddwi 'n fall,
A thyngu sydd waith anghall,
Diwedd a ddaw o dywallt,
A chwareu hir a chwrw hallt.

Nid oes gobaith chwaith i chwelp
Ond bywyd byr a dyr yn dalp,
Os rhaid i'r da, hwy a'i help,
Drengu ar ol dringo 'r alp.

GWAHODDIAD I RODIO'R GWYLIAU.

[Cyn Nadolig 1848.]

HEDDYW y rhown wahoddiad
 I chwi mewn taerni a'ch tad,
 Gwn y daw barcer yn gynt
 Ar oer awel o rewynt.
 Doed oerfel i'w hel i'w hynt,
 Lluchio eira, a lluwchwynt ;
 Y cenllysg a fo 'n cynllwyn,
 A rhewed, crined y crwyn,
 Palled holl waith y pyllau ;
 Iâ haenog ceulog fo 'n 'cau
 Bob nos am wythnos o'i ol,
 Cawn Morus cyn y meiriol.
 A hoffus melus, i'm mam
 Weled ei nai hi *William* ;
 Ddaw o 'i roi tro lle trig
 Ei deulu y Nadolig ?
 Awn yn o ddig oni ddaw, .
 Gresyn fod iddo groesaw ;
 Gyrru mawr a'r gŵr y'mhell,
 A'i bwdin yn y badell ;
 I'r cigau, y gwyddau, a'r gwêr
 Yn afon, fyn'd yn ofer.

Hedded Robin i'n hadail
 I dŷ a wisgwyd â dail,
 Pibell a gaiff y pobydd,
 Croesaw glân wrth dân bob dydd ;
 Rhyw addysg y'mysg y mŵg
 Yrr y galar o'r golwg ;
 Yngommio wrth rostio 'r ŵydd,
 A chwilio gwir a chelwydd.
 Gwrido dros hen gariadau,
 Pob meinir gywir a gau.
 Wrth bentan cawn gân i gyd,
 A sarllach y nos oerllyd ;
 Rhyw lawen hamdden a hedd,
 Difyrrwch—nid oferedd.
 Cawn gan hen ŵr llên a llwyd
 Garolau ar gwrr aelwyd ;
 Cawn bader, cân, a bwydydd,
 Ac eirias dân uwch gwres dydd.

William ddinam a ddaw—
Llwyd anwyl, lle deunaw

O gedyrn yn y gadair,
 A leinw ei enw a'i air.
 Hwylwch attom yn hylaw,
 Ar fyrr doed llythyr i'n llaw,
 Ni cheir cyw-giar heb ddarpariad—rhyfedd
 I gynnal gwledd mewn rhyw ganol gwlad
 Dylid cael cŷff Nadolig
 Parod, ac aelod o gig
 Eidion, yn ei iawn adeg,
 Erbyn y dowch, ar boen deg;
 Cael crotheli o borchell bêr,
 Neu borcyn o flaen barcer.
 Galar a gawn y Gwyliau
 Oni ddaw'ma un neu ddau,
 Neu dri unwaith, dro anwyl
 Gyda gwên i gadw gwyl;
 Sorraf fel na wiw siarad
 Un gair â mi fel gŵr mad.
 Ni chadwa' i ŵyl â chod-wên,
 Ni waedaf un hwyaden.
 Ni chewch chwaith y cyflaith cu,
 Cwrw a sew i'ch croesawu,
 Fwytta rhawg gig ceiliawgwydd
 Weled giar, nac aelod gwydd.
 Profi rhin y pwddin pêr,
 Na phastai, na gorphwyster;
 Neu le 'n hwy i lawenhau
 Oni ddeuwch yn ddiau
 Disgwyl yr agwyl yr wyf,
 Caredig, cywir ydwyf;
 Ac heddyw nid yw yn deg
 Chwennych dywedyd chwaneg;
 Pawb a lwngc ei bwngc o bell,
 A'r cywydd aed i'r cawell.*

CYWYDD CARWRIAETH ROBIN DDU Y CYNTAF.

Y FERCH, wedi 'r glod a fu,
 Deg iawn, na haedd d'organu.
 Dy liw a'th wisg, loer ddisglaer,
 Dy lun ferch, fel delw wên Fair.
 Rhoad iti liw rhediad tòn
 O degwch, fwy na digon.

* Cawell "tatws" rhodd.

Gras mawr (gynnal gwrs morwyn)
 Oedd ef, o medrid ei ddwyn.
 Mawrddig, heb ddim o urddas,
 A wnai bryd oni b'ai ras.
 'Mogel fod, fy ngwyndodes,
 Dy liw yn erbyn dy les.
 Saer dy fawl—sorred wyf fi !
 Amserol oedd im' sorri.
 O daliaf ledwg dulas,
 Fy ngherdd a ddial fy nghas.
 Cariad o'r modd cywiraf
 Iti rhown yn neutu 'r haf.
 Dwy fil a glyw dy foliant,
 Gan bibau teg, gan bob tant.
 Nid oedd o 'maddiddan deuddyn
 Ond dy glod yn neutu glyn.
 Gweniaith, liw ewyn gwaneg,
 Im' yw 'r tâl am eiriau teg.
 Myn yr hin ! nid doethineb
 Iti er nwyf watwar neb ;
 Rhoi i fardd, yr hoyw fân,
 Air diystyr ar destun.
 Dyfod, cyd bych diöfal,
 A wna dy dwyll yn dy dâl,
 Lliwiaist im', fel y llus du,
 Y lliw roes llaw yr Iesu.
 Nid rhaid it', f' enaid rhydeg,
 Farw sy tân f' arswyd teg.
 Mae 'r muchydd y sydd ar sâl
 Gymmain' mewn gras â gwammal,

* * * * *

Gwen iawn od wyt, gwnawn oed dydd,
 A du ydwyf, a dedwydd.
 Yr wyf, Wen araf waneg,
 Yn ddi-glwyf, er nad wyf deg.
 Mwynach wyf, eiliw mânod,
 Nag y cred merched fy mod.
 Oni wyddost (ar osteg)
 Ymwarded da am air teg ?
 Na ogana, bydd gynnil,
 Fy lliw ! ferch, mae felly fil.
 Dau o Gamlan—dig ymladd
 Eu lliw a luddiodd eu lladd ;
 Un gwyn a fagwyd yn gu,
 Ac un addug, gwineuddu.

Ond tirion gennyt arail
 Y gŵr du dan gaerau dail?
 Ymadu yn gymmodol
 A wnawn, rhag ymlid yn ol.
 Tâl, ferch, lle 'r wyt hael o *fedd*,
 Am a genais, em Gwynedd,
 A Duw ufudd, yn d' ofeg,
 A ro i ti wra teg.

 CYWYDD CARWRIAETH

YR HEN FARDD GRUFFYDD AB IFAN.

BREUDDWYDIO obry ydd ydwyf,
 Breuddwyd i wan—brudded wyf!
 Blin trosaf yw blaen traserch,
 Braidd im' fyw, yn brudd am ferch.
 Bwriad îa ar bryd ewyn
 Bore a hwyr, a bair hyn.
 Fy marw fi am riain
 Fel yn drist ar flaenau drain.
 Meddwl y bum ddâl ei bodd—
 Meddyliau a'm heiddilodd—
 O Fair eiddil fry! oeddwn
 I barhau yn y braw hwn?
 Ni âd ei dewriad o'i dŷ,
 Na 'i mham hon, mwy im' hynny.
 Diau yw hyn, nid â hi
 Dros gwr y drws i'w 'gori.
 Er f' anwyl yr wyf ennyd
 Allan rhwng y llŷr a'r rhyd.
 Oer ydd ydwyf ar ddidol,
 O'm gwel ei mham geilw'n hol.
 Yna gweddus ymguddiaw
 I mi nid rhydd myned draw.
 Ydd ydwyf yn guddiedig,
 I'w charu mal chwareu mig.
 Bu ddig im' heb addaw gwell,
 Na byw wrth dw' o berthell.
 Arswydwn, f' ynghwrs ydyw,
 O doi drwst hediad y dryw.
 Cilio dalm rhag gweled dyn,
 Cilio weithiau rhag eithyn.
 Lladradaidd, lleoer ydwyf,
 Uleidr serch yn lled aros wyf.

Gwell i un a gyll annerch
 Gludo main na gweled merch.
 Y gauafwynt a gefais
 Tros fy mhen y troes fy mhais.
 Ac o wenwyn ac anwyd
 Agos i mi gasâu 'm mwyd.
 Dydd a nos nid oeddwn i
 Draw unawr heb drueni.
 Cael dig achos coelio dyn,
 Cael crwydr y ceiliog-rhedyn,
 Cael hir nych i'm culhau 'r nos,
 Cael mawr wêg, cael marw agos ;
 Cael ofn draw, coelfain a drig.
 Clywed cur fel clud cerrig,
 Cerydd un a'i carodd oedd,
 Cur wedi caru ydoedd.
 Bid cariad, er bod cerydd,
 Be rhown oll, a byrhau ' nydd.

TWLL BACH Y CLO.

'R OEDD cap-nos o eira ar goryn pob bryn,
 Y rhew wedi gwydro pob ffos-ddw'r a llyn,
 'R oedd Gweno 'n gweu 'sanau wrth oleu tân glo,
 A Huwcyn yn gweled drwy dwll bach y clo.

Y gath oedd yn cysgu yn dorch ar ei mat,
 A'r tad yn pesychu wrth sugno ei gat,
 Y fam oedd yn ffraeo, fel dynes o'i cho',
 A Huwcyn yn clywed drwy dwll bach y clo.

Yr hen wraig yn synnu fod Gweno, mewn gwange,
 Mor wirion a charu rhyw leban o lange,
 A Huwcyn yn gwybod mai hwnnw oedd o,
 A'i galon yn crynnu wrth dwll bach y clo.

Y tad aeth i'w wely i'r llofft oedd uwch ben,
 A'r fam roes agoriad y drws dan ei phen,
 Ond Gweno arosodd i huddo 'r tân glo
 A disgwyl am lythyr drwy dwll bach y clo.

'R oedd cwyn y dylluan fel bwgan mewn coed,
 A'r ei bach yn cyfarth wrth glywed sôn troed,
 A Huwcyn yn diange fel lleidyr ar ffo,
 'R ol d'weyd gair yn ddistaw drwy dwll bach y clo.

Cyn pen y ddwy flynedd 'r oedd Gwen Jones yn wraig,
 A Huw Jones yn hwsmon i Ffowcs, Tan-y-graig,
 A chanddynt un plentyn, y clysa'n y fro,
 Ac arno 'n faen-geni lun twll bach y clo.

GWR AG UN GOES.

PAN oeddwn i'n ifange, yn forwyn mewn plas,
 Mi syrthiais mewn cariad â Rodrig y gwas ;
 Ni welsoch lange harddach eriðed yn eich oes,
 Nâ sythach ei wegil yn myn'd ar ddwy goes.

'R ol sôn am briodi ryw bryd cyn Gŵyl Fair,
 Rhyw fodd neu gilydd ymlistiodd mewn ffair,
 Am swllt gwyn, a *bounty*, a phension am oes,
 Aeth Rodrig i ryfel yn syth ar ddwy goes.

'R ol bod ugain mlynedd neu ragor ar led,
 Yn ymladd â llewod a dynion di-gred,
 Daeth adref mewn heddwch yn niwedd ei oes,
 I fryniau hen Gymru i gyd ond un goes.

Ca'dd ddigon o bension i gadw trol mul,
 A thri medal arian i'w gwisgo bob Sul,
 Y teitl o *Serjeant* dros weddill ei oes,
 A dau bâr o faglau yn iawn am un goes.

Dywedir yn fynych yn mysg Cymry glân,
 "Lle byddo hen aelwyd, pur hawdd cynneu tân,"
 Ac felly cês innau cyn diwedd fy oes,
 Briodi hen gariad i gyd ond un goes.

Mae 'n sylw cyffredin yn mysg merched call
 Nad oes ar y ddaear un dyn heb ei wall,
 Fod rhywbeth yn ddifyg ar bawb ym mhob oes,
 Ac felly boddlonais ar ŵr ag un goes.

Nid oes nac anrhydedd, na mawredd, na mael,
 Nac elw, nac ennill, heb golled, i'w gael,
 Gan hynny, boddlonwn os cawn ni dros oes
 Fwynhau y byd yma i gyd ond un goes.

DAMMEG Y FALWODEN UCHELGAIS.

MALWODEN uchelgais a ddringodd ryw bryd
 I frigyn marchysgall, i weled y byd,
 A chael edrych arni yn mysg ei holl ryw
 Fel malwen anturiol ryfeddaf yn fyw.

Hyd wlyddyn llawn pigau yn serth iawn a hir,
 (A hithau yn fusgrell o'i mebyd yn wir)
 Drwy ymdrech clodadwy amynedd ar waith,
 Cyrhaeddodd o'r diwedd ben terfyn y daith.

Y gamp a gyflawnodd yn ngolwg pob pryf,
 Ar ben y blodeuyn uchelaf yn hyf
 Eisteddai 'n fuddugol, mewn chwydd a rhwysg mawr,
 Yn cael ei rhyfeddu gan lyffaint y llawr.

Dechreuodd reoli 'n oruchaf yn mhlith
 Gwahanol genhedloedd o falwod y gwllith,
 Gorchymyn ufudd-dod eu llwythau 'n dra chwyrn,
 A chynnal awdurdod ar flaenau ei chyrn.

Ond Och ! mor siommedig yw tro y byd hwn,
 Ar bigau ysgellyn, dan gragen yn bwn,
 Archollid ei dwyfron, o fore hyd nos,
 Nes chwyddo gan fawredd, a syrthio i'r ffos.

 ENGLYNION :

Y PEIRIANT HUNANSYMMUDOL.

Atteb i'r gofyniad—"I ba beth y cyffelybid peiriant a lusg reilffordd
 yn croesi'r ffordd fawr liw nos dywell?"

SAFN dân, ellyll erchyll yw—rhuadwy
 Yn rhedeg i ddistryw ;
 Tuchan a gwaedd—gwich baedd byw,
 Neu lidiog ddiäfol ydyw.

I'R FEDWEN.

Dwys goeden ein dysgeidiaeth—gwialen
 Ysgolaidd ddysgyblaeth,
 Mesur cosp y moeswr caeth,
 Bedw yw y pren gwybodaeth.

I'R LLEUAL.

MESURYDD y mis, eirian—attynfaen
 Y tonfôr gorlydan,
 Drych llâr a gwych yw 'r Lloer gan,
 Dryll euraidd, neu droell arian.

Cyfansoddiadau Syniaethol.

Y, FAM OEDD YN WYLO.

[Ffelychiad o Gân Wyddelig brydferth LOVER.]

ACCOMP.

AIR.

The first system of musical notation consists of three staves. The top staff is a single treble clef line with a key signature of two flats (B-flat and E-flat) and a common time signature. It contains a melodic line with eighth and sixteenth notes, some beamed together, and a final quarter note. The middle and bottom staves are grouped by a brace on the left and represent the piano accompaniment. The middle staff is a treble clef line with a key signature of two flats, featuring a series of chords and some eighth-note patterns. The bottom staff is a bass clef line with a key signature of two flats, featuring a simple bass line with quarter and eighth notes.

The second system of musical notation consists of three staves. The top staff is a single treble clef line with a key signature of two flats and a common time signature, continuing the melodic line from the first system. The middle and bottom staves are grouped by a brace on the left and represent the piano accompaniment. The middle staff is a treble clef line with a key signature of two flats, featuring a series of chords and some eighth-note patterns. The bottom staff is a bass clef line with a key signature of two flats, featuring a simple bass line with quarter and eighth notes.

The third system of musical notation consists of three staves. The top staff is a single treble clef line with a key signature of two flats and a common time signature, continuing the melodic line from the first system. The middle and bottom staves are grouped by a brace on the left and represent the piano accompaniment. The middle staff is a treble clef line with a key signature of two flats, featuring a series of chords and some eighth-note patterns. The bottom staff is a bass clef line with a key signature of two flats, featuring a simple bass line with quarter and eighth notes.



Y FAM oedd yn wylo,
 Ei baban yn huno,
 A'i gŵr draw yn morio
 Ar ymchwydd y lli' ;
 Y rhuthrol wynt sydyn
 Ysgydwai y bwthyn,
 Hi waeddai, "Cadwelyn,
 Pa le 'r ydwyf ti?"

Y fam a weddiai,
 Y baban freuddwydiai,
 Ac arni y gwenai,
 Tra rhŷuai y lli' ;
 A'i chred mewn argoelion,
 Dywedai 'n ei chalon,
 "Mi wn fod angelion
 "Yn siarad â thi."

Tra byddont yn gwylio
 Fy nglin, a thi 'n huno,
 Ymŷn i weddio,
 Fy maban teg i,
 I'r sanctaidd ysprydion
 Dawelu 'r môr eigion,
 Mi wn fod angelion
 Yn siarad â thi.

Y bore a wawriodd,
 Cadwelyn ddychwelodd,
 A'i wraig a lawenodd,
 A'i dagrau yn lli' ;
 Cusanai 'r bach tirion,
 Dywedai o'i chalon,
 "Diau fod angelion
 "Yn siarad â thi."

BUGEILGERDD.

O DEFFRO, Myfanwy, mae 'r haul, dros y bryn,
Yn gweled ei gysgod yn gwrido 'n llyn ;
* Mae 'r ser wedi diffodd, ac awel y dydd
Sydd allan yn chwareu 'mysg cangau y gwŷdd.

O deffro, Myfanwy, mae mygau y dref,
A'r hedydd dan ganu, yn esgyn i'r nef,
Cai glywed lawened yw 'r gôg ar y gaingc,
Mae newydd dd'od drosodd i Gymru o Ffraingc.

O deffro, Myfanwy, mae ochrau y ffyrdd
Yn frith o friallu a llygaid-dydd fyrdd,
Mae 'r hâf wedi 'eni, er balchder i'r byd,
A'r adar yn canu o amgylch ei gryd.

O deffro, Myfanwy, mae 'r dail ar y coed
A'u blodau yn ieuaingc—heb ddyfod i'w hoed,
Pob perthen yn ffasiwn y tymmor yn werdd,
A'r fwyalch a'r fronfraith yn cadw llys cerdd.

O deffro, Myfanwy, i weled uwchben,
Y wennol yn nofio y'nglesni y nen,
I glywed y gwenyn yn canu mor fwyn
'R ol sugno ar fronnau briallu y twyn.

O deffro, Myfanwy, mae 'r pentre'n cyffroi,
Yr eingion yn tingcian, a'r felin yn troi,
Mae 'r merched yn godro y 'Ngwerglodd-y-brwyn,
C'od dithau i ganu a chyfrif yr ŵyn.

O deffro, Myfanwy, dy lygad sy 'n hardd,
A'th ruddiau yn deccach nâ'r boreu i'r bardd,
Dy lais sydd yn fwynach nâg adar mewn coed,
A'th rodiad yn harddach nâ'r ewig ar droed.

PROEST

I BRYDDEST FUDDUGOL RAD A SAL.

ANGHYFARWYDD gywydd gwyllt,
Ar odl rydd ymenydd mollt,
Yw 'r bryddest faith, fel gwaith gwellt
Budr a sâl, am bedwar swllt.

* Y ddwy linell flaenaf o bob pennill i'w hailadrodd wrth eu datganu.

HEN FRYDAIN.*

HEN Frydain, heb ofni bradwriaeth na chledd,
 A ferchyg ar edyn y 'stormydd ;
 Fe'i gwelir yn huno, mewn mawredd a hedd,
 Ar ymchwydd y môr ei gobenydd.

Yn dawel y gorphwys, mor hawddgar ei phryd,
 A bri yn dyganu ei moliant,
 A'i banner chwyfiedig a ddengys i'r byd,
 Ei dewredd, ei chred, a'i gogoniant.

Pan genir corn Rhyfel yn galw i'r gad,
 Er dychryn annewrion a brolwyr,
 Rhyw fyrdd o gleddyfau ddiffynent ei gwlad,
 Yn nwyllaw ein milwyr a'n morwyr.

Y'nghanol celanedd, tân gynnau a'u twrf,
 A gwaed yn llifeirio fel ceunant,
 Ni weinia ein meibion eu cleddyf yn llwrf,
 Nes ennill y maes a'r gogoniant

Hen Frydain, heb ofni bradwriaeth na chledd,
 A ferchyg ar edyn y 'stormydd ;
 Fe 'i gwelir yn huno, mewn mawredd a hedd,
 Ar ymchwydd y môr ei gobenydd.

CANIAD ODYDDOL.

Pennillion i'w canu ar geuad y Gyfrinfa, a'r holl frodyr i ymuno
 yn y Byrdwn.

CHWI frodyr ymadawol,—
 Byddwch wych, byddwch wych,
 A phawb o'r Urdd Odyddol—
 Byddwch wych ;
 Er mwyned yw 'r gyfeillach,
 Eich doeth a'ch glân gyfrinach,
 Mae 'n rhaid ymadael bellach—
 Byddwch wych, byddwch wych ;
 Cawn etto gwrdd rhagorach—
 Byddwch wych.

Y mae pob Odydd ffyddlon,—
 Megis brawd, megis brawd,
 Yn nhywell nos trallodion—
 Megis brawd ;

+ Y gwreiddiol, gan Talhaiarn, yn Saesoneg.

Pan ballo cymmwynasau
 Yn nyffryn cysgod angau,
 Daw hwn i gau 'r amrantau—
 Megis brawd, megis brawd,
 A gwlychu 'r bedd â'i ddagrau,
 Megis brawd.

Mae 'n rhanu yn haelionus—
 Megis brawd, megis brawd,
 Ei fara i'r angenus,
 Megis brawd ;
 Mae 'n cynnal breichiau 'r gweinion,
 Yn rhwymo briwiau 'r cleifion,
 Yn parchu llwch y meirwon—
 Megis brawd, megis brawd.
 Yn sychu dagrau 'r gweddwon—
 Megis brawd.

Y mae ei law a'i galon—
 Gyda ni, gyda ni,
 Hyd angau saif yn ffyddlon—
 Gyda ni ;
 Trwy foliant a thrwy anghlod,
 Mewn hawddfyd, ac mewn trallod,
 Dŵg bŵys a gwrês y diwrnod—
 Gyda ni, gyda ni,
 Caiff ran o'r wobr uchod,
 Gyda ni.

Rhoed arwydd brawd o ffarwel—
 “ Felly mae, felly mae, ”
 A chadwed y gair dirgel—
 Felly mae.
 Llewyrched lamp ei gariad,
 Er diffodd haul a lleuad ;
 O'r gadair clywch hyspysiad—
 Felly mae, felly mae,
 Fod y Gyfrinfa 'ngheuad—
 “ Felly mae.”

ENGLYN I'R MORFIL.

Penciwdod yr holl bysgod byw—mawrfalch
 Yw 'r Morfil digyfryw ;
 Cawrfil o nerth anferth yw,
 Ymerawdr y môr ydyw.

CANIADAU CYFRINFAOL URDD Y DERWYDDON.*

Y GAN AGOROL.

Dowch, frodyr hoff sydd etto 'n cwrdd
 O amgylch y Derwyddol fwrdd,
 Yn unol ac yn llon ;
 I gyfraith rhyddid rhoddwn bar h—
 Ufudd-dod i'n Godidog Arch †
 A'r lân gyfrinfa hon.

Anrhydedd fo 'n llywyddu 'n llu,
 Cyfiawnder a gwirionedd cu,
 Brawdgarwch pur o hyd ;
 Pob genau glân, pob calon rwydd,
 A yf i'r Urdd Derwyddol lwydd,
 Hyd bellaf barthau 'r byd.

CROESAW I FRAWD NEWYDD.

CROESAW iti frawd di-lyth,
 Croesaw o hyn allan byth ;
 Boed dy gyfeillach ini 'n hir,
 Cyfiawnder, rhinwedd, cariad gwir.

Ar dy air ymddiried wnawn,
 O cadw ef a'n deddfau 'n iawn,
 Fel gair dy lŵ "ar gof yn wyrdd ;"
 Ein cyfaill wyt, a Brawd o'r Urdd."

Y GAN YMADAWOL.

FEL Brodyr Derwyddol,
 Rhown siampl rinweddol
 Ddifrychau i'r byd.
 Nac yfwn byth ormod,
 Mae 'n g'wilydd a phechod ;
 Ond daliwn dan ammod
 Ein rhyddid o hyd.

Pob cangen o'r Undeb
 Fo 'n cadw 'i chymmundeb,
 A'i llwyddiant y'nghyd ;
 Yn dala dirgelwch
 Ein cywir frawdgarwch,
 Cyfiawnder a heddwch,
 Hyd ddiwedd y byd.

* Cyfieithiad ydyw y pennillion hyn ; ein hawdwr oedd cyfieithydd eu
 Darlith-lyfrau, &c. † Archdderwydd.

Rhoed Duw o'i lys uchel
 I ni wrth ymad'el
 Ei fendith a'i sel ;
 I gadw 'n cyfrinion,
 Dan glo yn mhob calon,
 Nes cawn fel Derwyddon
 Gyfarfod a ddel.

NEU, FEL HYN.

Rhown siampl lân ddi-goll,
 Dderwyddol frodyr oll,
 O undeb pur.
 Ac yfwn yn ddi-wall,
 O gwppan sobrwydd call,
 Lawenydd yn ddi-bail—
 Heb gwyn na chur.

Boed pob Cyfrinfa lân
 Mewn undeb diwahan
 A llwydd di-drai ;
 Gwên cyfeillgarwch llon
 Ar wyneb pawb yn hon,
 A phurdeb yn mhob bron—
 Heb frad na bai.

Boed in' gyfeillach gref
 A glân Gyfrinfa 'r nef
 A'i hurddau hi.
 Yn nghalon pawb y bo,
 Fel rheol euraidd co',
 Y dirgel air dan glo
 Ein Hundeb ni.

Y DDERWEN BRYDEINIG.

(Yn y flwyddyn 1837.)

O'R Dderwen Brydeinig ardderchog ei drych,
 Y tyfodd teyrnwiail galluog a gwych,
 I lywio a noddi "Ynys y Seintiau,"
 Hoff dir cyssegredig yr Arglwydd ein Iôr,
 Gwladwriaeth ein dewrion odidog gyndadau.
 Prif rosyn y ddaear, a phrif em môr.

O'r Dderwen Brydeinig y daeth cangau heirdd,
 Dysgawdwŷr awdurol, deddf-roddwŷr, a beirdd;
 Iraidd frenhingyff, brodorol d'wysogion,
 Hir arswyd gelynion, gogoniant eu gwlad,
 Cyn sengi ei daear gan droed oeraidd estron
 Nac i "gwiwdod ormes" ei threisio mewn brad.

Yr hen Ddyfnwal Moelmud, a'i ddeddfau doeth glân,
 Uthyr Pendragon, a Caradog ap Brân;
 Brenhinllin Aedd Mawr, sefydlwŷr ein crefydd,
 Am oesoedd bu 'r teulu i'r deyrnas yn dŵr,
 Rhyw ffon o'r un cyff oedd Llywelyn ap Gruffydd
 A changen o'r Dderwen oedd Owain Glyndwr.

O dan yr hen Dderwen gysgodfawr a gwerdd
 Y canodd prif feirddion yr oesoedd eu cerdd,
 Bu 'n achles a nodded cywrain gelfyddyd,
 A thani y chwery 'r fwyn delyn ddi-nam,
 Y dawnsia ein merched o lanaf wynebpryd,
 Enyna gwrolder ein meibion yn fflam.

Os chwythodd 'storm oesoedd grin geingciau i lawr,
 Mae 'r gwraidd yn anfarwol, a'r brigyn yn fawr,
 Ni phalla ei *chalon* yn nydd rhyfelwriaeth
 Na 'i dewr Gymrodorion gwladgarol eu bryd
 Ni dderfydd cân Awen, nac yspryd milwriaeth,
 Nac iaith yr hen Gymry tra pery y byd.

CARIAD PUR.

[EFELYCHIAD.]

WRTH edrych un diwrnod ar wybren lās hâf
 O hiraeth am rywun mor bur y bu'm glâf,
 Wrth wel'd y ffurfafen, i'm côf y doist ti,—
 A ydyw dy enaid cyn bured i mi?

Wrth ganfod mewn cwmmwl haul gwridgoch yr hwy,
 Gofynais oes cariad mor wresog?—pwy wŷr?
 Fy ngwyneb a wridodd, i'm côf y doist ti,—
 A ydyw dy galon mor frwd attaf fi?

Wrth glywed y dyfnfor a'i donnau gwneyd'n 'stâr
 Hiraethais am gariad cyn ddyfned a'i ddw'r,
 Gwrandewais, pan rüodd, i'm côf doist ti,—
 A ydyw dy gariad mor ddwfn attaf fi?

Wrth weled trefn natur yn para 'n ddi-lyth,
 Y môr heb ymorphwys, a'r nef yn lâs byth,
 O dywed, F' anwylyd, 'r wy'n gofyn i ti,—
 A bery dy gariad fel natur i mi?

ENGLYNION.

BEDDARGRAPH MEDDWYN.

ANGHENFIL baril y bir—er rhybudd
 Y rheibiwyd yr anwir
 Gan Angau hen, gan ing hir,
 A phoeniad na orphenir.

Broliwr (fu 'n llyngcu barilau)—bolrwth
 A *twli* 'r tafarnau,
 Bragaldiwr, ymgegwr gau,
 A thyngwr hyd borth Angau.

Yn y dwfn bwll, un dafn bach—o ddw'r oer
 Ni ddaw i'w ran mwyach,
 Er cwyn hir, ceir canu 'n iach
 Bythol ond am fflam boethach.

Ei ddifa gan oddefaint—a'i daffu
 I'r diafliaid, ei geraint,
 I ddwyn poen ddi-hoen yn haint,
 Ac yfed gwin digofaint.

Cŵn annwn sy 'n cynnenu—am dano
 Ymdynnant o'i ddeutu.
 Yn y fflaidd ddofn ffau ddu,
 Yssant wrthodwr Iesu.

I'R RHYL.

DRYCH i leoedd ymdrochi—y Goror
 Ar gyrraedd Eryri,
 Yw "Rhyl ar làn yr heli."
 Y môr hallt yw ei mur hi.

Ugeiniau rhag angau ar gyngor,—i Rhyl
 Yr heliant bob tymmor;
 Cleifion wŷr mawrion i'r môr,
 A gwerin o bob goror.

Ceir y byd a'r cerbydau—a'u teithwŷr
 Yn tuthio 'n finteiau
 I'w dŵ'r, rhag anhwylderau
 A nyth hir, er mwyn iachau.

Gwell nâ chyngor doctoriaeth—a physyg
 Proffeswyr meddygiaeth
 I gannoedd feddyginiaeth
 Awelon tref ar lân traeth.

Er pleser i'r palasau—ewch, fonedd,
 Cewch fwyniant ei moethau,
 A chwi y llesg, i'ch wellâu,
 Ewch beunydd i'w chabanau.

Achles a 'spyttŷ' r nychlyd—a luniwyd
 Ar lannerch mor hyfryd—
 Gwlad fawr Gwaelod y Foryd,
 A'r *Bath* lle 'r ymdrocha 'r byd.

ENGLYNION I GLYCHAU GWRECSAM.

YN Ngwreccsam pen camp y côr—yw difyr,
 Ddeg tafod cyfeisor
 Clych tŷ mawl gwych temlog Iôr,
 Pyrth moliant parthau Maelor.

Clau chwery y clych chwarian,—fel tyner
 Fawl tannau, orhoian
 O oriel tafodau arian
 Delwog dŵr lluniog dŷ 'r llan.

I'R YWEN FEDDRODOL.

YWEN *glassig* hen eglwysydd—fawrwych
 Anfarwol gadeirwydd ;
 Plu elor-fen pobl wâr fydd,
 Mantell alar monwentydd.

Gwisg ydyw o gysgodau—ar wely
 Marwolaeth yr oesau ;
 Llen pabell ordywell dau,
 Perth i engyl pyrth angau.

O.Y.—Gadawsom allan lawer o Englynion, a holl Ganiadau Seisonig
 Glannor.